

ECO'R WYDDFA

Rhif 258
GORFFENNAF 1999
Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon
Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649
Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Ann Cumberton,
Gwastadnant (870356)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MEDI 2

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, AWST 23

Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD COPI	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU A
AWST	—	—	—	—
MEDI	AWST 23	MEDI 2	DINORWIG	Miss Marian Jones
HYDREF	MEDI 20	MEDI 30	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans
TACHWEDD	HYDREF 18	HYDREF 28	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans
RHAGFYR	TACHWEDD 20	RHAGFYR 2	CAEATHRO	Mr Clive James

Llythyrâu

Telegabana

Annwyl Olygydd,
Uned ar gyfer rhoi hyfforddiant
gyfrifiadurol ydy'r Telegabana.
Mae Antur Teifi, sy'n rhedeg y
cynllun wedi llwyddo i ddenu arian
Loteri i roi hyfforddiant
gyfrifiadurol yn rhad ac am ddim i
fudiadau gwirfoddol. Bydd yn cael
ei gosod yn Ysgol Gynradd Llanrug
ar Gorffennaf 7-9fed, 1999.

Byddai'n braf petae'r mudiadau
sy'n gweithredu o fewn ardal yr
Eco yn gallu elwa ar hyn ac felly
hoffwn eich gwahodd fel mudiad
i'r hyfforddiant. Hefyd os y
gwyddoch am rhyw fudiad neu
gymdeithas arall rhwch wybod
iddyn nhw.

Mae'r lle yn eitha cyfyng — lle
i tua 8 ar bob sesiwn. Amgeuaf
daflen amser. Os gwelwch yn dda
a fedrwch ffonio i archebu lle. Y
cyntaf i'r felin. Edrychaf ymlaen i
glywed oddi wrthych.

Yn gywir,
Meinir Jones
(Swyddog Datblygu)

Galw ar gyn-fyfyrrwyr

Mae cyn-fyfyriwr o Brifysgol
Bangor wedi penderfynu ail greu ei
ddyddiau coleg trwy drefnu noson
arbennig yn ystod Eisteddfod
Genedlaethol Ynys Môn eleni.
Mae'r noson, a fydd yn agored i
gyn fyfyrwyr a fu yng ngholegau
Bangor rhwng 1978 a 1981, am
weld ail ffurfio un o grwpiau gorau
Cymru erioed, sef yr anhygoel
Angylion Stanli. Bydd yr Angylion
yn cefnogi un o grwpiau gorau'r
presennol sy'n chwrae
cerddoriaeth o'r un cyfnod, sef Ap
Ted a'r Apostolion. Dywed y
trefnydd, Eirian Bradley,
'Mae'n ugain mlynedd ers i ni fod
gyda'n gilydd yn y coleg a bu'r
blynyddoedd hynny yn rhai cyffrous
iawn i bawb oedd yno. Roedd yn adeg
pan roedd y sin bop Gymraeg yn ei
hanterth gydag amrywiaeth mawr o
grwpiau a noson o gerddoriaeth llawn
hwyl ac egni'n digwydd yn wythnosol.
Wrth i'r hen griw gyrraedd eu
pedwardegau roeddwn am weld os oes
bosib ail greu awyrgylch y cyfnod, neu
a ydy pawb wedi mynd yn rhy
barchus?'

Cynhelir y noson ar nos Fawrth
yr Eisteddfod, sef y 3ydd o Awst,
yn Nhafarn y Rhos, Rhostrehwfa
ger Llangefni. Nifer cyfyngedig o
docynnau sydd ar gael ac i sicrhau
lle yn y noson unigryw hon
gofynnir i bobl gysylltu gydag
Eirian ar (01286) 676354 cyn
gynted ag y bo modd. Bydd
unrhyw elw o'r noson yn mynd
tuag at achosion da lleol.

DIOLCH YN FAWR

2 Mehefin 1999

Annwyl gyfeillion,
Yr ydym ni yn Samaritan's
Purse/Operation Christmas Child
yn ddiolchgar dros ben i bob
cymdeithas ac i'r cyhoedd yn
gyffredinol am y cymorth llethol a
gafwyd i gynorthwyo ein Apel i
Kosovo. Mae'r ymateb wedi ein
galluogi i yrru tunnelli o fwyd ac
eitemau eraill i Ardal y Balkans ac
hefyd i weithio i adeiladu
gwersyllau i'r ffoaduriaid yn
Macedonia ac Albania. Heb eich
cymorth, ni fuasai'n bosibl i ni
gario allan y gwaith pwysig hwn.

Cymdeithas Gristnogol,
ddyngarol yw Samaritan's
Purse/Operation Christmas Child
sydd yn gweithio i roi cymorth
meddygol, bwyd a chymorth o bob
math i bobl sy'n dioddef o achos
rhyfela, angen a thrychinebau
naturiol o amgylch y byd. Ein
gwaith diweddaraf yn Albania yw
adeiladu gwersyll anferth i'r
ffoaduriaid yn Hamallaj i'r gogledd
o Tirana yng ngogledd Albania.
Mae'n bwysig iawn i agor y
gwersyll newydd yma am fod yr
agoriad yn mynd i wella
cyfleusterau i'r ffoadurion sydd ar
hyn o bryd yn byw mewn canolfan
chwaraeon yn Tirana — Tirana
Polati i Sporti. Yma mae
cyfleusterau byw yn gywilyddus,
mae'r ganolfan yn orlawn ac mae
awydd mawr gan y ffoaduriaid i g
ael cyfleusterau byw sydd yn well.

Pan oeddwn allan yn Albania
ddiwethaf, siaredais â Ramadan
Hazrluaj a oedd yn dweud ei fod
ef a'i deulu yn awyddus i gael
cyfleusterau byw gwell. Yr oedd
wedi clywed am y gwersyll
newydd ac yr oedd yn edrych
ymlaen i symud i mewn yno.

Mae gwersyll Samaritan's Purse
yn Hamallaj yn un rhan o gynllun
UNHCR ac fe fydd yn un o'r
gwersyllau mwyaf yn Albania. Fel
mae pethau yn digwydd o amgylch
Kukes, yn ymyl y ffin â Kosovo,
mae'r gwersyll yn Hamallaj yn agor
ar yr amser cywir ar gyfer symud
y ffoaduriaid.

Fel mae pethau yn sefyll ar hyn
o bryd yr ydym yn barod i
gymhwyso 2,500 o ffoaduriaid yn
y gwersyll. Fe fydd hyn yn
digwydd dros wythnos neu ddwy,
a thros yr amser yma hoffwn gael
gwybod am fedr y Kosovars i
redeg y gwersyll eu hunain. Yr

ydym yn gobeithio rhoi'r
cyfrifoldeb o redeg y gwersyll yn
nwylo'r Kosovars ac yr ydym yn
chwilio am athrawon, meddygon,
peirianwyr a phob math o bobl i
weithio yn y gymuned. Yr ydym yn
gweld hyn fel un ffordd i alluogi'r
Kosovars i gymeryd rheolaeth dros
eu bywydau gan fod hyn yn
bwysig iddynt. Pa fodd bynnag, y
peth uchaf yn eu meddwl yw
dychwelyd yn ôl i'w cartrefi ac i
ddechrau byw unwaith eto.

Mae ein gwaith yn yr ardal yma
yn mynd i barhau am gryn amser
i ddod. Yn fuan iawn fe fyddwn yn
dechrau ein gwaith pwysig tuag at
y Nadolig ac felly am ychydig o
amser fe fydd y ddwy apêl yn
digwydd ochr yn ochr.

Unwaith eto, diolch o galon i
bawb sydd wedi ein cynorthwyo
yn ein gwaith pwysig.

Yr eiddoch yn gywir
Dave Cooke

Cais am gymorth

Annwyl Olygydd,
Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu o
brosiect diweddaraf Canolfan
Uwchefrydiau Cymreig a
Cheltaidd, Prifysgol Cymru. Mae'r
Ganolfan yn cynnal arolwg i geisio
astudio'r berthynas rhwng
twristiaeth a'r gymuned leol yn
ardal Llanberis.

Rhan o gynllun ehangach yw
hwn sy'n cael ei noddi ar y cyd
rhwng y Brifysgol, y Gymuned
Ewropeaidd, Cyngor Gwynedd a
Chyngor Sir Ynys Môn. Bydd
astudiaethau tebyg yn cael eu
cynnal yn yr Alban, Iwerddon,
Sbaen a'r Iseldiroedd.

Byddaf yn ymgymryd â'r gwaith
maes yn Llanberis a Nant Peris yn
ystod mis Awst. Seilir y gwaith ar
wasgaru holiaduron ymysg y
trigolion lleol ac aelodau o'r
diwydiant twristiaeth ynghyd â
chfyweld â rhai unigolion yn yr
ardal. Byddaf yn ddiolchgar am
bob cydweithrediad a dderbyn yr
astudiaeth hon. Os nad i rai o'ch
darllenwyr dderbyn holiadur bydd
perffaith groeso iddynt ysgrifennu
ataf gyda'u sylwadau. Byddwn yn
hynod ddiolchgar am unrhyw
gyfraniadau a gallaf eich sicrhau y
delir â hwy yn gwbl gyfrinachol.

Edrychaf ymlaen at ymweld â'ch
ardal a chwrdd rhai o'ch
darllenwyr.

Gyda phob diolch,
Catrin Thomas

Cynorthwydd Ymchwil



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

'Bon Marche' ynteu 'Bon Voyage'!!



Mae Annette Bryn Parri, y cerddor a'r cyfeilydd o Ddeiniolen, wedi bod yn awyddus i sefydlu busnes ers rhai blynedd. Fel y gallech ddisgwyl, siop gerdd oedd yr ystyriaeth gyntaf. Ond ar ôl teithio cryn dipyn ei hun, gan gyfeilio yn yr Almaen, Nigeria, Hong Kong, Awstralia — a hefyd ar y QE2 — mae Annette yn hoff o drefnu teithiau i bobl eraill, a sicrhau bargeinion wrth gwrs!

Ac felly, dyma Annette a Gwyn, ei gŵr, yn gwneud tipyn o ymchwil i'r farchnad. Ac erbyn meddwl, heb anghofio Bangor a Chaernarfon, 'does dim 'siop asiantaeth deithio' yn ardal Eco'r Wyddfa.

Cartref y fenter newydd hon fydd 48 Stryd Fawr, Llanberis, lle'r oedd siop CLON hyd yn ddiweddar a hen siop 'Bon Marche' cyn hynny. Mae Annette a Gwyn o'r farn fod dyfodol disglair i Lanberis, yn sgîl sefydlu Partneriaeth Llanberis ac yn sgîl Prosiect Ardal y Llechen.

Erbyn hyn, mae Annette, a enillodd radd mewn cerddoriaeth yn 1984, wedi dilyn cwrs Ymwybyddiaeth Busnes gydag Antur Menai, ac ar hyn o bryd mae'n dilyn cwrs cyfrifiaduron. Ym mis Awst, bydd yn mynychu cwrs gyda 'Global Travel Group Plc' ger Caer, sef y cwmni y bydd Teithiau Peris yn prosesu ei fusnes drwyddo.

Ond, a yw sefydlu Teithiau Peris yn golygu na fydd Annette yn parhau i ddiddanu cynulleidfaoedd led-led Cymru? 'Nac ydy,' meddai Annette, 'ond am fod bywyd teuluol a chychwyn menter newydd yn bwysig i mi, dwi'n bwriadu dethol a dewis fy nghyngherddau a fy sesiynau

recordio yn well. I ddweud y gwir, hwyrach y caf fwy o flas ar chwarae piano ar ôl mis Medi.'

Ie, ar y 1af o Fedi y bydd drysau Teithiau Peris yn agor i gwsmeriaid. Ond bydd un achlysur pwysig cyn hynny, sef lansio Teithiau Peris yn swyddogol gan neb llai na **Bryn Terfel** — dydd Sadwrn, 28 Awst am 11 o'r gloch.

'Dwi wedi cydweithio efo Bryn ers blyneddodd bellach,' meddai Annette. 'Mae Gwyn a finna'n hynod o falch o'i lwyddiant, ac mae mor braf clywed canmol iddo ym mhob cwr o'r byd.'

'Ac fel un sydd wedi mynd ag enw Cymru i wahanol rannau o'r byd, a theithio cymaint ei hun, allwn ni ddim cael neb gwell i agor yn swyddogol Teithiau Peris.'

Gyda'r nos, bydd ffrindiau agos i Annette a Gwyn — Hogia'r Wyddfa a Chôr Meibion Dyffryn Peris — yn helpu i ddathlu'r achlysur.

A beth fydd swyddogaeth Gwyn yn y fenter? 'Mi ydw i yn "bartner" i Annette, ond mi fydda i yn parhau yn fy swydd fel Prifathro Cynorthwyol yng Ngholeg Meirion Dwyfor,' meddai Gwyn. 'Dwi'n hoffi delio â'r ochr "fusnes" i betha — cynllun busnes, cyflogaeth ac ati. Ond Annette fydd yn rhedeg petha' o ddydd i ddydd, ynghyd ag un person arall, dan hyfforddiant.'

Mae Annette yn mawr obeithio y bydd yr holl gysylltiadau sydd ganddi hi a Gwyn yn sicrhau llwyddiant i Teithiau Peris. Gobeithia y caiff gefnogaeth trigolion ardal yr Eco, ond nid yw lle'r ydych yn byw yn bwysig o safbwynt trefnu gwyliau, yn ôl Annette.

'Mae gan Global Travel raglen gyfrifiadurol hynod o bwerus a chyflym,' meddai Annette, 'ac er bod trefnu gwyliau wedi mynd i gyfeiriad "telesales" a'r Rhyngwryd, mae'r gwasanaeth personol un-i-un yn dal i fod yn bwysig.'

Ac felly, beth fydd gan Teithiau Peris i'w gynnig?

- gwasanaeth effeithlon a chyfeillgar;
- gwasanaeth dwyieithog;
- gwyliau wedi eu teilwra i ateb anghenion yr unigolyn neu'r teulu;
- trefniadau hedfan yn unig;
- y pecyn cyflawn, h.y. bws-mini o ddrws y tŷ, trefniadau hedfan, gwesty neu apartment a llogi car os y dymunwch;
- arbenigedd mewn trefnu teithiau tramor i gorau ac i ysgolion;
- bargeinion munud olaf;
- teithiau tramor gyda chantorion o Gymru.

GWIRFODDOLWYR

Mae criw gwaith Siop Bryn Pistyll yn edrych am gymorth gwirfoddol ar frys am gyfnod i gynorthwyo yn y gegin.

Os oes gennych ychydig o amser i'w sbario, a'ch bod yn mwynhau coginio a gwaith llaw, bydd criw y Siop yn falch iawn o'ch gweld.

Am fwy o fanylion, ffoniwch:

01286 650 721

Bryn Pistyll, Waunfawr



ANTUR WAUNFAWR

CARNIFAL LLANBERIS

10 - 17 Gorffennaf, 1999

Gweithgareddau'r Wythnos

Nos Sadwrn, 10 Gorffennaf

Noson Coroni'r Frenhines
yng Ngwesty'r Dolbadarn am 6.30
gydag artistiaid lleol

Nos Lun, 12 Gorffennaf

Gyrfa Chwist yn Y Ganolfan am 7.30
Cystadleuaeth Pŵl yng Ngwesty'r Fictoria am 8.00

Nos Fawrth, 13 Gorffennaf

Mabolgampau ar Ddôl y Goeden am 6.30
Cystadleuaeth Cwis yng Ngwesty'r Prince of Wales am 9.00

Nos Fercher, 14 Gorffennaf

Disco'r plant yn Y Ganolfan, 6.30-8.30
Cystadleuaeth Dartiau: Clwb Cymdeithasol Llanberis a'r Cylch am 8.00

Nos Iau, 15 Gorffennaf

Pêl-droed a Phêl-rwyd ar Ddôl y Goeden am 6.30

Nos Wener, 16 Gorffennaf

Bingo yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis a'r Cylch am 7.30

Dydd Sadwrn, 17 Gorffennaf

Ras Pram yn cychwyn ger Banc y Midland am 11.30
ac yna'r

CARNIFAL

Yr Orymdaith yn cychwyn ger Gwesty'r Prince of Wales am 1.00
Agorir y Carnifal gan **Dewi Pws**

Cystadleuthau Gwisg Ffansi

Seindorf Llanberis / Seindorf Deiniolen / Seindorf Rochdale
Hen Gerbydau / Dawnsywyr Morus / Band Samba Bangor
Arddangosfeydd / Pêl-droed / Gymnasteg / Karate
Arwerthiant Cist Car / Stondinau / Punch a Judy / Ffair Fach
Ras Rafft / Sioe Gŵn / Arddangosfa Tân Sosban Sglodion


PRIF NODDWR Y CARNIFAL — FIRST HYDRO

PLESERDEITHIAU HANESYDDOL

AR FWRDD

SEREN YR WYDDFA

BARC GWLEDIG-PADARN
Y GILFACH DDU, LLANBERIS



Camwch yn ôl mewn amser ar fwrdd Seren yr Wyddfa.

Mwynhewch daith hamddenol ar gwch dan orchudd ar Lyn Padarn, gyda golygfeydd panoramig o Eryri. Mae'n gyfle perffaith i dynnu lluniau a gwrandao ar hanes y cyffiniau.

Bydd y cwch yn hwylio o'r lanfa 200 llath o'r Amgueddfa Lechi a maes parcio Rheilffordd y Llyn.

Oedolion	£3.50
Yr Henoed	£3.00
Plant o dan 15	£2.00
o dan 3	Am ddim
Teulu 2 + 2	£10.00

Mordeithiau

Hanesyddol Menai

Holwch ynglŷn â theithiau preifat a mordeithiau estynedig.

Prisiau partion ar gael.

Ffôn: 07974 716418 (dydd)

01248 671156 (gyda'r nos)



Bydd y cwch yn rhedeg bob dydd tan fis Hydref o 11am tan 5pm, os bydd y tywydd yn caniatau. Mae pob taith yn para 40 munud. Cymeradwyir y cwch gan yr Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau.

'L.M.F.' (5) gan Y GWALCH

Ar ôl rhedeg i lawr rhyw hanner teras o dai maluriedig, sylweddolodd Norman fod y dyn yn ennill arno. Doedd dim amdani ond troi i mewn i un o'r tai a oedd heb ddrws ffyrnt gan obeithio cael cuddfan. Cafodd gip sydyn ar yr alanas oedd yn yr ystafell fyw wrth ruthro drwyddi i'r gegin fach, a rhoddodd glep ar ddrws honno ar ei ôl, ac ar hynny clywodd ru fel taran o'r tu ôl, ac yna dawelwch mawr. Ceisiodd agor y drws ond yr oedd rhywbeth yn ei atal, ond o'r diwedd llwyddodd i specian heibio i'r postyn, a gwelodd olygfa fel pe bai'r lle wedi bod ar lwybr dacargryn. Roedd yno domen o frics a distiau a dodrefn yn un chwalfa fawr, ond nid oedd olwg o'i ymlidiwr. Credai Norman fod y glep a roddodd ar y drws wedi dod â'r llofft i lawr yn rwb mewn tŷ a oedd yn barod yn gwegian. Roedd o a'r dyn tân wedi bod yn ffodus.

Arhosodd o fodd bynnag ddim eiliad chwaneg i ryfeddu. I ffwrdd â fo allan drwy'r cefn ac i lawr rhyw heol arall. Roedd yna amryw o bobl o gwmpas erbyn hyn, ond nid oeddent yn rhoi dim sylw iddo. Roedd gweld dyn tân ar rās yn olygfa ddigon cyffredin yn Llundain yr adeg honno.

Arafodd yn y diwedd o orfodaeth ac aeth i mewn i dŷ maluriedig arall. Doedd yna ddim prinder o guddfannau yn yr ardal honno. Doedd neb ar gyfyl y lle a dringodd Norman i fyny i'r llofft. Roedd darn o'r to wedi cael ei sgleisio yn dwt fel teisen gan ffrwydriad, ond serch hynny roedd y llestri bach cain ar y dodrefn yn hollol gyfan. Yn yr ystafell gefn roedd yna wely o faint a thaflodd y llanc ei hun arno ac yn fuan iawn yr oedd yn casgu heb gymhelliad o gwbl.

Ni ddeffrodd nes yr oedd hi'n hwyr brynhawn, a rhyw sŵn islaw â wnaeth iddo wneud hynny. Cododd i ben y landin i specian i lawr, ac yn y man gwelodd rhyw hen wreigan yn croesi gwaelod y grisiau hefo llestri yn ei llaw. Arhosodd ar y landin am ysbaid, a chan na chlywai sŵn siarad islaw, aeth i lawr yn hyf.

Roedd yr hen wraig erbyn hyn yn y gegin fach â'i chefn ato.

'Hello mother,' meddai Norman. 'How you getting on then?'

Neidiodd yr hen wraig gan afael yn dyn yn ei chadach.

'Lor' luvaduck,' meddai. 'You didn't half give me a turn. Where did you spring from?'

'Yn bwysicach, o'r lle daethoch

chi?' gofynnodd Norman. 'Wyddoch chi nad ydy hi ddim yn saff i bobol ddod yn ôl i'r tai 'ma yn y cyflwr y mae nhw heb iddyn nhw gael eu harchwilio i ddechra. Dyna ydw i'n neud rwan. Mi ddaeth 'na rwb i lawr mewn tŷ i fyny yn y fan yna dest rwan,' ychwanegodd gan ymffrostio mewn tipyn o wir am unwaith.

'Wedi bod hefo fy chwaer ydw i wyt ti'n gweld tros nos yn gwmpeini,' meddai'r hen wraig. 'Mae'r hen foms yma yn betha mwy brawychus o lawar na'r eoplenys. Roedd yna bobol i mewn yn rheiny, ond hefo rhain ... Gwrandda, mi rydw i'n mynd i ferwi,' meddai ar y gwynt nesaf. 'Lwcus fy mod i wedi cadw'r stôf baraffin yma, mae'r gas wedi ei falu. Wnei di ddim gwrthod panad debyg?'

Tra yr oedd y tecell yn twymo sylwedd Norman ei bod hi'n paratoi pryd. 'Mae'n siwr y basa ti'n licio tamad i'w chanlyn hi,' meddai gan estyn torth ac ŵy o rhywle.

'Peidiwch â thlodi eich hun yn hen fusus,' meddai Norman gan wybod mai dim ond y dogn hwnnw oedd ganddi am yr wythnos mae'n debyg, er fod ei stumog yn gwrthddweud pob gair.

'Tyrd yn dy flaen,' meddai hi wedyn yn gartrefol. 'Wn i ddim beth fasa ni'n neud heb rai 'run fath â chdi rwan.'

Doedd gan Norman ddim ateb i hynny, ond yn ddiweddarach yn y gegin fyw wrth sgaffio'r mymryn brecwast, sylwedd ar y lluniau ar yr ochr: Dyn mewn dillad milwr a dau lanc yn lifrai'r RAF, 'aircrew' yn ôl eu bathodynau.

'Y gŵr oedd hwnna ydi,' meddai'r hen wraig wrth ei weld yn syllu. 'Yn y Rhyfal Mawr. Mi ddaeth adra yn fyw ond yr oedd o wedi cael ei gasio. Mi ges fy ngadael yn weddw yn fuan wedyn i drio magu'r ddau hogyn yma. Sgwrio lloria pobol yr oeddwn i ar fy nglinia am rhyw hanner coron. A rwan mae'r ddau yn hon eto. Fuo dim raid i ti fynd debyg hefo'r 'Fire Brigade?'

'Naddo, ddim hyd yma beth bynnag,' ac ni fedrai lai na gofyn ble'r oedd y meibion.

'Yn Lincoln yn rhywla. Mi fydda i'n gwrandda arnyn nhw yn mynd trosodd yn y nos, ac ofn gweld yr hogyn teligrams yn y drws yn y bora.'

'Ydy, mae hi diyn o hen swydd,' meddai Norman.

'Dim peryclach na dy un di debyg. Ond mi glywis sôn fod na rai yn torri i lawr weithia; mynd yn dipia. Ei nyrf

I ALLT RIWTH

RWYN DALLT YR A,

- I LANRUG

ELO'N RHWYDD ODDI YMA.

GER C'NARFON, TRE DYNION DA,
AT WILLIAMS REIT I WALA.

Gwynedd

Derbyniwyd yr amlen uchod gan John Ellis Williams, yn cynnwys llythyr gan Mr Aled Lloyd Davies, yr Wyddgrug. Fe gyrhaeddodd yn ddiogel diolch i lfan y Postman a'i gyd-weithwyr.

nhw yn mynd wyt ti'n gweld. Does 'na fawr syndod chwaith. Duw a ŵyr be' mae nhw'n weld.'

Ddywedodd Norman ddim am hynny. Trodd y sgwrs i gyfeiriad arall.

'Be' ydach chi am neud rwan?' gofynnodd.

'Wel, mi fydd yn rhaid i mi edrach ar ôl y lle 'ma fel mae o, i'r hogia gael cartra i ddod iddo fo. Dydy rhai ddim tu draw i ddwyn o dai fel hyn wyddost ti. Dydy pobol yn ofnadwy? Ac wrth gwrs fy nghartra i ydy o te, llanc, lle gwnaethon ni ddechra byw a magu'r hogia.'

Tawedog iawn oedd Norman erbyn hyn, ond daeth iddo'r sylweddoliad mai fel hyn yr oedd mamau Berlin hefyd, a Hambrug a Cologne, lle bu yn treulio nosweithiau yn dinistrio eu cartrefi.

Yna daeth y cwestiwn disgwylidig. 'Yn lle'r wyt ti'n byw?'

'Yn y barics tân,' meddai Norman yn ddibetrus.

'Taw di. Nid un o'r ffordd yma wyt ti?'

'O'r gogladd. Mi ges fy anfon i lawr hefo criw.'

'Mae dy fam ditha yn poeni felly?'

'Siwr o fod.'

'Lle yr ei di rwan felly?'

'I'r barics i gael cyntyn. Mi rydw i ar y nos heno.'

'Mi gei di roi dy ben i lawr yn y fan yma am rhyw awr os leci di. Mae 'na wely yn y rwm gefn 'na.'

'Wel wna i ddim gwrthod,' meddai Norman. Aeth i fyny'r grisiau wedyn a doedd arno ddim angen cyfarwyddyd, a chysgu yno wnaeth o hyd y dywedydd, a phan aeth i lawr yr oedd yr hen wraig yn paratoi i fynd at ei chwaer am y noson. 'Mi ddof i lawr y stryd hefo chi,' meddai Norman, ac ar hynny daeth clec uffernol yn rhywle heb fod ymhell.

'Mae'r hen betha 'na yn dal i ddod,' meddai'r hen wraig, fel pe bai rhywun wedi dweud fod y rhyfel trosodd.

Wrth fynd i lawr yr heol fodd bynnag gwelodd Norman fod tân o faint ar ben y stryd a gwyddai y buasai yno ddiffoddwyr, y bobl ddwaetha yr oedd yn dymuno mynd ar ei ben iddynt.

'Mae arna i ofn y bydd yn rhaid i mi eich gadael chi yn y fan yma yr hen fusus,' meddai, a chyda diolchiadau, a siars ar ei rhan hi iddo ddod i'w gweld wedyn, gwahanodd eu llwybrau, ond cyn gynted ag y trodd y gongl, aeth yn ei ôl i'r tŷ. Chwiliodd am fwyd yn y cypyrddau, ond yr oedd yr hen wraig wedi bod yn ddigon doeth i fynd â'i dogn i'w chanlyn. Ond yr oedd y gwely cefn eto yn groesawgar.

Trannoeth nid aeth allan hyd ganol y bore. Yr oedd wedi tynnu'r gôt erbyn hyn a'i lapio yn fwndel o dan ei gesail, ac wrth ddal i gerdded canfyddodd ei hun yn ardal Wandsworth, a daeth i sgwâr bychan, ac yno ar yr ochr yr oedd stondin yn gwerthu te yn cael ei chadw gan ddynes mewn tipyn o oedran. Cafodd Norman banad yno a bynsan glatch, ac ar hynny daeth dynes yno gyda lodes fach bumlwydd oed debygai Norman. Roedd y ddynes yn haldian cês o faint, ac wedi archebu panad eisteddodd arno yn flinderus a'i phen yn ei dwylo.

'Hello little maid,' meddai Norman wrth y plentyn yn y diwedd. 'Would you like a bun then?'

Does dim fel plant i dynnu pobl at ei gilydd. Dechreuodd y ddynes siarad fel pistyll melin; y math o lefaru a geir gan rai wedi cael eu dychryn a'u tarfu a'u byd wedi mynd yn groes. Heb gael ei holi dywedodd wrth Norman a'r ddynes fel yr oedd hi a'r lodes wedi mynd allan y diwrnod cynt am rhyw awr, ond erbyn iddynt ddychwelyd yr oedd eu tŷ yn wastad â'r llawr. 'Dyma hynny sydd gen i ar fy elw,' meddai yn dorcalonus, 'ydy cynnwys y cês yma.'

Aeth yn ei blaen wedyn i ddweud fel yr oedd hi wedi mynd hefo'r plentyn i fyw at ei modryb i Dde Cymru. 'Ond yr oedd hi'n dawel iawn yno. Mi ddois yn fy ôl gan feddwl fod y gwaetha trosodd, a does gen i ddim modd i fynd yn ôl.'

Wrth wrando daeth i Norman syniad sydyn fel y rhai yr oedd yn ei gael drwy orfodaeth yn ddiweddar. 'Mi rydw i'n cael wythnos o "leave" o'r gwasanaeth tân,' meddai. 'Roeddwn i wedi meddwl mynd i'r fan honno fy hun am newid. Mi gewch ddod hefo fi os mynnwch chi. Mi allwn i fodio ein ffordd.'

Credai na fusai yna gymaint o chwilyfydd yn ei gylch pe bai yn cael ei weld yng nghwmni gwraig a phlentyn.

Roedd profiadau y fam wedi ei hurtio cymaint fel na wnaeth hi ddim ond cydsynio ar unwaith, a hynny hefyd drwy gynorthwy dynes y stondin. 'I wouldn't pass over an offer like that, duckie, if I was you.'

Cychwynasant ar y funud, a doedd rhyddhad y ddynes ddim wedi caniatáu iddi weld dim o'i le yn y ffaith nad oedd gan Norman affliw o ddim eiddo i'w ganlyn, a thrwy gael cludiant gan lori oedd yn cario rwbai a neidio ar amrywiaeth o fwsiau, a chael saib i gael lluniaeth ysgafn mewn pentre, roeddent yng

(parhad ar dudalen 25)

Trin Traed Gwartheg



'Crush' pwrpasol gan W.O.P.A.

Ar gyfer buwch neu darw

Hefyd:

Ymgymerrir â shafio gwartheg tew

Dylan Roberts

Penllech Bach, Tudweiliog, Pwllheli

(01758) 770279 : symudol 0421 956143

'Un funud fach . . .'

CANU KEANU

Mwd, mwd a mwy o fwd. Roedd yna ddigon ohono fo yn 'Steddfod yr Urdd eleni. Mae'n gas gen i adael cae 'steddfod cyn diwedd pnawn, ond rhaid cyfaddef i mi droi am adref amser cinio o fwd Llanbed. Mae'n debyg na faswn i'n dda i ddim yn Glastonbury felly. Fues i rioed yno, a chan mai caneuon John, Paul, George a Ringo ydi'r unig rai dwi'n eu gwybod, mae'n debyg y baswn i fel rhyw belican yn yr anialwch, neu chwadan allan o ddŵr, yn yr ŵyl honno.

Ond o gadw draw eleni eto mae'n debyg i mi golli golygfa a hanner. Roedd yr actor-ganwr, Keanu Reeves, ar y llwyfan a chafodd y creadur ei bledu efo ffrwythau a photeli plastig. Druan ohono. Ar y radio fore Llun y clywais yr hanes, a'r adolygwraig yn egluro fod yr arwr seliwloid yn cael ei bledu am fod ei ganu mor sobr ac anobeithiol. Ond hanner awr yn ddiweddarach dyna agor y papur newydd, a chael ar ddeall mwy oedd y pledu, a rhan o'r croeso a'r gwerthfawrogiad o berfformiad Mr Reeves a'i fand. Pwy oeddwn i fod i'w gredu?

Yr un digwyddiad, ond dwy olwg gwbl wahanol arno. Mi gewch chi'r un peth efo'r hanes am groeshoelio Iesu Grist. Mae rhai'n mynnu mai gwastraff llwyr oedd y digwyddiad hwnnw, a'i bod yn drasiedi fawr na fyddai'r Iesu wedi cael byw i gyflawni ei waith o ddysgu, ac i fod yn esiampl i'w ddilynwyr. Ond mae'r Beibl yn gweld pethau'n wahanol, ac yn gosod y gathol ynghanol y neges Gristnogol. Ar y groes yr oedd Iesu Grist yn cyflawni ei waith. Wrth farw yr oedd Iesu'n gwneud gwaith mwyaf ei fywyd. Y groes ydi'r uchafbwynt yn ôl y Beibl, gan mai dod i'r byd i farw drosom oedd holl fwriad yr Iesu.

Ond pwy gredwn? Dydi o fawr o ots ai'r radio ynteu'r papur newydd oedd yn iawn y bora'r ma. Ond mae o'r pwys mwyaf pwy sy'n iawn ynglŷn â'r groes. Ac mi wn i pwy dwi'n ei gredu.

JOHN PRITCHARD

DRAENOG

Aeth dyn â camera ei wraig i siop leol gan egluro fod y ffilm yn sownd yn y camera ac yn gwrthod weindio'n ôl. Ond pan agorwyd cefn y camera doedd dim ffilm ynddo o gwbl. Ac roedd y ddau wedi bod ar eu gwyliau, a'r wraig wedi bod wrthi'n brysur yn tynnu lluniau drwy'r wythnos! Gair i gall: iddi hi roi ffilm yn y camera'r tro nesa; ac iddo fo ofalu wrth bwy y bydd yn dweud yr hanes. Mae'r Draenog, 'da chi'n gweld, yn gallu cario straeon am ei dylwyth ei hun.

DRAENOG

A'r trydydd dyn blêr yw'r un aeth i brynu tri-darn eistedd newydd. Pan gyrhaeddodd dodrafn Rhes y Graig gwelwyd fod y tri-darn yn rhy fawr i fynd trwy ddrws y tŷ. Bu raid tynnu dau ddrws a ffenast er mwyn cael y dodrafn i mewn.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390



Natalie Griffiths, Brenhines Carnifal Llanberis gyda'i gosgordd o'i blaen, Anwen Roberts, Sera Parry a Jason Jones.

LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i Mrs Doreen Roberts, 50 Maes Padarn ar achlysur ei phen-blwydd yn 60 oed ar Gorffennaf 29, oddi wrth ei theulu a'i ffrindiau oll.

DIOLCH: Dymuna Evelyn, Derek, Ian a Nia ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy o golli Mam, Nain a hen Nain annwyl iawn. Diolch am y cyfraniadau hael - cyfanswm £560.00 i'w rannu rhwng Meddygfa Tan y Bont, Llangefni a Ward Tryfan Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr iawn. DYMUNA Mrs Joyce Jones, 27 Dol Elidir ddiolch o galon i'w pherthnasau, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau, anrhegion ac arian dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar. Diolch yn fawr i chi i gyd.

CAPEL COCH: Fe gasglwyd £78 at waith y Genhadaeth ac fe'i anfonwyd i Sasiwn y Chwiorydd, Gogledd Cymru yng Nghricieth fis Mai. Diolch i bawb a gyfrannodd. CAPEL JERUSALEM: Mewn cyfarfod o'r Gyfeillach ar Fehefin 2il o dan lywyddiaeth Mr Robert Thomas, cafwyd cyfle i ymweld â Rhufain trwy sgwrs a sleidiau gan y Parch Gwynfor Williams. Cyfeiriodd yn arbennig at Sant Paul a Chwstenin Fawr ac ysblander yr adeiladau a'r eglwysi i gofio am y gwahanol Apostolion, a ffyddlondeb y bobl tuag at eu crefydd a'u gofal am yr eglwysi hardd. Cafwyd sgwrs yn dilyn a diolchiadau gyda lluniaeth ysgafn. Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, Gorffennaf 7fed am 2 o'r gloch. Y gŵr gwadd fydd y Parch H Gwynfa Roberts. Croeso cynnes i bawb.

UNDEB Y MAMAU: Drwy haelioni a charedigrwydd y Rheithor a'i wraig yn y Rheithordy cynhaliwyd y cyfarfod misol bnawn dydd Mawrth, Mehefin 1af. Arweiniodd y Rheithor y gweddïau agoriadol. Dwy aelod o'r Gangen oedd yn ein diddori, sef Mrs Hilda Williams a Mrs Nan Owen - y ddwy wedi treulio gwyliau yn gynharach yn y flwyddyn gyda'u teuluoedd yn Awstralia. Dangoswyd fideo a lluniau, ac yr oedd harddwch a ffordd o fyw y wlad yn gwneud rhywun reit genfigennus a dweud y lleiaf.

Mrs Bet Hughes ddiolchodd i'r ddwy ac hefyd i'r Rheithor ac eiliodd Mrs Clara Roberts. Enillydd y raffl oedd Mrs Bet Hughes. Yn ymorol am y baned roedd Mrs Gwen Williams a Mrs Audrey Evans. Adroddwyd gras i derfynu.

DIOLCH: Hoffai Martin Jones a Tricia Thompson, gynt o Ddol Elidir, ddiolch i'w teulu a ffrindiau am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

CYMDEITHAS EGLWYS ST PERIS A ST PADARN: Trwy garedigrwydd y Rheithor, y Parch Philip Hughes a Mrs Sandra Hughes, cynhaliwyd y cyfarfod misol o'r Gymdeithas yn y Rheithordy dan lywyddiaeth Mrs Ann Parry-Jones nos lau, Mehefin 3ydd.

Dechreuwyd trwy weddi dan arweiniad y Rheithor a chroesawyd yr aelodau a'r gŵr gwadd, Mr Geraint Lloyd Owen o Bontnewydd gan y Llywydd. Cafwyd noson hamddenol a chartrefol iawn yng nghwmni Mr Owen, a fu yn rhannu atgofion o'i blentyndod yn y Sarnau a'r amseroedd difyr a dreuliodd gyda'r enwog Bob Lloyd (Llwyd o'r Bryn). Yn amlwg roedd y gyfeillgarwch rhyngddynt wedi dylanwadu ar ei ddawn i farddoni, a'i gof a'i fedrusrwydd i adrodd y llu englynion yn creu syndod mawr i ni. Diolchwyd iddo ef ac i Mrs Evelyn Williams, Mrs Heulwen Edwards a Mrs Ann Parry-Jones am y baned gan Mrs Nancy Jones, Taliesin. Enillwyd y raffl gan Miss Nancy Williams.

PLAS PENGWAITH: Estynnwn ein diolchiadau i deulu y diweddar Mrs F. Ellis a Mrs A. Owen am y rhodd a dderbyniwyd gan y Cartref ar ôl eu profedigaeth.

Bydd rhodd teulu Mrs F. Ellis yn mynd i gronfa'r preswylwyr a rhodd teulu Mrs A. Owen yn mynd i'r apêl bws mini. Diolch yn fawr.

Gweinyddu am gyfnod mae Mrs Mathews ym Mrynblodau, a dim fel cyn-swyddog y Cartref fel yr adroddwyd yn rhifyn diwethaf yr 'Eco'.

Yn dathlu eu pen-blwydd y mis yma mae Mrs M Munro, Mrs C Hughes, Mrs E Parry, Mr JH Williams, Mrs K Jones a Mr D

Whitaker. Dymunwn ben-blwydd hapus iddynt.

Hoffai Mrs Elisabeth Owen 'Bessie', 52 Maes Padarn ddatgan ei diolchgarwch i staff y Cartref, ei theulu, ffrindiau a'i chymdogion am bob arwydd o garedigrwydd tuag ati wrth iddi ddathlu ei phen-blwydd yn y cartref y mis diwethaf. Diolch yn fawr iawn.

Ar Fehefin 3ydd cafwyd prynhawn difyr a phrysur eto gyda Sioe Ddillad yn y llofa. Cafodd y trigolion gyfle i ddewis a phrynu eu dillad eu hunain.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r canlynol am eu rhoddion caredig i Apêl y Bws Mini:

Rheilffordd yr Wyddfa; Mr M Pritchard; Mrs M Parry; Mrs A Roberts, Siop Wlân; Mr a Mrs A Jones, Racca; Siop Joe Brown; First Hydro; Rheilffordd Llyn Padarn a Mr a Mrs I Jones, Formag.

DIOLCH: Dymuna teulu y ddiweddar Janet Davies, 9 Stryd y Dŵr ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl iawn. Diolch hefyd i staff ward Gwyrfa, Ysbyty Bryn Seiont ac i Myrddin Pritchard a Gwynfor Jones am y trefniadau. Hefyd i'r Parch. John Pritchard am y gwasanaeth yng Nghapel Coch ac yn yr Amlogfa. Diolch yn fawr hefyd am yr holl roddion a dderbyniwyd.

DRAENOG

Methu cysgu? Mae rhai yn cyfrif defaid, ac eraill yn cymryd tabled neu ddwy, ond mae un cyfaill o Lanberis wedi dod o hyd i ffordd rwydd iawn o gysgu yn y pnawn — mynd i'r capel! Mae'n gweithio'n ddifffael iddo! Dim ond codi testun sydd angen i'r pregethwr ei wneud ac mae'n cyfaill yn dechrau llithro'n braf i drwmgwsg melys. Yr unig gysur i'w weinidog — os cysur hefyd — yw fod pob pregethwr yn cael yr un effaith arno!

DRAENOG

A dyna i chi'r gyrrwr bws aeth i weld y dyn traed y diwrnod o'r blaen. Wedi parcio'r bws y tu allan i'r swyddfa, a gadael y teithwyr yn cicio'u sodlau, i mewn ag o i gael trin ei sodlau ei hun. Ond goeliech chi fawr — roedd y bws yn fuan am unwaith! Wsnos gyfan yn fuan a deud y gwir, a fynta'n teimlo MOR wirion iddo gymysgu'r DET.

CYNGERDD

Cerddoriaeth gan Dafydd Bullock

Eglwys Sant Padarn Llanberis

7.30. Nos Fawrth, 27 Gorffennaf 1999

Tocynnau £3.00
Er budd yr Eglwys

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

GENEDIGAETH: Mai 27 1999 yn Ysbyty Gwynedd ganwyd merch fach, Gwenno Elin i Helen a Gwyn Parry, 7 Cae Rhos, Seion, Llanddeiniolen. Chwaer fach i Sion Emlyn a wyres i Cyril a Myrna, Bethal ac Elfyn a Dilys, Rhiwlas. **MERCHED Y WAWR:** I ddiweddu'r tymor aeth y gangen ar daith ddirgel nos Fercher, Mehefin 9. Ar ôl teithio trwy Lanberis a Betws y Coed ar noson braf, cafwyd pryd o fwyd yn Amser Da, Llanrwst.

Yn dilyn y bwyd roedd yna sgwrs am y busnes arlwyio Blas ar Fwyd ac am rai o'r gwinoedd gwahanol sydd ar werth yn y siop.

Diolchodd y llywydd, Mrs Anne Elis, i'w swyddogion a'r pwyllgor am eu gwaith yn ystod y tymor a dymunodd yn dda i'r pwyllgor newydd.

Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol Merched y Wawr ddydd Sadwrn, Mehefin 12 yn Llandrindod. Yn cynrychioli Rhanbarth Arfon roedd côr o gangen Bethel. Cystadlodd unarddeg gorau o ganghennau dros Gymru gyfan ac fe leolwyd Bethel yn bumed, mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn, yng ngeiriau'r beirniad. Ar y ffordd adref mwynhaodd y merched bryd o fwyd blasus yng Ngwesty'r Hand, Llanarmon. Diolch i Menna am fod mor barod i gyfeilio i'r côr. **PRIODI:** Ddydd Sadwrn, Mehefin 12 yn y Cysegr priodwyd Myfyr Wyn Jones, Cilan, 12 Tan y Cae a Gwen, 22 Tal y Bont, Llanrug. Mwynhawyd gwledd yng nwesty'r Victoria, Llanberis ac aeth y ddau ar eu mis mêl i Gorfur.

Llongyfarchiadau i Myfyr a Gwen a dymuniadau gorau iddynt yn eu cartref newydd yn 12 Afon Rhos, Llanrug.

TRIP YSGOL SUL: Bydd trip ysgol Sul y Cysegr yn mynd i'r Rhyl eto eleni. Bydd y bws yn cychwyn o'r Cysegr am 10 bore Sadwrn, Gorffennaf 3. Pris y trip ydi£?? i oedolion a £?? i blant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul.

Os hoffai cyfeillion nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul fynd ar y trip dylid rhoi yr enwau i Geraint Elis, Cilgeran mor fuan ag sydd modd.

APÊL YR EGLWYS: Cyfarfu Pwyllgor Eglwysig plwyf Llanddeiniolen yn ddiweddar. Yn dilyn y cyfarfod lansiwyd dwy apêl tuag at drigolion yr ardal. Mae'r un gyntaf yn un flynyddol tuag at gyfrannu at y gost o dacleso y fynwent. Yn amlwg, ni all y pwyllgor fforddio y gost o dacleso'r fynwent i gyd. Fe benderfynwyd felly i ganolbwyntio ar ochr uchaf y fynwent, sy'n cynnwys y beddau o'r 30'au ymlaen. Bwriedir torri y rhan yma o'r fynwent dair gwaith y flwyddyn. Hefyd, bwriedir torri y llwybrau sy'n arwain i rannau eraill y fynwent, fel bod modd cyrraedd y beddau i gyd.

Bu symudiad Sian Hughes i ardal Garndolbenmaen yn golled i'r eglwys. Bu Sian yn organyddes selog iawn am gyfnod o bron iawn i 20 mlynedd. Yn anffodus, ni

chafwyd neb hyd yma i lenwi'r bwlch. Un gwasanaeth a gynhelir ar y Sul a hynny am 3 o'r gloch. Yn amlwg, mae'n gofyn am gryn ymrwymiad i fod ar gael bob Sul. Buasai ffyddloniaid yr eglwys yn falch os buasai rhywun ar gael - hyd yn oed yn achlysurol, rhyw unwaith neu ddwy y mis. Os oes rhywun yn teimlo fel ymateb i'r ddwy apêl, yna gellir cysylltu ag Idris Morris, Y Fachell (670213) neu Jack Foulkes, 6 Tan y Cae Bethel (670685).



Meilir Emrys gyda Thlws Coffa Carwyn James

LLAIS NEWYDD: Nodir nifer o lwyddiannau lleol yn Eisteddfod yr Urdd yn y rhifyn hwn. Daeth un wobwr arall i'r ardal, ac yn sicr, fel y gwelwch o'r llun, y tlws mwyaf - ar wahan i Gwpan Pantyfedwen, mae'n siŵr. Y tlws yw Tlws Coffa Caerwyn James. Cyflwynir y tlws i enillydd y gystadleuaeth 'Sylwebydd y Flwyddyn'. Gofynnir i bob ymgeisydd gyflwyno sylwebaeth o ryw ddeng munud o hyd ar dâp. Gellir dewis unrhyw gamp. Yr enillydd oedd Meilir Emrys o Fethel sydd ar fin cwblhau ei arholiadau Lefel 'A' yn Ysgol Brynrefail. Mae gan Meilir gryn ddiddordeb ym myd y campau. Ar gyfer y gystadleuaeth, symudodd Meilir o'r rhigol arferol o bêl-droed, rygbi neu griced. Dewisodd sylwebu ar Bencampwriaeth Sgîo y Byd yn yr Unol Daleithiau. Y räs arbennig a ddewisodd oedd räs y slalom - y wib sydyn i lawr y mynydd rhwng i 'giatia' cyfyng.



TROI LLAW AT Y GYMUNED: Bu Clwb Ffermwyr leuanc Caernarfon yn 'denants' yma ym Methel ers sawl blwyddyn bellach. Mae'r mudiad yn parhau i ffynnu ac yn gwneud sawl cyfraniad at ein cymunedau lleol. Yn ddiweddar, gwnaethant gyfraniad arall i ni yma ym Methel. Daeth criw o'r aelodau ynghyd i ail beintio caban yr Ysgol Feithrin. Roedd pwyllgor yr Ysgol Feithrin wedi derbyn y paent yn rhad ac am ddim gan gwmni Focus Do-It-All. Gyda athrawesau yr

ysgol - Lyn Lewis a Gwen Jones - yn arwain y ffordd, rhoddwyd lliw i'r caban. Mae'r pwyllgor yn diolch yn ddiffuant am gymorth parod y ffermwyr ifanc. Y mae 'cyfraniad i'r gymuned' yn un o brosiectau'r clwb a chafwyd blwyddyn lwyddiannus mewn sawl ffordd ganddynt. Isod ceir braslun o wahanol agweddau a llwyddiannau y clwb dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolch i Steffan Owen a'i bwyllgor am eu llu cyfraniadau.

Räs llawn cyffro yw hon, ble gall y annisgwyl ddigwydd yn aml - her dda i unrhyw sylwebydd. O redff mae Meilir yn dipyn o 'extrovert' - help arall i gyw sylwebydd. Theil hi ddim i 'sychu i fyny' wrth y meic ar raglen 'fyw'.

Mae'n dilyn cwrs yn y Gymraeg, ac wedi perfformio yn aml gyda chriw Ysgol Glanaethwy. Gyda thri o'i gyfeillion ysgol, mae hefyd yn 'perfformio' gyda'r grŵp roc 'Vanta'. Cyflwynwyd y tlws i Meilir ar raglen Uned Pump, gan un o fechgyn Gwynedd, sef Robin McBryde sydd erbyn hyn yn gapten timau rygbi Llanelli a Chymru 'A'.

Ym mis Medi bydd Meilir yn cychwyn yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth yn astudio Hanes. Derbyniodd Ysgoloriaeth Evan Morgan gan y Brifysgol. Gobeithio y deil y diddordeb ganddo, gan fod y gofyn am sylwebyddion yn y Gymraeg ar gynnydd. Gyda thyfiant y 'radio bro' bydd mwy o alw. Beth am air at Radio Ceredigion neu Radio Cymru, Meilir? Gyda llaw, mae'n siarad Almaeneg yn rhugl hefyd. Efallai daw'r lloeren yn y cefndir yn handi hefyd.

DIOLCHIADAU: Cafodd y Clwb

Ffermwyr leuanc gydradd gyntaf yn y Rali eleni eto, fel llynedd.

Llongyfarchiadau i Rhys Owen, Rhosgawen, Saron am ennill y Gadair ac am gael ei ethol yn Aelod y Flwyddyn gan aelodau'r clwb. Bethan Jones, Fachell oedd Aelod y Flwyddyn trwy Eryri. Gerallt Parry, Pengelli yw Stockman y Flwyddyn unwaith eto.

Hoffai'r clwb ddiolch i Glyn Thomas, Tandderwen am fod yno i bob aelod am flwyddyn arall ac am weithio mor galed. I Eifion Hughes, Ymgymerwr Amaethyddol am ei gyfraniad at grysau'r clwb. I Dafydd Jones, Hendy am ei gymorth a'i amser gyda'r cystadleuthau barnu. I Will a Pat, Y Mount Pleasant, Dinas am adael i ni ddefnyddio eu garej i wneud y chariot ac am adael i ni gael barbaciw yno. I Menna Thomas, Tandderwen am drefnu'r bwyd i'r barbaciw. I bawb yn Glanrafon Fach, Caeathro am adael i'r clwb redeg reiat yno nosweithiau cyn y Rali. I swyddogion y clwb am drefnu rhaglen mor ddifyr. I aelodau'r clwb am weithio mor galed a'i wneud o'n glwb mor llwyddiannus a diolch i bawb.



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant

+

J.M. JONES

A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael

Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CLWB PÊL-DROED IEUENCTID: Mae angen hyfforddwr/Rheolwr i dîm dan 11 oed ac 13 oed. Os oes diddordeb, cysylltwch â Sylvia — 650274.

9 Gorffennaf, 1999 — noson ymaelodi rhwng 6.30 ac 8 o'r gloch. Tâl aelodaeth yn aros yr un fath. Mae angen 2 lun pasport ac mae'n rhaid cael oedolyn gyda'r plentyn. Hefyd rydym yn chwilio am hogia i sefydlu tîm dan 13 ac o 15 i fyny.

LLONGYFARCHIADAU i blant yr Urdd ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod yn Llanbed.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn am bob cyfraniad ariannol a dderbynir gan unigolion a mudiadau eraill.

Hefyd, rhaid peidio anghofio diolch i Anti Sylfia ac Anti Jina am hyfforddi'r plant.

MACMILLAN CANCER RELIEF: Dyma restr o'r casgliad o dŷ i dŷ a wnaed yn ystod y mis yma. Dymuna'r pwyllgor a Mrs Catherine Jones, y trefnydd lleol, ddiolch i'r casglyddion am eu cymorth parod eto eleni, ac i bawb am eu cyfraniad at yr achos teilwng yma.

Mrs Mair Parry, Deulyn, Croesywaun - £39.12; Miss Marian W Jones, 12 Dol Erddi a Mrs Olwen Owen, Tref Eilian - £128.30; Mrs Ann Clarke, Pant Waun - £38.56; Mrs Veronica Owen, Cil y Mynydd - £41.59; Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt - £49.94; Snowdonia Park Hotel - £4.95.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cafwyd sgwrs ddiddorol gan M/s Anita Gray o Clynog Fawr dan y teitl 'Alexander Technique' yn y cyfarfod diwethaf o'r Sefydliad. Eglurodd M/s Gray sut y dechreuodd y ffordd yma o helpu pobl gyda phoen yn y cefn ac amryw o anhwylderâu corfforol eraill. Dangosodd, gyda help rhai o'r aelodau, sut yr oedd y driniaeth yma yn gweithio. Diolchwyd iddi gan Mrs Hilda Williams.

Cafwyd adroddiad gan Mrs Catherine A Jones, y Llywydd, ar y cyfarfod a gynhaliwyd yn Brymbo, pryd y gwahoddwyd holl lywyddion Ffederasiwn Caernarfon/Gwynedd a holl

Sefydliadau eraill Cymru i'r cyfarfod, wedi ei drefnu gan y Cadeirydd Cenedlaethol, i drafod y ffordd i ennill aelodau newydd i'r Sefydliad.

Enillydd y raffl oedd Mrs Wenna Edwards. Ym mis Gorffennaf mae'r aelodau yn mynd am drip i'r Amgueddfa yn Llanberis a chael te yn y caffi.

CLWB 300: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mai:

£40: Mr John Edwards, Capri; £25: Mr Bryn Griffith, Gorffwysfa; £10: Mr Gary Jones, Bodlondeb.

FFAIR HAF: Cynhelir Ffair Haf ar nos Fercher, 7 Gorffennaf am 6.30 o'r gloch yn yr ysgol. Amrywiaeth o stondinau a gweithgareddau. Dewch i gefnogi. Yr elw at yr ysgol.

CYDYMDEIMLO: Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Morris Lewis, Tŷ Newydd. Roedd Mr a Mrs Lewis wedi ymgartrefu ym Mhlas Gwilym, Pen-y-groes erbyn hyn. Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Lewis yn ei phrofedigaeth.

Cydymdeimlwn â Mrs Nan Huws Roberts, Bodrida a Mrs Helena Edwards, Anneddle yn eu profedigaeth o golli eu mam.

Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu y ddiweddar Mrs Edith Evans, Stad Tref Eilian.

ADREF O'R YSBYTY: Croeso i Mrs Eirwen Jones, Cynefin; Mrs M.V. Jones, Hafod y Coed; Deian Elfryn, Coed Gwydryn a Mr Tony Brown, Ael y Bryn adref o'r ysbyty.

Anfonwn ein cofion at Mr Geraint Griffith, Bro Waun a Mrs Williams, Stad Croes y Waun sydd yn yr ysbyty ac at rai eraill sydd yn wael yn eu cartrefi, gan ddymuno gwellhad buan iddynt.

LLONGYFARCHIADAU: Yn ystod y mis bu Emma Haynes, Dychwelfa a Mark Parker, Blaen Ffridd yn dathlu eu pen-blwydd yn 18 oed. Llonyfarchiadau a phob dymuniad da i'r ddau.

EISTEDDFOD YR URDD: Llonyfarchiadau i'r parti Cân Actol a'u hyfforddwyr ar eu llwyddiant yn dod yn ail drwy Gymru yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanbed.

Llonyfarchiadau i'r grŵp 'Big Leaves' hefyd ar eu llwyddiant



Y plant a gymerodd ran yng nghystadleuaeth y Gân Actol yn Eisteddfod yr Urdd.



Tim Gala Nofio yr Ysgol Gynradd.

hwythau. Maent ymysg y grwpiau gorau ar hyn o bryd ac yn brys iawn.

DYMUNWN yn dda i'r rhai fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn ddechrau Awst.

DIOLCH: Dymuna Marian W Jones, Foel, Stad Dol Erddi ddiolch yn ddifffuant iawn am garedigrwydd pobl yr ardal ar ôl colli ei brawd Les, mewn galwadau ffôn, ymweliadau, cardiau a llawer ffordd arall. Yn bennaf oll am y cyfraniadau hael i apêl a oedd yn agos iawn at galon Leslie, sef adran arennau Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr iawn.

APÊL. Daw'r rhifyn nesaf o'r 'Eco' o'r wasg ddechrau Medi — ymhen

dau fis, felly apelïaf yn daer arnoch i gofnodi unrhyw ddigwyddiad sy'n haeddu ei le yn yr 'Eco' ar bapur a'i roi i mi cyn diwedd Awst. Diolch am eich cymorth. Hefyd, fe wn fod pawb yn brys y dyddiau yma, yn ymwneud â'r naill beth neu'r llall, ond fe hoffai tîm yr 'Eco' gael cymorth gan unrhyw berson sy'n yrrwr ac yn berchen car am ryw awr y mis. Yr orchwyl fyddai mynd i nôl bwndel Waun o'r 'Eco' i'r pentref sy'n gofalu am y plygu bob mis, a mynd a fo i Marian Wyn, Foel. Gobeithio'n fawr y daw help erbyn mis Medi. Diolch. DYMUNWN wyliau haf braf a diogel i bob un. Cymerwch ofal wrth fynd ar eich beiciau blantos, mae'r ffyrdd yn hynod o brys.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Cyngor uchod ar 7 Ebrill a 18 Mai 1999, yn y Ganolfan.

Cyfarfod Ebrill: Penderfynwyd yn sgîl llythyr a dderbyniwyd gan Adran y Cyfreithiwr Cyngor Gwynedd nad oedd dim pellach y gallai'r Cyngor Cymuned ei wneud ynglŷn â chyflwr llwybr Bryn Melyn.

Gwnaed cyfraniad pellach o £10 (cyfanswm o £20) i'r Lleng Brydeinig am y flodeudorch a roddwyd ar y Gofeb llynedd.

Derbyniwyd llythyr gan Adran Ysgrifennydd a Chyfreithiwr Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r sefyllfa am greu is-ddeddfau i atal yfed diod feddwol mewn mannau cyhoeddus.

Penderfynwyd y byddai Is-bwyllgor y Fynwent yn mynychu cyfarfod rhwng pump o Gynghorau Cymuned lleol i drafod cysoni ffioedd mynwentydd.

Cafwyd cadarnhad gan Hyder (Dŵr Cymru) nad oeddynt yn gyfrifol am ffynhonnau yn gyffredinol a Ffynnon Pant Gwyn yn benodol.

Dyfarnwyd y cytundebau o dorri glaswellt rhai o lwybrau cyhoeddus y pentref, cae chwarae Gerddi Bach a Mynwent y Plwyf, Betws Garmon i gontactwyr lleol.

Trafodwyd y ddogfen gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - 'Astudiaeth Gogledd Eryri' a phenderfynwyd fod y Cyngor am i drefniadau parcio a theithio o fewn y Parc barhau fel y maent yn bresennol.


Nid oedd gan y Cyngor wrthwynebiad i ddau gais cynllunio (a) dymchwel modurdy presennol ac adeiladu estyniad yn cynnwys modurdy newydd yn Minafon, (b) dymchwel modurdy presennol ac adeiladu modurdy a chyntedd newydd yn Haulfryn.

(parhad ar dudalen 22)

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG (01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

CHWILOTA

Mis yr Ymateb



Daeth mwy o ymatebion gan wahanol ddarllenwyr yr 'Eco' yn ystod y mis diwethaf nac ers talwm iawn, felly, mae'r golofn yn eiddo i chi y mis hwn, a bydd yn rhaid cadw rhai sylwadau dros yr haf a'u cynnwys yn y rhifyn cyntaf wedi'r gwyliau.

Cysylltiad Llanberis â'r Empress of Ireland

Chwi gofiwch rai misoedd yn ôl bellach i mi dderbyn ymholiad am garreg fedd ym mynwent Llanrug yn coffau G.C. Williams o Tyddyn ... a fu farw pan ddrylliwyd yr 'Empress of Ireland' yn 1914. Y gred ar y pryd oedd mai hon oedd y llong gyntaf i'w suddo â thorpedo yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Erbyn hyn, mae llawer mwy o wybodaeth gennym am y digwyddiad, ac mae'r diolch yn ddyledus i Dafydd Pritchard, Llanrug, a fu wrthi'n ddiwyd yn ceisio olrhain hanes y llong a'r hyn ddigwyddodd iddi. Yn wir, aeth Dafydd mor bell ac ysgrifennu i'r cwmni oedd yn berchen y llong, a chysylltodd hefyd â Chanada, ble drylliwyd y llong.

Gwilym Caradog Williams o Dyddyn Eilian, Llanberis yw'r person sydd wedi ei goffau ym mynwent Llanrug. Fe'i ganed yn 1892, ac erbyn 1914 roedd yn stiward ar y llong foethus, yr 'Empress of Ireland', un o lynges masnachol y Canadian Pacific. Fe'i hadeiladwyd yn yr Alban yn 1905.

Am hanner awr wedi pedwar ar brynghawn yr 28ain o Fai, 1914 hwyliodd y llong ar ei thaith o Quebec am Lerpwl. Roedd 1057 o deithwyr arni a chriw o 420, a Gwilym Caradog Williams o Lanberis yn eu plith; yn fachgen ifanc 24 mlwydd oed. Tua chwarter i un o'r gloch y bore canlynol aeth y llong i niwl trwchus ar afon St. Lawrence mewn lle o'r enw Father's Point. Deng munud yn ddiweddarach bu gwrthdrawiad rhyngddi â llong y Stanstad, oedd yn cario glo i fyny'r afon. Rhwygwyd corff yr 'Empress of Ireland' â hollt 14 troedfedd o hyd a 25 troedfedd o ddwfn. Rhuthrodd 60,000 o alwyni o ddŵr yr eiliad i mewn iddi. O fewn deng munud arall roedd wedi troi ar ei hochr ac wedi suddo mewn 150 troedfedd o ddŵr. Digwyddodd y drychineb i gyd o fewn llai nac ugain munud.

217 yn unig o'r teithwyr a achubwyd, a 248 o'r criw. Aeth y gweddill i lawr yng nghrombil y llong. Hyd heddiw, mae nifer o'r cyrff yn parhau yn y llong ar waelod yr afon. Flwyddyn yn ddiweddarach, pan gwblhawyd yr ymchwiliad swyddogol i'r ddamwain, beiwyd y Stanstad am ddiolfalwch.

Talodd cwmni'r Canadian Pacific am garreg goffa hardd ar lan yr afon

yn Father's Point, a chafwyd casgliadau yn Canada a Phrydain i ddigolledu teuluoedd y rhai a foddwyd.

Ym mis Ebrill eleni, nodwyd man suddo'r 'Empress of Ireland' yn safle hanesyddol drwy orchymyn swyddogol Llywodraeth Canada. Bellach, rhaid wrth ganiatad swyddogol cyn y caiff unrhyw un ddeifio i ddyfnderoedd yr afon i astudio'r hyn sy'n weddill o un o longau mwyaf moethus y byd ar ddechrau'r ganrif.

Mae Dafydd Pritchard yn credu fod unigolion eraill o'r hen Sir Gaernarfon yn forwyr ar yr 'Empress of Ireland', a byddai'n ddiolchgar o dderbyn gwybodaeth am rai o'r lleill. Tybed oes rhywun o deulu Gwilym Caradog Williams, Tyddyn Eilian, Llanberis yn parhau i fyw ym mro'r 'Eco'? Byddai'n ddiddorol cael clywed gennych, rhag ofn fod mwy o wybodaeth ar gael am hanes y morwr ifanc o Lanberis a gollodd ei fywyd ychydig wythnosau cyn i'r Rhyfel Byd Cyntaf ddechrau.

Dŵr tap y Fachwen

Fel roedd yr 'Eco' diwethaf ar fynd i'r wasg, daeth ymateb pellach i helynt y petisiwn am ddŵr yn y Fachwen. Margaret Roberts o Gaernarfon sy'n nodi fod John Parry o Dy'n Pwll, a enwir yn y petisiwn, yn hen daid iddi. Fe'i ganwyd yn 1827, ac felly'n profi nad yn yr 1830'au y casglwyd y petisiwn. Doedd John Parry ddim yn byw yn Nhy'n Pwll yn 1871, ond roedd yno erbyn 1891. Mae hyn yn awgrymu felly i'r petisiwn gael ei gasglu rhywbryd ar ôl 1871. (Roedd John Evan Jones yn byw'n y Gallod erbyn

1869 yn ôl y wybodaeth yn rhifyn diwethaf yr 'Eco'.)

Mae Margaret Roberts yn cofio ei hewythr, Alun Roberts, yn sôn am beipen ddŵr yn y Fachwen yn ystod 20'au'r ganrif hon, a thap dŵr yn ymyl Ty'n Giât a'r Gallod, ble mae'r ffordd yn fforchio am Fryn Pistyll. Mae'r cerrig o gwmpas y tap yn parhau yno. Yn ôl ei hewythr, roedd y tap yn un mawr tew, tebyg i dap hen fath, a'r dŵr bob amser yn diferu ohono yn araf iawn. Roedd llawer o ferched tai moel y Fachwen yn loetran am sgwrs o amgylch y tap dŵr yn hir-aros i'w pwcedi lenwi. Yn uwch i fyny'r allt, roedd tap arall rhwng Tai Newydd (Padarn View) a Chae Canol. Mae dŵr i'w weld yn llifo ar y ffordd yno o hyd.

Yn ôl Alun Roberts, roedd llawer o ffynhonnau ar y tyddynnod na fyddent byth yn sychu, a dywedid fod y dŵr i lawer ohonynt yn tarddu'n wreiddiol o ffynnon Terfyn, Dinorwig (wrth y Groeslon Uchaf).

Drwy law Margaret Roberts hefyd y cefais hanes am eliffantod yng Nghwm-y-glo — ond mwy am y rheini wedi'r haf, gobeithio!

Pwmp Dŵr Erw Bian

Daeth mwy o wybodaeth am hanes y pwmp hwn o Wrecsam. Fred Williams (Fred Erw Bian) a ysgrifennodd i ddweud mwy o'i hanes, ac fel hyn mae'n adrodd:

'Pan oeddwn yn blentyn, os byddai'r pwmp yn torri, byddai'n rhaid anfon neges i Cwellyn, pencadlys Cyngor Gwyrfa; ond yn aml iawn, byddai'n rhaid disgwyl am gryn amser i'w drwsio. Roedd hyn yn golygu cario dŵr gryn bellter o'r hen ffynnon, ac yr oedd hyn yn ddiflas iawn ar ddydd Llun golchi, felly, byddai fy nhad (Fred Crawia) yn trwsio'r pwmp. Washar y phynjar fyddai'r broblem gan amlaf, a byddai fy nhad yn defnyddio tafod hen esgid i'w drwsio nes i weithwyr y Cyngor ffithio'r washar iawn.

Bu farw fy nhad yn 48 oed, a gan fy mod innau erbyn hynny yn brentis o ffitar yn iard y Gilfach Ddu, disgynnodd yr orchwyl o drwsio'r pwmp arnaf i. Un tro, bu diffyg ar y 'foot

valve', ac yr oedd y gwaith o'i drwsio yn rhy drwm i mi, gan fod y bibell i waelod y ffynnon tua pymtheg troedfedd o hyd. Ar ôl y diffyg hwn, gosodwyd pwmp 'semi-rotary' yn Erw Bian, ac yr oedd hwnnw angen llawer llai o sylw.'

Cwmni'r 'Moduron Mawr'

'Mae hon yn hen ffyrm,' meddai Mr Chamberlain, cadeirydd y Comisiynwyr Trafnidiaeth, 'ac mae'n rhedeg moduron mawr cyn i neb wybod am y gair "bus".' Dyna sut y disgrifiwyd D.M. Llanrug pan gafodd ei drosglwyddo i Gwmni Crosville yn 1936. Gwyn Davies o Lanrug ddaeth ar draws copi o'r adroddiad mewn hen rifyn o 'Y Genedl' am y flwyddyn honno sy'n adrodd peth o hanes un o gwmnïau bysus cynharaf gogledd Cymru.

Cychwynwyd y busnes gan D.M. Pritchard, Llanrug yn 1906. Ar y dechrau, nid oedd ei 'foduron mawr' ond yn rhedeg rhwng Llanrug a Chaernarfon, ond yn raddol estynnwyd y gwasanaeth i Lanberis, Brynrefail a Chwm-y-glo. Yn ddiweddarach, bu'n rhedeg bysus o Gaernarfon i Fethesda.

Nid oedd tablau amser a thocynnau yn bod pan gychwynnodd y busnes, ac ar y Sadyrnau, byddai'r modur mawr yn cael ei redeg mor aml ac y gellid. Nid oedd yn anarferol i 'fodur mawr' D.M. adael Maes Caernarfon am un o'r gloch fore Sul! Nid oedd gwaharddiadau 'chwaith ar y nifer o deithwyr y gellid eu cario, ac nid peth anarferol oedd gweld cymaint â 40 neu 50 o deithwyr ar un bws a ddylai gario dim ond 14! Yn wir, mae sôn am un o foduron DM yn cyrraedd Maes Caernarfon ar bnawn Llun y Sulgwyn hefo 115 o deithwyr arno. Wrth gwrs, roedd llwyth mor drwm yn achosi trafferthion ar y ffordd adref am Lanrug, ac yn aml, byddai'n rhaid i'r teithwyr ei wthio i fyny'r gelltydd o Bonrug.

Cawn fwy o hanes 'moduron mawr' DM wedi'r haf. Gyda diolch i Gwyn Davies am gadw'r copi a'i fenthycia i mi.

Tim Pêl-droed Glasgoed



Anfonwyd y llun gan Arnold Jones o Benisarwaun. O graffu'n fanwl ar yr ysgrifen sydd ar y bêl (a hynny â chwydd-wydr!) mae'n ymddangos mai dyddiad y llun yw 1932 neu 33. Mae'n amlwg fod y tim wedi bod yn llwyddiannus yn ystod y tymor — oes rhywun o'r darllenwyr yn medru adnabod y cwpanau? A beth am enwau'r chwaraewyr? Anfonwch wybodaeth os gwelwch yn dda.

Ac y mae Fred Williams,

Wrecsam yn cysylltu dwy stori yn y golofn hon — roedd ei dad, Fred Crawia yn chwarae cefnwr chwith i dim Glasgoed, a'r tim yn llogi un o fysus DM y'w cario i gemau oddi cartref, 'a byddai'r gyrrwr yn yfed peint am beint efo'r chwaraewyr, ac yn gyrru adre'n saff!'

Tim Pêl-droed Llanrug

Daeth mwy o wybodaeth i law hefyd am Llew Evans a fu'n chwarae i Lanrug yn ystod y 20'au. Mae'n

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

ymddangos iddo chwarae i dim y pentref o 1922 hyd 1926. Am ryw reswm, methwyd â chael tîm yn Llanrug am dymor 1926-27, ac yn y flwyddyn honno, arwyddodd Llew Evans i dîm Caernarfon.

Ail dîm Llanrug yn Wembley!

Ym mis Medi 1923 cafodd ail dîm Llanrug y fraint o chwarae yn Wembley, ond rhag ofn i gefnogwyr Llanberis genfigennu gormod, rhaid brysio i ddweud mai ar Barc Wembley, Pwllheli, y chwaraewyd y gêm! Ac er i Lanrug fod ar y blaen o ddwy gôl i un yn yr hanner cyntaf, crasfa o bump gôl i ddwy oedd y canlyniad. Gŵr o'r enw Fred Williams oedd cefnwr chwith Llanrug ar y diwrnod. Tybed ai'r un person ydyw â Fred Crawia?

Yn ystod mis Hydref, gemau cwpan oedd yn mynd â bryd Llanrug. Cafwyd gêm gyfartal yn Nhregarth yng Nghwpan Amatur Cymru, ond Llanrug yn ennill yr ail-chwarae ar gae Cefn Llwyd. Fel hyn y disgrifiwyd chwarae'r tîm cartref: *'fyddai neb yn gwarafun y fuddugoliaeth i Lanrug gan iddynt lwyfr feistrolu eu gwrthwynebwyr yn yr ail hanner. Does ond un peth y gellir ei ddweud yn erbyn eu chwarae — ar ôl sicrhau gêm gyfartal oddi cartref, mae tuedd ganddynt i fod yn or-hyderus gartref, a hynny'n cael effaith negyddol ar eu chwarae.'*

Walter Jones oedd seren y tîm ar y diwrnod, ond llongyfarchwyd chwaraewr o'r enw Tommy Griffith hefyd, am berfformiad addawol ar ei ymddangosiad cyntaf i'r tîm.

Roedd Llanrug i fod i chwarae Tregarth am y trydydd tro o fewn mis, a hynny mewn gêm cynghrair, ond oherwydd y tywydd stormus, bu'n rhaid oedi am ugain munud cyn cychwyn y gêm. Yn anffodus, ar ôl dechrau'r gêm, dinistriwyd y croesfar gan nerth y gwynt, a dyna ddiwedd y chwarae am y diwrnod!

Erbyn mis Tachwedd roedd Llanrug wedi arwyddo gôl-geidwad newydd o'r enw Jellicoe. Chwaraeodd ei gêm gyntaf yn erbyn Trefor. Llanrug a orfu o 6 gôl i ddim. *'Ni ellir mynegi barn ar y gôl-geidwad newydd. Yn wir, yn yr ail hanner, ni chyffyrddodd â'r bêl ond unwaith.'*

Doedd tymor yr ail dîm ddim yn llwyddiannus, a cholli fu eu hanes eto yn erbyn Ebeneser. Salt oedd seren tîm Ebeneser, *'yn llawn triciau; ei ddriblio a'i daclo meistrolgar yn peri i'r dyrfa ar fwy nac un achlysur chwerthin am ben hanerwyr Llanrug.'*

Daeth y flwyddyn i ben gyda gêm ail rownd Cwpan Iau Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr rhwng Llanberis a Llanrug. Doedd yr un o'r ddau dim ar eu cryfaf — Llanberis yn chwarae tri o eilyddion a Llanrug bedwar. *'Roedd y gêm yn weddol gyfartal, ond pan oedd angen sgorio goliau, roedd Llanberis yn well, a dyna'n syml, y rheswm am y fuddugoliaeth o ddwy gôl i un.'* James, gôl-geidwad Llanrug, oedd y chwaraewr gorau ar y cae yn ôl y sylwebydd.

Gyda diolch i bawb a fu mewn cysylltiad yn ystod y mis. Bydd mwy o wybodaeth am dyddynod Y Bigil a'r Clegir yn y rhifyn nesaf — doedd dim gofod yn y golofn y mis hwn i gynnwys gwybodaeth ychwanegol a anfonwyd gan eraill o'r darllenwyr. Ond daliwch i ffonio neu sgwennu — i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

CYMEITHAS Y CHWIORYDD: Cyfarfu'r Gymdeithas yn y Ffestri, nos Iau, Mai 20. Roedd y myfyrdod dan ofal Einir Gwyn, Gwêl Elidir. Cadeirydd y noson oedd Lowri Roberts Williams, Godre'r Coed ac estynnodd groeso cynnes i nifer healeth o gyfeillion o'r cyffiniau a oedd wedi ymuno â'r aelodau i wrando ar y ddarlith 'Pêl Goch ar y Dŵr' gan y Rheithor Idris Thomas, Trefor. Ffrwyth ymchwil dros nifer o flynyddoedd i drasiedi Ysgol Sul Dinorwig ym Mhwlheli ar Orffennaf 1, 1899 oedd cynnwys y ddarlith ac mae'n sicr iddo adael argraff arbennig ar y rhai oll oedd yn bresennol.

Llwyddodd i roi pigion pwrpasol o'r llyfr o'i eiddo a gyhoeddir ar Orffennaf 1 eleni sy'n darlunio cefndir hanesyddol bro Dinorwig ddiwedd y ganrif ddiwethaf, cyn mynd ymlaen i ymdrin â thrasiedi fwyaf yr ardal pan foddwyd deuddeg o aelodau Eglwys Sant Mair, a'r adroddiad trist am eu hangladd ym Mynwent Eglwys Crist, Llandinorwig.

I goffau'r achlysur bydd bād achub Pwlheli yn hwylio i fangre'r drasiedi fore Iau, Gorffennaf 1 a chynhelir gwasanaeth byr a thaenir torch ar y dŵr. Yn dilyn nos Iau, cynhelir gwasanaeth o goffad yn Eglwys Crist Llandinorwig, pryd y bydd llyfr y Parch Idris Thomas 'Pêl Goch ar y Dŵr' ar werth.

Diolchwyd i'r siaradwr gwadd am ei ddarlith a'i waith ymchwil i ddigwyddiad o bwys mewn hanes lleol gan Gwyn Hefin Jones, Rhandir.

Roedd y lluniaeth ar y terfyn wedi ei baratoi gan Gwyneth Evans, Ty'n Buarth a Dilys Morris, Foelas.

Nos Fawrth, Mehefin 15, Geraint Lloyd Owen, Bontnewydd oedd y gŵr gwadd a threuliodd orig ddiddorol a bywiog yn ei gwmni yn ymdrin â barddoniaeth a'i ddylanwad arno ers dyddiau ei febyd. Yn ystod y sgwrs o dan y teitl 'Odl a Chodl' dyfynnodd nifer helaeth o englynion trawiadol. Cadeirydd y noson oedd Ellen George, Sŵn yr Engan ac roedd y rhannau arweiniol dan ofal Mair Wyn Davies, Ael y Glyn. Cafwyd gair o werthfawrogiad gan Alice Williams a Lowri Roberts Williams.

Paratowyd lluniaeth gan Megan Jones, Greuor Villa ac Eleanor Jones, Na Nog. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Gorffennaf 6 yng nghwmni Mererid Mair Williams, Caernarfon. Croeso cynnes i bawb.

COFION: Anfonwn ein cofion at Mrs Jennie Maxwell, Bro Dawel yn dilyn anhwylder yn ddiweddar. Hyderwn y bydd yn cael adferiad buan. Dymunwn wellad hefyd i Mr Hugh Williams, 4 Tai Orwig sydd wedi bod am gyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri, Caernarfon.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cyfarfu'r gangen yn y Ffestri nos Lun, Mehefin 21 dan lywyddiaeth Pat Jones. Noson o waith llaw oedd ar y rhaglen a threuliodd yr aelodau amser pleserus dan arweiniad Anita Long, Tan yr Onnen yn creu cardiau cyfarch amrywiol. Diolchwyd i'r arweinydd gan Nerys Roberts. Paratowyd y te gan Valmai Owen, Mai Davies a Gwenda Roberts. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Ifanwy Jones oedd Verna Jones.

Gwibdaith flynyddol fydd cyfarfod mis Gorffennaf ac mae'r trefniadau i ymweld â Phlas Mawr Conwy dan ofal Gwenllian Edwards.

TAITH ELUSEN: Mae Dafydd Williams, Meini Gleision wedi penderfynu ymuno â deg ar hugain o feicwyr eraill ar daith noddedig dros Ynys Cuba. Mae'n anelu i godi arian tuag at Gymdeithas Cŵn i'r Deillion a hefyd yn gobeithio cynorthwyo person sydd â nam golwg ar y daith. Gobeithia reidio ei feic dros gyfnod o bump diwrnod ar draws ynys fwyaf y Caribî mewn taith sydd wedi ei disgrifio fel 'Antur Fythgofiadwy'.

"Rwyf wrth fy modd o gael fy newis," meddai. "Yn awr mae

gennyf ddwy sialens o fy mlaen. Mae'n rhaid i mi wella lefel fy ffitrwydd er mwyn cwblhau y daith a hefyd mae'n rhaid i mi gasglu swm sylweddol o arian i Gymdeithas Cŵn y Deillion." Bydd y daith lafurys yn croesi Cuba o Drinidad i Havana ac yn cynnwys golygfeydd nad oes llawer o bobl yn dod ar eu traws. Cynhelir y daith yn ystod Ionawr 2000, felly mae gan Dafydd ddigon o amser i ymarfer ac hefyd i gasglu noddwyr. Byddwn yn sicr yn dilyn ei hynt yn ystod y misoedd sydd i ddod. Os oes unrhyw un yn awyddus i noddi Dafydd ar y fenter hon cysylltwch ag ef ar (01286) 871754.

EGLWYS MC BRYNREFAIL: Daeth cynulliad lluosog i'r oedfa fore Sul?, Mehefin 13 pryd y gweinyddwyd y sacrament o fedydd ar dri o rai bychain.

Gwasanaethwyd gan y Parch D. Elwyn Edwards, Caernarfon. Bydyddiwyd Nia Heledd, merch fach Geraint ac Ellen George, Sŵn yr Engna ac Aneurin McQuire a'i chwaer fach Manon Angharad, mab a merch fach Mark ac Eluned Jones, Llain y Ddol, Llanrug. Trefniadau ar gyfer oedfaon mis Gorffennaf;

4: Parch S.O Hughes, Bae Colwyn. OEDFA BEDYDD am 10.00; Cymanfa'r Henaduriaeth, Croesywaun Waunfawr. Arweinydd: Mrs Rhianwen Hughes Roberts, Bangor am 6.00;

11: Mrs G. Alwena Williams, Llanddona am 5.30;

18: Parch John Owen, Bethesda am 5.30;

25: Parch Alwyn Roberts, Tregarth am 10.00.

DIOLCH: Dymuna'r trefnydd ddiolch yn fawr iawn i'r criw lluosog ddaeth i'r Ffestri unwaith eto eleni i blygu rhifyn mis Mehefin o'r 'Eco'. Roedd yn braf gweld wynebau newydd ymhlith y ffyddloniaid a'r gwaith wedi ei gwblhau mewn record o amser. Diolch arbennig i'r plant gweithgar am eu rhan ar y noson.

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

SGIPIAU ANFRAG

(ROBIN THOMAS)

- ★ DOMESTIG A MASNACHOL
- ★ SGIPIAU 6, 8 a 10 LLATH
- ★ TRWYDDED LAWN I GLUDO GWASTRAFF
- ★ GWASANAETH 7 DIWRNOD

HEFYD YN DELIO
MEWN METAL SGRAP
METALAU HAEARN A DI-HAEARN



Ffôn: 870753 neu 660118

Symudol: 0498 636559

TAN Y FOEL, GALLT Y FOEL, DEINIOLEN

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

O SIAMBAR SELWYN

Ddeng mlynedd yn ôl roedd Selwyn yn byw drwy'r gwewyr o geisio cadw'r gyfrinach mai ef oedd i'w goroni yn Eisteddfod Llanrwst. Yn yr Eco y mis yma mae'n cofnodi am y tro cyntaf mewn du a gwyn ei atgofion am y cyfnod. - gol.

Mae'n Fehefin 9fed. Mae'n tua hanner awr wedi naw. Tua'r adeg yma ar yr union ddyddiad ddeng mlynedd yn ôl, roeddwn i'n lladd fy hun yn crio. Y crio hwnnw mae Caradog Pritchard yn ei ddisgrifio yn 'Un Nos Ola' Leuad' — 'crio fel taflyd i fyny'.

Na, doeddwn i ddim wedi cael newydd drwg. Doeddwn i ddim mewn poen, a doeddwn i ddim wedi cael siom. Ond, mi roeddwn i wedi cael cobyln o sioc. A llawenydd y sioc hwnnw oedd yn achosi'r crio. Ia, dagrau o lawenydd oeddwn nhw. Rydwi wedi bod yn gradur sentimental 'rioed.

Am be gebyst mae hwn yn sôn, meddech? Wel, dyma'r stori.

Gwahoddwyd fi gan Gwmni Teledu HTV i wneud adroddiadau o'r Babell Lân yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst, 1989. Derbyniais y gwahoddiad gan egluro wrth y cynhyrchydd y byddai'n ofynnol i mi drafod y trefniadau gyda Elfed Roberts, y Trefnydd, gan fy mod i ar banel y beirniad adrodd yn yr Eisteddfod honno. A dyna pam y bu i mi ffonio Elfed ar fore y 9fed o Fehefin i ofyn am ei gyd-weithrediad ynglŷn â'r beirniadu a gweithio yn y Babell Lân. Adnabu Elfed fy llais — 'O, chdi sy' 'na. Yli, 'rwyf ti wedi achosi tipyn o drafferth i mi' — 'rydwi wedi gorfod newid y daflen amser ynglŷn â'r rhagbrofion adrodd i gyd. Dyddi ddim isio i ti ymddangos ar y llwyfan i draddodi tan ddydd Mercher.' Doeddwn i ddim wedi gofyn fy neges iddo ac mi drais roi fy mhwt i mewn — ond i ddim pwrpas. 'Yli,' meddai'r Trefnydd, 'ma 'na llythyr go bwysig ar y ffordd iti' — llongyfarchiadau, — a cau dy geg.' 'Ond,' meddwn i — ond roedd y ffôn yn fud. Eisteddais yn ddiffwrth hollol yn fy sioc, a dechreuais grio — ia, 'crio fel taflyd i fyny'.

Hel meddyliau. Methu coelio. Breuddwyd 'di'r cyfan. Be dd'wedai 'nhad a mam? Be dd'wedai fy hen gyfaill ffyddlon, Alun Pierce, Tremadog a fu'n cyd-eisteddfota â mi ers dros hanner canrif. Alun wedi ein gadael ers mis Chwefror. Oeddwn, roeddwn ni wedi trefnu i aros hefo'n gilydd yn Llanrwst hefyd. Fydda fo ddim hefo fi 'leni o bob blwyddyn. Dal i fwynhau crio. Dal

i sychu dagrau. Nefoedd fawr ma 'na ddau fis tan y 'Steddfod. Cofio'n sydyn — dwi'n mynd i 'Merica wythnos nesa. Ddeuda i wrth Myra pan ddaw hi adra ai peidio? Sut deuda i wrthi?

Uwchben bedd 'nhad a mam ym mynwent Llanddeiniolen y prynhawn hwnnw y d'wedais i wrth Myra. 'Roedd gen i gerddi i 'nhad a mam yn y gyfres 'Arwyr' (testun y Goron). Onid ydi ei rieni o yn arwyr i bob plentyn? 'Rydwi ishio iti gofio am y foment hon,' meddwn i wrth Myra. 'ma coron Llanrwst yn dod i mi. Doedd hithau ddim yn coelio, ond mae hi'n dal i gofio, a doedd y wefr o gychwyn i America ddim yn bwysig bellach. Mi gedwais ddyddiadur.

Dydd Sul Mehefin 11 1989: Mynd i'r oedfa i Fethel. Deg oedd yno. Hel meddyliau a sylwi ar lun o Mr Mathews ar wal y festri. Fo ydi un o'r 'arwyr'. Fo oedd arwr mam. Mynd adra heibio i fy hen gartre. Syllu ar arwydd Parc-y-wern yn hanner cuddio mewn mieri. Fy ffug-enw yn Llanrwst. Gall arwydd gydwr cyfrinach.

Yn y prynhawn, Myra a finna yn mynd am dro o gwmpas yr hen ardal. Heibio i Boncan Sipsiwn a Choed y Gwyndy. Sylwi ar y mieri yn tagu 'hen drac rêl y Santa Fe'. Doedd 'na fawr o ddŵr yn Afon Tyddyn Bach heddiw a dydi Parc-y-Wern ddim yn Wembli bellach. Roedd 'na blant yn chwara o gwmpas y Neuadd Goffa — chwara yn Saesneg.

Dydd Mercher Mehefin 14 1989 Mae dau fis bron tan y 'Steddfod. Pryd ca' i y llythyr swyddogol? Châi fawr o wefr o'i agor o bellach. Twt, rhaid cychwyn ar y daith i America heddiw. Mi ga i anghofio am y 'Steddfod am sbel. Tybed?

Dydd Sadwrn Mehefin 17 1989 Pasio'r Yankee Stadium. Yma y bu Tommy Farr yn bcosio yn erbyn y cawr croenddu Joe Louis. Bocswyr oedd arwyr 'nhad, ac roedd o yn bendant o'r farn mai Farr enillodd. Anghofio am y Steddfod? — a finna yn sôn am y ffeit yn y cerddi. Rydwi'n cofio codi i wrando arni ar y weiarles yn oria mân y bora. Dallt dim — yn Saesneg roeddwn nhw yn cwffio. Mae'r ffeit honno yn sied Ysgol Bethel yn fyw ar y cof hefyd.

Fi oedd Joe Louis a Huw Cefn Rhyd oedd Tommy Farr, ac mi ges i a fy wyneb blac-led gythral o gweir yn y ffeit honno. Do, fe enillodd Tommy Farr. Pwy fasa'n meddwl y byddwn i yma o flaen yr Yankee Stadium yn breuddwydio am 'Steddfod Llanrwst. Ia, breuddwydio rydwi. Tyd, Myra, fe awn ni i ben yr Empire State Building i ni gael gweld New York yn fôr o sêr odanan ni.

Dydd Mawrth Gorffennaf 4 1989 Derbyniais y llythyr pwysig y bore 'ma. Llythyr y bûm i yn breuddwydio am ei dderbyn ers rhai blynnyddoedd bellach. Onibai fy mod i yn gwybod y gyfrinach ers tua mis — mi fydda hwn wedi bod yn fore dagreuol hefyd. Na dim gwefr, dim cyffro. Dim ond cadarnhad a sicrwydd bellach y bydda i'n gwisgo'r goron yn Llanrwst. Roedd gen i dau ddymuniad petawn i yn ddigon lwcus i ennill y goron rhyw ddydd, sef, cael fy nghoroni mewn tre fechan yn y Gogledd, a chael diwrnod heulog. Ys gwn i a fydd yr haul yn gwenu ar Awst 8fed? Gobeithio.

Mis i fynd. Mae ambell i bysgotwr yn dechrau plycio. 'Ddaw'r goron 'leni?' 'Roeddai ti'n agos llynadd.' Finna'n ateb yn swta 'dwi'n beirniadu adrodd 'leni dach chi'n gweld.' Dim mwy. Dim llai. Un o'r pysgotwyr ffyddlon yn ffonio. Pete Goginan, (y diweddar erbyn hyn). Sgwrsio, holi am tua awr ar y ffôn. Oedd, roedd 'na sibrydion. Dyna chi sgotwr steddfod oedd Pete Goginan. Dyna chi dditectif. Ond mi lwyddais i balu clwydd wrth yr hen Bete druan hefyd. Heddwch i'w lwch o.

Tair wythnos i fynd. Rydwi'n gweithio yn Stiwdio HYV yn yr Wyddgrug. O oes, ma 'na holi. Holi braidd gormod. Gwell i mi wasgaru sibrydion. 'Dwi wedi clywed mai merch sy'n cipio'r goron eleni — wel, cerddi i arwyr o ferched sy'n ennill. Diddorol 'te. Pwy fydd hi tybed? Do fe heuwyd yr hâd ac fe ledaenwyd y stori.

Rydwi wedi derbyn tri thocyn. Un i Myra ac un i Euron. Mi 'stedda i yn y canol rhyngddyn nhw ar y

I Gwenno Mair merch fach David a Carolyn, 6 Nant-y-glyn, Llanrug

Ar ôl yr oriau maith a hir, Fe glywsom lais bach egwan clir; Sef Gwenno Mai, ein trysor drud Sy'n fwy o werth na gwerth y byd.

Ac wedi dotio mae dy dad, Y cyfoethoca' yn y wlad; Llawenydd mawr ddaeth iddo ef Wrth wrando'n hapus ar dy lef.

'Rwyf yn gobeithio byddi di Yn credu'n Nuw, fel credaf i; 'Rwyf yn dymuno Gwenno fach Hir oes iti, a bywyd iach.

Boed iti fywyd dedwydd braf, Bob dydd yn wanwyn ac yn haf, Ac oriau gwyn, yn llawn o serch, Dyma ddymunaf iti ferch.

Mor siriol 'nawr yw gwên dy fam Fydd yn gofalu na chei di gam; Yn gwylio'n ddyfal drosot ti, Mor hapus nawr ei byd yw hi.

John V. Morris
Rhianfa
Clwt-y-bont

diwrnod mawr. Bloc C, Rhys FF, Sedd 13.13? Anlwcus? Choelia i fawr. Ydw, rydw i'n dal i balu clwydd.

Pythefnos/wythnos. Rwy'n dechrau simsanu braidd. Difaru f'enaid mod i wedi cytuno i feirniadu adrodd. Roeddwn i wedi trefnu hefo Elfed i mi gael trio'r 'het' tu ôl i ddrws cloedig ei Swyddfa. Doeddwn i ddim am wisgo het rhy fychan a'r byd â'i lygaid arna i. Roedd hi'n ffitio'n berffaith. Wel, fe ddylai het gwerth £2,500 ffitio'n berffaith, a sgleinio hefyd.

Dydd Llun Awst 7 1989 Fy nghyd-feirniad Geraint Lloyd Owen a minnau yn gwrando ar 35 o blant yn adrodd. Teimlwn yn rel cachgi yn cadw'r gyfrinach oddi wrth Geraint. Do, mi ges fy nhemtio, ond dd'wedais i yr un gair, dim ond canolbwyntio ar y gystadleuaeth. Am resymau personol bu'n ofynnol i mi



Yn yr ardd!

WIL G. ROBERTS

Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI

CELTIC

WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynnyddoedd o brofiad Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



Sefydlwyd
1980



draddodi hefyd a sgwennu beirniadaethau drwy'r pnaun. O diar, petawn i yn gwybod, fyddwn i ddim wedi derbyn y cyfrifoldeb o feirniadu. Ond fory ddaw, ac mae'n addo tywydd braf.

Dydd Mawrth Awst 8 1989

Codi cyn cwn Llanrwst, ac mae'n fore godidog. Rhagbrawf partion adrodd am 8.30. Pafiliwn am 11.30. Deud celwydd wrth fy nghyd-feirniad Delyth Mai Niclas, a gofyn am faddeuant na fyddwn yn y pafiliwn i wrando arni yn traddodi ar ein rhan. Rhai o fy ffrindiau ym mhbell HTV wedi synnu gweld Euron yn y 'Steddod.

Mae'n nesu at ddau o'r gloch. Mae'r Orsedd ar y maes. Damia — lle ma nhicad i? Ras i'r lle chwech unwaith eto. Biti i mi roi gora i smocio. Sleifio'n llwynogaidd i sedd 13. Ma Myra ac Euron yno yn barod. Mae'n uffernol o boeth.

2.30 Corn gwlad (hogia Deiniolen). Gorymdaith. Teimlo iasau yn mynd drwy fêr fy esgryn i. Nefoedd dydi'r Celtiaid ma'n siarad yn hir. Oes gen i amser i bicio i'r tŷ bach? No we. Bedwyr yn traddodi. Nesta heb gael ei phlesio, ond Bedwyr a John Gruffydd Jones wedi cael yr un profiadau â fi yn eu plentyndod, ac yn gweld teilyngdod yn y tipyn cerddi. Bendith arnyn nhw.

Corn gwlad. Codi, ar ôl cyfri i chwech. Cusan i Myra. Cyrchu. Clapio. Cyhoeddi. Coroni, a'r Archdderwydd Emrys Deudraeth yn tawelu fy nerfau ac yn sibwrdd wrtha i 'enjoia dy hun'. Ac mi wnes.

Gorymdeithio i'r Babell Lèn — 'ma 'na syrpreis i ti,' medda Elfed. Do mi ges i syrpreis hefyd. Arwel Hogia'r Wyddfa yno i roi gair o groeso i mi. Y cythral yn gwybod y gyfrinach ers dyddia a finna yn sgwrsio am y 'Steddod hefo fo ychydig ddyddia ynghynt. Do fe gadwon ni y gyfrinach oddi wrth ein gilydd hefyd. Ond roedd pawb yn glen ac roedd yr haul yn gwenu ac roedd y goron yn ffitio'n berffaith.

Mae Gwyn Thomas yn deud perffaith wir.

'Dydi Arwyr ddim yn marw
Ddim pan ydych chi'n naw oed.'

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

CYNGOR EGLWYSI DEINIOLEN: Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n casglu at Gymorth Cristnogol yn ystod yr wythnosau diweddar. Caglwyd y swm anrhydeddus o £373.96 tuag at Gymorth Cristnogol. Diolch yn fawr i bawb. DYMUNA Mrs Peri Evans, 5 Hafod Oleu ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn glaf yn Ysbyty Gwynedd ac wedi dychwelyd adref. Diolch o galon i bawb.

SEINDORF DEINIOLEN: Enillwyr Clwb 200 fis Mai:

£25: Karen Hirst, c/o Bobbie; £15: Gwyn Oliver Jones; £10: William Orwig Williams.

Mis Mehefin:

£25: Annette Bryn Parri; £15: R.O. Williams, 3 Bro Deiniol; £10: J.M. Jones, 14 Rhes Marian.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST LLANDINORWIG: Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol nos Lun, Mehefin 7 gyda'r Parch Tegid Roberts yn llywyddu. Cafwyd adroddiad manwl o'r fantolen ariannol gan y trysorydd, Mrs Gwen Griffith. Trefnwyd rhaglen ac etholwyd swyddogion ar gyfer 1999/2000. Cadeirydd: Parch Tegid Roberts; Ysgrifennydd: Mrs Gwyneth Price; Trysorydd: Mrs Gwen Griffith. Byddwn yn gorffen y tymor gyda gwibdaith i Sir Fôn dydd Sadwrn Gorffennaf 17. Cynhelir y cyfarfod nesaf Medi 6. Pleser fydd croesawu ein Curad y Parch John Gareth Parry atom.

CYFARFOD PREGETHU: Cynhelir Cyfarfod Pregethu Libanus, Clwt y Bont dydd Sul, Gorffennaf 11 am 2 a 5.30 yr hwyr.

Disgwylir y Parch John Roberts, BBC Bangor i wasanaethu. Croeso cynnes i bawb.

PLAID CYMRU: Clwb 100 Mehefin: £10: Mrs Gwladys

Jones, 18 Hafod Oleu; £5: Mrs Myfi Jones, 11 Hafod Oleu.

EGLWYS YN DATHLU: Nos Sul, Mehefin 13, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel Ebeneser i ddathlu 175 mlynedd agor y capel. Lle i 19 oedd yn yr adeilad cyntaf a'r capel presennol yw'r 4ydd ar y safle.

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan rai o'r aelodau a nifer o blant ac ieuencid yr Ysgol Sul Unedig. Pregethwyd gan y Parch John Pritchard sy'n 15fed gweinidog ar yr eglwys.

Braf oedd croesawu nifer o gynaelodau a chyfeillion i ymuno

â ni, ac ar derfyn yr oedfa mwynhawyd paned a sgwrs yn y festri.

LLONGYFARCHIADAU i blant Ysgol Sul Eglwys Crist, Llandinorwig ar eu llwyddiant yn yr arholiad llafar eto eleni. Derbyniodd y rhai canlynol dystysgrif am eu gwaith canmoladwy yng Ngŵyl Gorawl Eryri, a gynhaliwyd yn Eglwys St. Padarn, Llanberis ym mis Mai. Dan 5 oed: Calvin Williams, Erin Haf. 5-7 oed: Mandy Williams, Haf Bryn, Rachel Rowlands, Kimberley Owen, Maria Morris, Samantha Williams, David Williams, Christopher Williams, Iwan Price. 7-9 oed: Bronwen Phillipson, Louise Roberts, Natalie Taylor, Zoe Williams. 9-11 oed: Sasha Williams.

Da iawn chi blant - daliwch ati.

Dathlu yn Ebeneser

Cafwyd gwasanaeth arbennig yng nghapel Ebeneser yn Neiniolen nos Sul, Mehefin 13 i ddathlu 175 mlyneddiant yr eglwys yno. Cymerwyd rhan gan rai o aelodau'r eglwys a chan blant a ieuencid yr Ysgol Sul Unedig. Pregethwyd gan y gweinidog, y Parchg John Pritchard. Yna wedi'r oedfa roedd cyfle am sgwrs dros baned a lluniaeth yn y festri.

Ymhlith y gynulleidfa gref a ddaeth i'r oedfa yr oedd amryw o gyn-aelodau'r eglwys wedi dod yn ôl am dro i ymuno yn y dathlu. Roedd yno lawer o aelodau eglwys eraill yr ardal hefyd, a phawb yn falch o'r cyfle i ddiolch i Dduw am gynnal ei eglwys yma dros y blynnyddoedd.

Pwysleisiwyd yn yr oedfa mai dathlu pen-blwydd eglwys Ebeneser a wneid yn hytrach na phen-blwydd y capel. Sefydlwyd yr eglwys ym 1823, ac felly mae angen cyfaddef ein bod flwyddyn ar ei hôl hi yn dathlu'r 175 mlyneddiant! Agorwyd y capel cyntaf ym mis Mehefin 1823 a sefydlwyd eglwys yno ym mis Awst yr un flwyddyn. Dim ond chwech o aelodau oedd yno ar y cychwyn, ac erbyn i'r gwasanaeth cymundeb cyntaf gael ei gynnal ym mis Rhagfyr 1823 roedd yr aelodaeth wedi cynyddu i ddeuddeg. Y Parchg David Griffith, gweinidog yr Annibynwyr ym Methel, oedd

gweinidog cyntaf Ebeneser.

Cafwyd cyfeiriadau at hanes cynnar yr eglwys ac at rai digwyddiadau o bwys ers hynny. O fewn 35 mlynedd i sefydlu'r eglwys roedd tri chapel wedi eu codi a'u chwalu! Agorwyd y capel presennol, y pedwerydd ar y safle felly, ym mis Mehefin 1859. Daeth yr eglwys dan ddylanwad diwygiadau pwerus sawl gwaith, yn cynnwys diwygiadau 1839, 1859 a 1904-05. Bu pymtheg o weinidogion yn gwasanaethu'r eglwys yn eu tro, a chyfeiriwyd at ambell un ohonynt yn ystod yr oedfa. Yn y bregeth soniwyd yn arbennig am yr ail ohonynt, y Parchg Thomas Edwards, a fu yma am 31 o flynyddoedd rhwng 1832 a 1863.

Ond er y dathlu a'r cofio, edrych ymlaen yn hyderus at wasanaethu Iesu Grist yn y ganrif nesaf y mae eglwys Ebeneser, a rhyw hwb bychan ar y ffordd oedd yr oedfa arbennig hon.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

LONDON GARAGE

FIAT CWM-Y-GLO FIAT

ARBENIGWYR TRIN CEIR FIAT



GORSAF PRAWF MOT

POB MÊC — CEIR A FANIAU BACH
GWASANAETH ac ATGYWEIRIO

CROESEWIR CWSMERIAID HEN A NEWYDD
GALWCH MEL (Roberts) ar (01286) 870234

neu Ffacs: (01286) 870066

AR AGOR:

Llun - Gwener: 8.30 a.m. - 5 p.m.

Sadwrn: 8.30 a.m. - 12.00



CYFARFOD BLYNYDDOL YR ECO

Cynhaliwyd yn y Sefydliad Coffa, Llanrug am 7.30 nos Fercher, 16 Mehefin 1999.

Croesawodd y Cadeirydd Arwel Jones bawb i'r cyfarfod gan nodi, er mai naw yn unig oedd yn bresennol, fod mwy wedi mynychu nag am sawl blwyddyn. Estynnodd gydymdeimlad â theulu'r diweddar Gwyndaf Jones fel un a fu'n ffyddlon iawn i'r Eco ers y dechrau ac a fyddai'n sicr o fod yn bresennol oni bai am ei farwolaeth anamserol.

Darllenwyd adroddiad y llynedd.

Materion yn codi

1. Ni chyhoeddwyd y mynegai i'r 200 rhifyn cyntaf hyd yma. Penderfynwyd y byddai Goronwy Hughes yn ei argraffu ac y byddai Gwyndaf Hughes yn ei ddyblygu a'i osod mewn ffeiliau addas. Bydd John Roberts yn llunio clawr iddo gan mai ganddo ef y mae'r manylion am noddwyr y mynegai. Bydd copi yn cael ei roi, yn ôl yr addewid a wnaed, i Ysgol Brynrefail, llyfrgell Deiniolen a'r Oriel yn Llanberis.

Bydd cynhoeddiad yn cael ei roi yn yr Eco pan fydd y mynegai ar gael i'w brynu fel copi papur neu ar ddisg cyfrifiadurol. Bydd y ddisg ar gael ar gyfer cyfrifiaduron sy'n rhedeg Windows neu ar gyfer cyfrifiaduron Acorn.

2. Y System Blygu

Methwyd cael trefnydd plygu yn Llanrug a gofynnwyd i bawb yn y cyfarfod holi cydnabyddion er mwyn cael rhywun i wneud y gwaith. Bydd yr apêl am drefnydd plygu yn ymddangos yn y papur hyd nes y ceir rhywun.

Cynigiwyd gofyn i Ysgol Brynrefail blygu rhifyn y Nadolig. Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch i'r ysgol am yr holl gefnogaeth a gafwyd, nid yn unig gyda'r plygu ond hefyd am y dudalen a gynhyrchir gan y disgyblion bob mis.

Mae problem plygu yng Nghaeathro gan nad oes ganddynt le ers i'r adeilad yng Nglan Gwna losgi i lawr.

3. Golygydd Ychwanegol

Ni chafwyd golygydd ychwanegol at y ddau bresennol. Gobeithiwyd cael rhywun o ardal Waunfawr. Rhaid gwneud apêl eto. Dywedodd Huw Tegid y byddai'n fodlon rhoi cymorth dros fisoedd yr haf.

Adroddiad y Trysorydd (Goronwy Hughes)

Cyflwynwyd y fantolen gan y Trysorydd. Mynegodd ei bryder am y sefyllfa arian wrth gefn. Er mwyn gwella'r sefyllfa ariannol penderfynwyd ar y mesurau canlynol:

Ceisio am grant gaqn Gyngor y Celfyddydau. Fe wnaed cais gan y Trysorydd ond ni chafodd y pecyn hyd yma;

Gofyn am fwy o gefnogaeth gan y cynghorau cymuned;

Derbyn cynnig i gofi pris y papur o 30c i 40c o fis Medi ymlaen. Bydd y pris i'r rhai sy'n talu'n flynyddol yn codi i £4.00 ym mis Ebrill; Derbyn cynnig i godi'r pris i hysbysebwy'r o £1 i £1.25 y centimetr.

Penderfynwyd peidio rhoi cydnabyddiaeth i siopwyr sy'n gwerthu'r Eco ond bydd y rhai sy'n ei gael ar hyn o bryd yn parhau i'w dderbyn.

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch am y gwaith arbennig a wnaed gan y Trysorydd.

Adroddiad y Trefnydd Bwndelu (Jean Jones)

Mae'r gwerthiant wedi aros yn sefydlog rhwng 2100 a 2200 ers blynyddoedd bellach gydag ambell symudiad bach i fyny neu i lawr yma ac acw. Does dim problem fawr gan amlaf o gael pobl i ddod allan i blygu er y bu Deiniolen a Bethel yn wan eleni. Rhaid cael trefnydd plygu ar gyfer Llanrug.

Adroddiad y Trefnydd

Hysbysebion (John Roberts)

Diolchodd y Trefnydd i'r trysorydd am ei gyfraniad mawr gyda'r biliau a dywedodd na allai fod wedi llwyddo heb y cymorth hwn. Mynegodd ei fod yn gwerthu'r hysbysebion ar y sail eu bod yn gwneud synnwyr fel buddsoddiad gwerth chweil i fusnes yn ogystal a bod yn gefnogaeth i'r Eco. Rhoddodd ddiolch i'r holl hysbysebwy'r.

Ffotograffydd

(Gwyndaf Lloyd Hughes)

Bydd problem gyda datgelu a datblygu lluniau yn y dyfodol agos gan na fydd yr ystafell dywyll ar gael unwaith y cychwynnir addasu'r Sefydliad Coffa. Y dewisiadau sydd ar gael yw:

MANTOLEN ECO'R WYDDFA

INCWM A GWARIANT AM Y FLWYDDYN I 31 MAWRTH 1999

1997-98

Incwm

5025.93	Gwerthiant	5184.53
8100.00	Hysbysebion	9009.59
122.00	Rhannu taffenni	32.00
1126.50	Rhodion	1178.00

982.00	Grantiau	
380.00	Bwrdd yr Iaith Gymraeg	1000.00
	Cyngor Celfyddydau Gogledd Cymru	
	Cynghorau Cymuned	
250.00	Llanberis	250.00
0.00	Llanddeiniolen	300.00
500.00	Llanrug	500.00
75.00	Waunfawr	150.00
13.26	Llog Banc	15.59
16574.69		17619.71

Gwariant

16478.79	Argraffu	17157.44
134.28	Ffotograffiaeth	236.91
324.80	Post	278.99
16.00	Papur a Labelau	2.99
50.00	Gwobrau Croesair	55.00
-1.12	Cystadleuaeth Pel Droed	5.00
15.00	Costau Eraill	0.00
17017.75		17736.33

443.06 Colled am y flwyddyn

116.62

Y SEFYLLFA AR 31 MAWRTH 1999

Asedau Tymor Byr

3228.60	Yn ddyledus i'r Eco	4235.72
1030.51	Cyfrif Banc	1924.27
4259.11		6159.99
3082.84	Llai Credydwy'r	5080.34
1196.27		1079.65

Cronfa'r Eco

1639.33		
443.06		
1196.27		

Goronwy Hughes
Trefnydd Ariannol
16/06/99

Cael ystafell dywyll arall; Anfon y ffilmiau i ffwrdd i'w datblygu;

Cael camera digidol.

Y teimlad cyffredinol oedd mai camera digidol yw'r ateb. Mae hyn ynddo'i hun yn codi problemau eraill. Yn gyntaf rhaid i'r wasg fod â'r dechnoleg gyfatebol a rhaid cael cost y camera o rywle (tua £500).

Ar y pwynt cyntaf, mae'r wasg yn y broses o newid eu systemau neu wedi gwneud y newid. Bydd y ffotograffydd yn cysylltu â'r wasg i weld sut mae symud ymlaen. Ar yr ail bwynt, dywedodd y trysorydd fod gobaith o grant gan y Bwrdd Iaith tuag at y dechnoleg newydd ac y gwnaiff o yr ymholiadau. Hefyd, addawodd John Roberts geisio am nawdd bsunesau lleol yn benodol i brynu camera digidol.

Y Golygydd Chwaraeon (Richard Lloyd Jones)

Roedd yn hapus iawn gyda'i flwyddyn gyntaf gan na chafodd

gŵyn na slap. Atgoffodd pawb fod gemau Tlws yr Eco ar nos Iau, 24 Mehefin 1999.

Y Golygydd (Iwan Roberts)

Diolchodd i'r cyfranwyr rheolaidd am eu teyrngarwch ac i Wil yn y wasg am olygu'r newyddion pentref. Gofynnodd am gael trefniant i anfon y newyddion pentref yn syth i'r wasg yn hytrach nag ato fo.

Fe ofynnodd am y posibilrwydd o greu safle ar y wê a bydd Gwyndaf Hughes yn edrych i mewn i'r posibilrwydd. Rhaid wrth gynllunio eithaf manwl os am greu safle gwerth chweil.

Gwnaeth apêl am olygydd arall i leihau y baich ar y ddau ohonynt — un o'r Waunfawr os yn bosibl.

Ethol Swyddogion

Ail etholwyd pawb yn unfrydol.

AM BRYDAU
TSINEAIDD BLASUS
I'W BWYTA GARTREF



LAKESIDE
CHINESE TAKEAWAY
47 STRYD FAWR
LLANBERIS
Ffôn: 871840

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref


Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

**EMYR
JONES**

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

**44 Glanffynnon
LLANRUG**
Caernarfon
673513



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

URDDO MABON

Llongyfarchiadau i Mr Alun Williams (Mabon), Stad Bro Waun, Waunfawr ar gael ei anrhydeddu'n aelod o Orsedd Eisteddfod Genedlaethol Cymru, fis Awst eleni pan fydd y Brifwyl yn ymweld â Llanbedr-goch, Ynys Môn. Ymfalchïwn fel cyd-ardalwyr yn y gydnabyddiaeth hon i'w gyfraniad i ddiwylliant Cymru dros y blynyddoedd. Fe'i derbynir i Urdd y Wisg Werdd mewn defod arbennig yn ystod wythnos yr Eisteddfod ac fe'i disgrifir fel 'eisteddfodwr o'i gorun i'w sawdl'. Gwyddom oll am gefnogaeth ffyddlon Mabon i'r diwylliant eisteddfodol yn ei amryfal agweddau, a da gweld Cymru gyfan, drwy'r Eisteddfod Genedlaethol, yn cydnabod ei gyfraniad mewn modd teilwng.

YR ARDD

Y Griafolen Deithiol

- gan Mrs G.M. Jones

Eisteddai ffrind imi un prynhawn yn edrych allan ar yr ardd. 'Mae eich coeden chi yn llawn o euron, mae hi ar ei gorau.' 'Mi ddyweda i hanes y griafolen yna wrthych chi,' meddwn i. A dyma hi.

Lawer blwyddyn yn ôl yn y chwedegau, roeddwn yn aros ym Mrynrefail, a minnau'n byw yn y De bryd hynny. Roedd yn fore braf ac yr oedd awydd codi arnaf a mynd allan am dro i fwynhau awyr iach Eryri, a ffwrdd a mi at bont Penllyn a throï ar y chwith i gyfeiriad Y Fachwen. Ac wrth sôn am Fachwen, cofiais fel y byddai ein hathro yn Ysgol Brynrefail yn dweud fod pethau yn tyfu yn gynharach yn y gerddi gan eu bod yn llygad yr haul. Fodd bynnag, wrth fynd i fynyr ffordd gwelais amryw o wreiddiau crafolen. Roeddwn wedi gweld amryw mewn gerddi yn y De. Dyma fy nghyfle i fynd a thamaid o Eryri yn ôl efo mi, a thynnais dri neu bedwar (bychan iawn oeddynt). I lawr a mi am dro drwy'r coed a dod allan wrth Ysbyty'r Chwarel ac i lawr ar hyd y briffordd yn ôl i Frynrefail. Eu rhoi mewn pot o bridd ac yn ôl i'r De. Eu plannu yno yn yr ardd a daliasant i dyfu. Ymhen ychydig flynyddoedd daeth y griafolen yn ôl i Eryri a'i phlanu yn yr ardd yma. Mae wedi tyfu yn goeden fawr hardd ac wedi rhoi llawer o bleser. Bydd mwyalchen bigfelen yn canu oddi tani bob dydd. Tâl imi am fy nhrafferth. Dod yno am yr euron fydd hi — dim i roi tiwn i mi.

YSGOL SUL PRESWYLFA, LLANBERIS



Dosbarth Ysgol Sul Capel Preswylfa 1936-37

Rhes gefn: Robert Lloyd Hughes; Ronald Morgan; Gordon Hughes; Arvon Hughes; Morris Ivor Jones; Robert Morgan; Rhes Ganol: Hugh (Mac) Jones; Robert Morris (Athro); John Owen; Cemlyn Roberts; Rhes flaen: Michael Thomas; Evan Wilson Hughes; Cledwyn Parry; John Howard Parry; Tom Peris Roberts. Tynnwyd y llun o flaen y capel yn Llanberis. Erbyn hyn mae'n chwith meddwl mai dim ond Cledwyn Parry, Ffordd Capel Coch sydd yn dal yn fyw.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

Etholwyd Keith B. Jones, Brynrefail yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn a Miss Phyllis Elis, Penisarwaun yn Is-Gadeirydd. Cytunodd y Cyngor i dalu am arwyddion Gwarchod Cymdogol i ardaloedd Dinorwig a Phenisarwaun.

Hysbyswyd fod y llwybrau cyhoeddus wedi cael eu trin yn ardaloedd Bethel, Llanddeiniolen a Phenisarwaun. Bydd Menter Fachwen yn ymgymeryd â'r gwaith yn ardal Fachwen, Deiniolen, Dinorwig a Brynrefail.

Cafwyd adroddiadau am weithgarwch Antur Padarn a'r

Llechen Las gan Phyllis Ellis a Len Jones. Eglurwyd fod nifer o gynlluniau ar y gweill, ac roedd Antur Padarn yn bwriadu cynnal nifer o gyfarfodydd cyhoeddus yn y dyfodol i egluro eu gweithgarwch a hefyd i egluro yr hyn a ddisgwyllir o 'Amcan Un'.

Fe gyf-etholwyd William Humphreys i lenwi'r sedd wag yn ward Bethel.

Bydd angen cyf-ethol i lenwi dwy sedd arall, sef Clwt-y-bont a Deiniolen. Doedd y Cyngor ddim wedi derbyn unrhyw geisiadau am y seddau hyn.

YN EISIAU

Gofalwyr i Eglwys a Theatr Seilo Caernarfon.

Am ffurflen gais a manylion pellach, cysylltwch â:

W. Bleddyn Williams, Frondeg 7 Llys Gwyn, Caernarfon LL55 1EN

Ffôn: (01286) 676642

Ceisiadau i law erbyn Gorffennaf 17

DRAENOG

Welsoch chi'r cyfaill o Ddeiniolen yn pwyso'r botwn i ryddhau'r peli ar raglen y Loteir yn ddiweddar? Glywsoch chi o yn gwneud hynny yn Gymraeg? Y lwc mwya gafodd o'r noson honno oedd bod yna berthynas iddo wedi bod yn fodlon benthyg pâr o sgidiau iddo. Roedd o ei hun wedi llwyddo i golli ei sgidia. Lwc na chlywodd pawb mohono'n griddfan o gofio bod y sgidia benthyg seis neu ddau yn rhy fach iddo.



Uned 1A BRYNAFON LLANRUG

Ffôn: (01286) 674100 (dydd)
(01286) 650732 (fin nos)

FFENESTRI : DRYSAU
DODREFN : GRISIAU
GWAITH TURNIO
BLYCHAU CLOCIAU
BLYCHAU DAL OFFERYNNAU
BLYCHAU ARDDANGOS

CRONFA GOFFA

R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa uchod.

Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon amlen gyda stamp a chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd:

JOHN H. HUGHES

TAN Y CLOGWYN

LLANBERIS, GWYNEDD LL55 4LF

Ffôn: (01286) 871562

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn 31 Awst 1999. Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiau cau.

Bistro

LLANBERIS


Ffôn 871278

Perchnogion: DANNY A NERYS ROBERTS

I DDATHLU PEN-BLWYDD
neu PEN-BLWYDD PRIODAS
PARTIÖN RHWNG 20 a 40
FFONIWCH AM FANYLION

A HEFYD
COFIWCH AM EIN
BeliBistro
Ffoniwch am fanylion

Cofiwch am nosweithiau arbennig Y BISTRO
nos Wener olaf pob mis



Pencampwyr y blynyddoedd unigol ym Mabolgampau'r Ysgol.

Cystadlu brwd unwaith eto rhwng y tai ac Eilian yn dod i'r brig gyda 807 o farciau. Gwyrfaei yn ail gyda 722, Eryri yn drydydd gyda 697 ac Elidir yn olaf gyda 679.

Diwrnod cyffrous iawn gyda'r plant i gyd yn cymryd rhan. Pawb yn gwibio, neidio a thafu a'r bwrwm a'r brwdfrydedd yn amlwg iawn. Neb eisiau methu yr un gystadleuaeth.

Braf oedd gweld talentau'r fro yn cael eu harddangos, a dyma'r plant a amlygodd eu hunain gyda pherfformiadau arbennig:

Blwyddyn 7: Ceri Jones, Gwyrfaei; Iwan Morris, Eryri.

Blwyddyn 8: Bethan Pritchard, Eilian; Eifion Williams, Eilian.

Blwyddyn 9: Michelle Spain, Eryri; Owain Morris, Eilian.

Blwyddyn 10: Carol Jones, Gwyrfaei; Shaun Humphries, Eilian.

Am yr ail flwyddyn yn olynol cyflwynwyd y *Victrix Ludorum* i Alisa Orlik o dŷ Eryri a ddaeth yn gyntaf ym mhob camp.

Tipyn o gamp yw ennill y *Victor Ludorum* am dair blynedd yn olynol ond dyna yw hanes Jonathan Gordon, Blwyddyn 9, o dŷ Elidir, ond eleni bu'n rhaid iddo rannu'r tllws hefo Ceirion Owen, Blwyddyn 8, o dŷ Eryri. Y ddau ohonynt yn dod yn gyntaf yn eu cystadleuthau i gyd. Llongyfarchiadau calonog iddynt i gyd.

Ar gychwyn y mis fe aeth grŵp dawnsio gwerin yr ysgol i lawr i'r Eisteddfod a gynhaliwyd yn Llanbedr Pont Steffan y flwyddyn yma. Arhosodd pawb mewn tai lleol lle cafwyd llawer o hwyl a chroeso cynnes. Fe aeth y rhagbrawf yn wych — Cawsom gyfle i ddawnsio ar lwyfan y pafiliwn. Roedd pawb yn edrych yn smart a thraddodiadol ac er ein bod wedi methu roedd y profiad yn un arbennig.

Hoffwn i a gweddill y tîm ddiolch o galon i Mrs Judith Harding am ein dysgu mor dda ac i Mrs Gwyneth Metcalfe a Mrs Lowri Roberts am roi eu hamser prin i'n dysgu a'n paratoi erbyn y gystadleuaeth. Diolch yn fawr.

Heledd Wyn Jones. 8E

Cychwyn o'r ysgol yn llawn hwyl ac roedd gan Mathew lond bocs bwyd o dda-da. Cyrraedd Llanbedr a mynd i chwarae pêl-droed hefo Mathew, Gethin ac Iwan cyn mynd i aros hefo teulu lleol. Roedd hyn yn brofiad gwahanol oherwydd roedd y teulu'n siarad tair iaith, Cymraeg, Saesneg ac isith yr Iseldiroedd. Jonathan 8i

Ceirion, Ailsa a Jonathan



CYNGERDD PENTYMOR YSGOL BRYNREFAIL

Neuadd yr Ysgol
Nos Fawrth, 13 Gorffennaf
am 7.30 yr hwyr

Tocynnau mynediad wrth y drws
Pris: £3.00 i oedolion
£1.50 i blant a phensiynwyr

Noddir Raffl Cyfeillion yr Ysgol gan: Arvon Llanrug; Garej Beran Deiniolen; Y Bistro Llanberis; Ceir Cymru Bethel; Y Co-op Llanrug; Fferm Tŷ Coch Llanberis; Garej Hafod Llanrug; Blodau Alwyn Racca; Wavell Roberts - Y Cigydd Llanrug; Safeways Caernarfon; Seiont Nurseries Pontrug; Siop Gig Bethel; Siop Sgwâr Llanrug

NEWYDDION O Y

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD

Eleni daeth dau ddisgybl o'r chweched dosbarth i'r brig yn Eisteddfod Llanbedr Pont Steffan.

Meilyr Emrys yn gyntaf yng nghystadleuaeth Sylwebydd Chwaraeon yr Ifanc, ac yn derbyn Tllws Carwyn James.

Jennie Lyn Morris yn ail yn y

gystadleuaeth chwythbrennau prës. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau.

Bu'r parti Cyflwyniad Llafar hŷn yn cystadlu hefyd ac er na ddaeth llwyddiant i'w rhan, da oedd eu gweld yn mwynhau'r achlysur a'r wefr o gael bod ar faes yr Eisteddfod.



Cefais amser arbennig yn yr Eisteddfod dydd Iau, 3 o Fehefin.

Roeddem wedi bod yn ymarfer yn galed iawn ers misoedd ac roeddem yn barod am y diwrnod mawr. Pan ddaeth y diwrnod roedd pawb yn nerfus ond perfformiodd pawb yn wych. Ni chawsom lwyfan ond roeddem yn agos. Rwyf eisiau dweud diolch o galon i Mrs Metcalfe, Mrs Roberts a Mrs Harding am ein hyfforddi.

Cnin Eifion 8E

Roedd y daith i lawr yn un hir iawn. Mi wnaethom stopio mewn caffi i gael rhwybeth i fwyta. Arhosais gyda theulu neis iawn gyda dwy o enethod, Elin a Sian. Cawsom fwyd andros o neis (cinio dydd Sul) ganddynt. Cyn roeddem yn gwybod roeddem ar y llwyfan yn cystadlu. Cefais hwyl yn Llanbedr gyda'r bobl ac rwyf eisiau diolch i'r athrawon a Mrs Harding am ein dysgu.

Melissa Ward 8O

Cyrhaeddodd dde Cymru tua 4.00 pm cyn cael ein rhannu i 2 a 3, i fynd i aros. Es i a Rebecca i aros mewn fferm ar gyrion Llanbedr. Cawsom groeso cynnes iawn gan y bobl, cyn mynd o amgylch eu fferm. Roedd ganddynt 3 merch, un yn 5, llall yn 4 ac un yn 1. Bore wedyn, deffro am 6 y bore cyn cael brecwast a mynd i gwrdd a gweddill y criw, a mynd i'r Eisteddfod. Yn anffodus, ni chawsom ddim byd yn y rhagbrofion, er i ni ddawnsio ar ein gorau. Yna roedd yr amser yn rhydd i ni gael mynd o amgylch y maes, cyn mynd gartref.

Hoffwn ddiolch i Mrs Harding, Mrs Metcalfe a Mrs Lowri Roberts am roi fyny eu hamser prin i'n dysgu. Ffion Williams 8E

Fe wnes i fwynhau fy amser yn fawr iawn yn yr Eisteddfod yn Llanbedr ar yr ail o Fehefin, 1999. Fe gychwynom am tua 12.00 pm o'r ysgol ac ar ôl cyrraedd aethom i dai y teuluoedd yr oeddem yn aros gyda, a chawsom groeso mawr. Y diwrnod wedyn, aethom i gystadlu yn fuan iawn. Yn anffodus, ni chawsom

lwyfan. Aethom o amgylch y maes yn y glaw a chael llawer o hwyl. Fe aethom i McDonalds am fwyd ar y ffordd yn ôl. Diolch yn fawr i bawb am yr holl help.

Mathew Phillips 7N

Mwynheais fy hun lawr yn Llanbedr. Cefais groeso mawr gan y teulu roeddwn yn aros gyda. Roeddwn yn aros ar ffarm fawr. Roeddynt hwy yn deulu clên iawn. Mwynheais i fy hun hefyd ar y llwyfan yn yr Eisteddfod, wrth ddawnsio. Buaswn yn hoffi ei wneud eto oherwydd cefais hwyl yn mynd ar y reids gyda fy ffrindiau. Buaswn yn hoffi diolch i Mrs Metcalfe, Mrs Lowri Roberts ac Anti Judith am roi eu hamser i'n dysgu ni. Diolch. Karen

Aethom i lawr gyda Mrs Metcalfe a Mr Roberts a cyfarfod y teuluoedd wrth ysgol gynradd Llangybi. Cyrhaeddodd y teuluoedd ac aeth Karen a fi gyda un teulu. Cyrhaeddodd dŷ'r bobl, roeddynt yn byw ar ffarm. Roedd ganddynt ferch o'r enw Flora ac roedd hi'n ferch neis hefyd a charedig. Bore wedyn cyfarfod yr athrawon yn yr ysgol Gynradd a mynd i lawr at yr Eisteddfod. Roedd y cae yn fwdlyd. Aethom at y Pafiliwn a newid yn barod i'r Dawnsio. Llwyddom i wneud yn dda ond dim digon da i gael llwyfan. Ond fuaswn yn hoffi dweud diolch i Mrs Metcalfe a Mrs Roberts ac Mrs Harding am ein dysgu i ddawnsio a rhoi eu hamser rhydd i ni.

Samantha Williams

Fe roeddwn yn aros mewn byngalo hefo dau o bobl. Cawsom groeso mawr yno. Doedd dim llawer o dai yno ac doedd dim siop am filltiroedd. Yn y 'Steddfod cawsom hwyl ar y reids yn y ffair ac es i ar Mad Max, Dodgems a Waltzers llawer o weithiau. Ar y ffordd adref roeddem yn lluchio balwns trwy'r ttenestr. Diolch yn fawr i Mrs Harding a phawb am drefnu popeth. Gethin Pritchard 8O

YSGOL BRYNREFAIL

Rhagor o hanes taith Fflorida . . .

Uchafbwynt yr wythnos i mi oedd ymweld â'r Animal Kingdom. Rhoddodd y saffari gyfle i mi gael bod yn yr un cae ag anifeiliaid fel jiraff, rhino du a rhino gwyn a llwyr mwy. Roedd yn agoriad llygad i mi gael gweld sut mae'r anifeiliaid yn byw yn eu cynefin. A beth am y sioe, 'It's tough to be a bug!' Wedi i mi wisgo'r sbectol 3D roedd yr holl bryfed yn dod yn syth amdanafl!

Cenin Eifion

Trip mor annhygoel o ffantastig a chael ei rannu efo fy ffrindiau o'r ysgol yn fonws go iawn.

Sioned W. Jones

Grêt o'r cychwyn i'r diwedd, ond y peth bythgofiadwy oedd y 'stretch limos', a phawb yn codi llaw arnom wrth deithio i Planet Hollywood am swper.

Michelle Spaine



Willie Mullane ac Iwan Rhys Williams yn Stiwdio M.G.M.

Roedd y gwyliau cyfan yn anhygoel. Diolch i'r *Daily Post*. Pan aethom i'r Cirque du Soleil fedrwn i ddim coelio beth oeddwn i'n ei weld. Sioe ffantastig.

Trystan Morris

Ers i mi ddod adref mae pawb wedi bod yn holi, 'Beth oedd y peth gorau?', ond fedra i ddim ateb y cwestiwn. Roedd popeth mor wahanol. Ond mae'n siŵr mai'r noson olaf yn Typhoon Lagoon fydd yn dod â gwên i'm wyneb. Dwi'n siŵr fod yr olygfa ohonof yn dawnsio ar y llwyfan gyda hwla-hwp rownd fy nghanol yn rhywbeth sbesial. Noson fendigedig, dawnsio, bwyta, foffio yn y tonnau, ond tristwch wrth feddwl bod rhaid i ni adael y 'paradwys' yma y diwrnod wedyn.

Kate Beard

Magic Kingdom yn fythgofiadwy. Wna i byth anghofio'r reid Splash Mountain chwaith. Chaf i ddim gwyliau fel hyn eto.

Matthew Pike

Wna i byth anghofio MGM. Mynd ar y Blacklot Tour a gweld sut mae tornados yn cael eu gwneud mewn ffilm. Tancar yn ffrwydro a miloedd o alwyni o ddŵr yn rhuthro ataf! Wrth gwrs roedd cyffwrdd y Terror yn codi gwallt fy mhen.

Arwyn Jones

Wythnos orau fy mywyd, a sylwi mor lwcus rwyf wedi bod. Blizzard Beach yn fythgofiadwy gyda'r Family Raft yn 'brilliant' a'r Downhill Double Dipper mor serth nes fy mod i'n teimlo fy mod i'n mynd i ddisgyn! Ond wnes i ddim wrth gwrs gan fod popeth mor ddiogel yno.

Rebecca Owen

Diwrnod hudolus yn Magic Kingdom pan ddaeth Mickey Mouse ei hun i'n cyfarfod a ninnau'n cael gosod y garreg i gofio am ein hymweliad. Yna mynd ar y 'reids' a chael hwyl fawr. Ond doedd y diwrnod ddim drosodd a chafodd y plant a'r athrawon hwyl yn y pwll nofio yn hwyr y nos (a hynny wedi i ni fod yn y syrcaes hefyd).

Stephanie Williams

A beth am atgofion yr Athrawon?

Ni fydd Mrs Beryl Jones yn anghofio wynebau'r plant yn Chef Mickey's pan ddaeth yr holl gymeriadau i'w cyfarfod. Mae Mr Gareth Hughes Jones yn cyfaddef ei fod wedi cerdded tri chwarter y ffordd i ben y Summit Plummet, ac ffordd i ben, a mynd i lawr y Slush Gusher yn ei le. Ond nid fo oedd yr unig un! Doedd Mrs Mary Wyn Jones ddim hyd yn oed am ystyried mynd yn agos at y lle. Ond roedd hi'n barod i fentro ar y Raffi Deuluol hefo Mme Gartau, Mrs Metcalfe, Mrs Roberts a Miss Davies, a'r syndod mawr oedd na chlywyd eu sgrechian nôl yng Nghymru!

Cafodd Mme Gartau driniaeth VIP wrth gael cyfle i fynd ar saffari. Ac roedd Mrs Gail Cyfle i fynd ar saffari. Ac roedd Mrs Mary Wyn Jones ddim mwynhau'r daith foethus yn y 'limo'; roedd hi'n chwifio'i llaw yn ddeheuig ar y werin — heb sylweddoli na allai neb ei gweld drwy ffenestri tywyll y car! Cafodd Mr Dylan Parri ei wefreiddio gan y Cirque du Soleil, ac roedd wedi ffansio un o'r 'limos' gan feddwl yr edrychai'n dda wedi'i barcio ar iard yr ysgol.

Rwy'n synnu braidd na wnaeth neb gofio am y trip i'r Shopping Mall. Ni ddaeth neb yn ôl i'r bws heb o leiaf un o fagiâu o'r siopau 'designer'! Wel, sôn am wario.



Mr Elfyn Roberts a Mr Dylan Parry efo Donald Duck. P'run yw Donald?

I'R ALBAN I GICIO'R BÊL

Bu Marcus Orlik o Lanberis ar daith i'r Alban ddechrau'r mis. Roedd yn aelod o garfan o bêl-droedwyr Cymreig oedd yn chwarae gemau paratoadol ar gyfer tymor rhyngwladol -15 y flwyddyn nesaf. Yn y gystadleuaeth Geltaidd roedd timau o'r Alban a Gogledd Iwerddon. Cawsant aros yn y gwesty lle roedd carfan yr Alban wedi lletya cyn eu taith drychinebus i Ynysoedd y Ffaro — a gêm gyfartal 1-1.

Collwyd yrsbyr yr Alban o 5-0, ond mwy o ysbryd yn eiddo y Gwyddelod a chael gêm gyfartal 1-1. Chwaraeodd Marcus yn y ddwy gêm a gobeithio y bydd yn elwa o'r profiad. Bu am gyfnod yn mynychu sesiynau hofforddi gyda thim Dinas Caer.



ARDDANGOSFA CWRYSYLFAEN CELF A DYLUNIO, COLEG MENAI

Llongyfarchiadau i holl fyfyrwyr y cwrs sylfaen eleni ar safon uchel eu gwaith. Llongyfarchiadau arbennig i gyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail sydd wedi llwyddo yn y cwrs ac wedi cael eu derbyn i gwrsgladd. Eithriad yw cael 6 disgybl i lwyddo i safon mor uchel mewn un flwyddyn ysgol. Mae llawer o'r clod am hyn i Alan Ginsberg, eu cyn athro a'u rhoddodd ar ben y ffordd.

Bydd Glyn Price yn mynd i Goleg Celf a Dylunio Cheltenham; Edryd Sharp yn mynd i Goleg Dylunio a Chyfathrebu Revensbourne yn Llundain; Ynyr Gruffudd Roberts yn mynd i astudio Dylunio yn Sheffield; Rhys Lloyd Jones yn mynd i astudio Hanes a Hanes Celf yn Aberystwyth; Huw Llywelyn Jones yn mynd i Goleg Cerdd a Drama Caerdydd, ac ymhen blwyddyn bydd Hannah Boothroyd yn mynd i Goleg


Celf Cheltenham i aastudio Celf Gain.

Mae'n amlwg fod y 6 ohonynt wedi cael arweiniad arbennig o dda yn y Coleg yn ystod eu cwrs sylfaen oherwydd y modd y mae eu gwaith wedi datblygu. Maent wedi gweithio'n galed iawn am flwyddyn gyfan. Pob lwc i'r 6 ar eu cwrs gradd.

POB LWC OWAIN

POB LWC OWAIN: Bydd Owain Morris, Blwyddyn 9 yn cystadlu dan 15 ym Mabolgampau Cymru yng Nghasnewydd ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 26. Bu'n llwyddiannus ym Mabolgampau Eryri yn taflu'r pwysau i bellter o 10 metr 17cm, sef ei daflad hiraf.

Pob dymuniad da iddo ar yr achlysur arbennig yma.



Ac erbyn diwedd y daith roedd hyd yn oed y Prifathro wedi blino'n lân.

Bu Menna Jones, Prif Weithredwr Antur Waunfawr, yn y 'Merica ar ôl derbyn grant Teithio Churchill — yn dilyn llwybr John Evans, Waunfawr.

Yng nghamrau John Evans at y Mandaniaid

2 Mai — Baltimore

Man glanio John Evans yn y 'Merica yn 1792 — y mwyaf a'r prysuraf o borthladdoedd y cyfandir. Dim sôn am John Evans er bod Cymru ac Ewropeaid y G18fed wedi cerfio eu hanes ar y ddinas. Y 'Baltimore Indians Association' yn rhoi croeso cynnes i ni — dynes o'r enw Tina Morgan. Be wyddoch chi am Madog a'i daith i Merica yn y G12fed meddwn i? 'Roedd yr Indiaid yn croesawu pobloedd o bob cenedl, yn cyd-fyw a chyd-fasnachu efo nhw — hwyrach fod Madog yn un ohonynt ... Columbus wnaeth ddifa'r cyfan i ni.'

3 Mai — Washington D.C.

Cyflwyniad perffaith i'n hysbyrdoli (lluniau Caitlin o'r Mandan yn Amgueddfa'r Smithsonian) a Washington yn ddinas gyfeillgar gartrefol — efo'i phrotestwyr yn y Capitol a'i siopau bach Chinatown ...

5 Mai — Philadelphia

Wedi taith ar hyd un o lonydd peryclau'r wlad cael croeso a llety ar gyrion y ddinas fyrlymus gan Beth Phillips Brown 'Folklorist & Storyteller', sydd o dras Gymreig ac yn rhugl ei Chymraeg. Ein 'tâl' am aros oedd iddi gael arfer ei Chymraeg. Olion y Fleur de lys a welir ar fapiau J.E. yn britho'r ddinas, ac ar ddamwain taro ar y Capel Cymraeg ddau floc o ganol y ddinas — a chael hanes Eisteddfod mis Medi. Methu dygymod â phrysurdeb gwyllt y ddinas — tybed ai fel hyn oedd John Evans yn teimlo — yn awchu am ddengid i'r gorllewin?

8 Mai — Ohio

Columbus, Oak-hill, Chillicothe a'r Madog Institute for Welsh Studies.

Oak-hill — Canolbwynt y gymuned Gymraeg a sefydlwyd yma'n y G18fed — a Pharc Hopewell — lle credir i'r Mandaniaid fodoli cyn symud am y gorllewin — blasu'r ddau le a'r ddau ddiwylliant efo dim ond hen

olion ac enwau i gadw'r hanes yn fyw, un Amgueddfa Gymraeg yn chwifio'r Ddraig Goch, ac un Cardi o Aberaeron yn siarad Cymraeg.

12 Mai — St. Louis a St. Charles
St. Louis — y porth i'r gorllewin a'r afon Mississippi'n ein hatgoffa ein bod yn nesau at lannau'r Missouri. Cyfarfod rhai cannoedd o edmygwyr Lewis & Clarke yn ail-greu'r daith yn St. Charles — y cyfan wedi gwisgo'n hynafon ac yn ceisio'n darbwyllo ni (a nhw eu hunain) eu bod o dras Cymreig/Albanaidd/Seisnig/Celtaidd/Sgandinafaidd — neu unrhyw genedl, mewn ymgais i roi dipyn o hygyrdded a hunaniaeth iddynt.

19 Mai — Pine Ridge a Rapid City, De Dakota

Trawma mwya'r daith — ar goll ganol nos mewn car rhy grand â thanc gwag, yn 'Pine Ridge Reservation', pentre tlota America efo'r holl broblemau sy'n mynd law yn llaw â chymuned ddi-freintiedig — ond o leiaf roeddwn wedi dod o hyd i gymuned a'r dinasoedd enfawr y tu cefn i ni. A drannoeth anghofiwyd am ofn y noson cynt efo Gerald Ice, un o hynafiaid yr Oglala Lakota a Little Brave o Rosebud yn dechrau'n haddysgu am eu byd. Dim ond saith mlynedd arall, ac mi fuaswn yn hyddysg yn nhraddodiadau'r llwyth. Ond gadawsom y Badlands a'r Sioux a dilyn llwybr y Missouri tua'r gogledd.

23 Mai — Pierre

Uchafbwynt y daith — dod o hyd i gamp protest efo cynrychiolwyr o saith llwyth Indiaidd — yn cynnwys Robert Quiver, Clint Yellow Bird, Tom Cheyenne a Loren Black Elk — wedi gosod eu tipis a'u pebyll ar lan y Missouri i brotestio. Y llywodraeth wedi cynnig rhai miliynnau o bunnoedd i'r saith llwyth am 200,000 erw o'u tir, a'r Indiaid wedi dweud 'NA'. Ac ar ôl y croeso didwyll, y seremonïau o gwmpas y tân



Idris yn rhannu alawon o Gymru a rhai o'r 'Merica.

cysegredig, y miwsig ffidil yn y camp gyda'r nos, sylweddoli bod y darn afon ar y papur newydd o'm blaen a'r penawdau protest yn cyfeirio at yr un darn o afon y gwnaeth John Evans ei fapio 200 mlynedd yn ôl.

28 Mai — North Dakota, Fort Berthold

Cyrraedd o'r diwedd, ac anferthedd y Missouri yn weladwy ar hyd ein taith i Fort Berthold — calon tiriogaeth y Mandan. Cyfarfod 1 o'r 15 sy'n dal i siarad yr iaith, a'r siom o ddarganfod nad yw Ysgol Mandan yn ddim mwy nag ambell wers Mandan ac addysg Saesneg. Cyfarfod â Keith Bear — dyna benllanw pedwar mis o geisio cysylltu — sy'n llysgennad gwerthfawr i'r Mandan, yn heliwr, dawnsiwr, actor, dyn teulu, hanesydd, Indian, Americanwr, cerddor gwych a miwsig ei fflwrt ar werth yn



Mabon a Keith Bear (o dras Mandan) efo mwclis gewyn arth.

Amgueddfeydd enwocaf America. Yntau yn ei ffordd ddiymhongar unigryw yn ein cyflwyno i'w deulu — ei hynafiaid — a'u llygaid yn sbio arnom o luniau drud yr amgueddfeydd. Cyfarfod ei gyd-Fandaniaid — garddwyr, athrawon, ffermwyr byffalo, a meiddio sôn bod gobaith eto i'r iaith — dim ond un person oedd ar ôl unwaith yn siarad yr Hebraeg! — beth am gyrsiau yr un fath ag Wlpan? Creu rhwydwaith Mam a'i phlentyn i gyflwyno'r iaith? Cytunwyd bod unrhyw beth yn bosib — a fis Awst bydd Keith yn dod i Waunfawr.

2 Mehefin 1999


Dychwelyd i Gymru newydd, hyderus efo'i chynulliad ei hun — a'r arswyd yn dal i brocio'r cof o wybod nad geiriau gwag oedd rhai John Evans 'Y Madogwys neu Angau'.



Americanwyr eisïau bod yn Indiaid efo Menna a Mabon yn St. Charles.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

**OSMOND SHAW
DEINIOLEN**



GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545



Blodau

o safon uchel
ar gyfer eich
achlysuron
arbennig

(01248) 352263

THE PANNIER
50 STRYD FAWR
LLANBERIS

Ffôn: 870301

DEWCH ATOM AM
FRECHDANAU A
BYRBRYDAU FFRES
A WNEIR AR EICH CAIS

Ar agor Mawrth — Sadwrn
9 a.m. - 4 p.m.

DERBYNNIR ARCHEBION
DROS Y FFÔN

MYFYRIWR Y FLWYDDYN



Mae Yvonne Templeman, 17 oed o Dan y Bryn, Tan y Coed, Llanrug wedi ei dewis yn Fyfyriwr y Flwyddyn ar gyfer y cwrs NVQ mewn Arlwyio Cyffredinol yng Ngholeg Menai, Bangor. Mae Yvonne yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, Llanrug ac fe fydd yn awr yn dilyn Cwrs Uwch GNVQ yn y Coleg.

AR LAN YR AFON

Y dydd o'r blaen cefais sgwrs ar Bont Penllyn am y diweddar Bob Jones, gŵr oedd yn deall i'r dim sut i 'sgota Padarn a'r Seiont yn y rhan honno o'r afon rhwng Penllyn a Phonrhythallt y dylid ei galw Afon Rhythallt.

Heb os, roedd Bob yn naturiaethwr o fri, ac yn nabod y pryfetach sy'n fwyd i'r pysgod. Gwyddai'r union adeg o'r flwyddyn yr oedd y rhain i'w cael. Deallai'r tywydd, yn enwedig y tymheredd a'r golau.

Yn ogystal â dal pysgod byddai Bob yn clymu plu ar gyfer y farchnad. Cofiaf sgwrsio, pan oeddwn yn byw ym Metws y Coed, efo cipar Gwesty'r Gwydir, a'r hen Dick Smith yn dysgu sawl tric i mi. Roedd yntau yn glymwr o fri ac wedi dod i nabod Bob, ac fe ddeuai ar dro i'w weld. Un tro yr oedd y cwmni awyrennau Aer Lingus yn trefnu ymgyrch hysbysebu ar gyfer gwyliau yn Iwerddon, ac wedi methu dod o hyd i'r llyn delfrydol i gael llun ohono ar gyfer yr hysbysebion drudfawr. Penderfynwyd defnyddio llun o Lyn Padarn a thynnwyd llun Bob yn ei gwch ar y llyn. Defnyddiwyd y llun am flynyddoedd i ddenu ymwelwyr i Iwerddon, ac mae'n debyg fod llawer wedi crwydro'r wlad honno yn chwilio am y llyn arbennig. Decpunt oedd ffi Bob i fod, ond bu raid i'r cwmni dalu tipyn mwy na hynny iddo gan fod ei wraig wedi mynnu nad oedd decpunt yn ddigon am lun ohono yn ei jumper newydd.

Mae'n amlwg fod llawer o'r hen sgotwrs o ardal Llanberis a Llanrug ac yn enwedig o Gaernarfon, yn deall natur i'r dim. Ymhlith y pentwr papurau sydd gennyf, mae ysgrif o'r 1920'au sy'n sôn am ddefnyddio pryfetach wrth 'sgota. Credaf mai dyma'r unig un sydd ar gael, ac mae'n disgrifio'r patrymau a phryd i'w defnyddio, ac yn egluro pa

bryfetach y mae'r rhain yn eu hefelychu. Mae'n sôn am ryw Mr Radford oedd yn dod o hyd i beth o'r pryfetach ac yn clymu'r patrwm i'w dynwared. Oes rhywun yn gwybod rhywbeth am y dyn yma?

O feddwl am yr holl bapurau sydd gennyf a'r hyn y gwn i sydd ar gael gan lawer un arall yn yr ardal, oni fyddai'n syniad da i ddechrau casglu'r deunydd sydd ar gael am hanes datblygiad 'sgota yn y fro rhag i'r cyfan fynd ar goll? Mae croeso i chi fy ffonio ar 01286 670666 os oes gennych ddi-ddordeb yn y fath syniad.

Mae rhai'n holi sut mae'r tymor 'sgota eleni. Rwy'n falch o ddweud ei fod yn reit dda. Mae'r Seiont yn dechrau dod ati ei hun o'r diwedd gyda nifer o frithyll yn eu dangos eu hunain. Mae Padarn hefyd yn 'sgota'n dda, a nifer o ymwelwyr wedi bod yno'n barod. Ond wrth gwrs, y mae pryder ynglŷn ag effaith y cwch pleser sydd wedi cyrraedd erbyn hyn. Mae'n biti na wnaeth neb oedd yn gyfrifol am roi caniatad i'r fenter hon gysylltu â'r clwb i geisio cydweithio er mwyn sicrhau nad yw 'sgota traddodiadol y torgoch yn cael ei ddifetha, cawn weld ynte! Ond efallai nad oes neb eisiau siarad â ni, gan fod Fforwm Padarn sydd i fod i hybu twristiaeth yn gysylltiedig ag adnoddau Llanberis, wedi gwrthod yn blwmp ac yn blaen i'r gymdeithas 'sgota gael ei chynrychioli arno, a hynny er ein bod yn berchnogion eiddo mwyaf yr ardal. Ond mae'n bosibl nad ydynt eisiau i neb lleol gael gwybod beth sy'n mynd ymlaen. Hwyl a dwy fflag arni am y tro o leiaf.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044

Antur Waunfawr



• Meithrinfa Blanhigion

planhigion i'r ardd

gwasanaeth plannu basgedi crog a photiau

• Siop Grefftau Bryn Pistyll

stoc newydd o nwyddau chwaethus

gan grefftwyr Cymreig

dewch draw i weld beth sydd

gennym i gynnig

agored pob dydd Sadwrn yn ystod yr haf

yn ogystal a'n oriau arferol

Llun - Gwener 10.00 - 4.00



650 721

CARTREF YMDDEOL DEINIOLEN LODGE

Ffôn: (01286) 871073



AR FIN AGOR

HOLWCH AM FANYLION

(parhad o dudalen flaen)

wedi dibynnu ar y chwareli am eu cynhaliaeth.

Er i'r chwarelwr dderbyn cyflog eithaf da am flynyddoedd lawer yn ystod y ganrif ddiwethaf, doedd dim i'w hamddiffyn rhag colli eu swyddi neu dderbyn cwtogiadau cyflog mewn cyfnod o ddirwasgiad. Cafwyd streiciau a chloi allan yn y chwareli o dro i dro, yr amlycaf wrth reswm oedd 'Streic Fawr' y Penrhyn. Dyma'r anghydfod gyda'r mwyaf hynod a hir hoedl yn hanes diwydiannol Prydain - y 'Streic Tair Blynedd' fel y'i gelwir yn aml - yn parhau o Dachwedd 1900 hyd Tachwedd 1903.

Methodd y Streic yn ei hamcan, ac fe ddadfeiliodd y diwydiant yn fuan wedi hyn - yr oedd cau chwarel mor ddylanwadol â'r Penrhyn am dair blynedd wedi amddifadu'r farchnad o'u cyflenwad llechi, ac yr oedd y masnachwyr wedi troi eu golygon at farchnadoedd tramor am eu deunydd toi. Dechreuodd y chwareli gau o un i un ar droad y ganrif, a daeth y broses i'w lawn dwf rhwng 1969 a 1971 pan orffennwyd gweithio chwareli Dinorwig, Dorothea ac Oakeley, tair o'r cewri cynt.

Erbyn heddiw, golwg digon tlodaidd sydd ar bentref Tanygrisiau, fel yn achos mwyafrif y pentrefi chwarelyddol, gyda'u tai a'r siopau gweigion yn gof adfeilion o fwrlwm a phrysurbwyl y cymunedau cyn i'r chwareli gau. Mewn llai na chanrif felly, bu i'r diwydiant llechi ddatblygu, llwyddo, yna edwino. Wedi symud y rhes o dai i'r Amgueddfa Lechi bwriedir eu dodrefnu er mwyn adlewyrchu'r newid yn y diwydiant llechi.

Yn y lle cyntaf golygir darlunio 1860: Oes Aur y diwydiant llechi, cyfnod y mewnlfriad i'r ardaloedd chwarelyddol, sef blwyddyn adeiladu'r tai;

1901: Cyfnod Streic y Penrhyn, streic a gafodd effaith drychinebus ar gymuned Bethesda yn ogystal â'r diwydiant llechi;

1969: Diwedd Cyfnod, diwrnod cau Chwarel Dinorwig - Mis Awst 1969.

Bydd y pedwerydd tŷ yn cael ei gyflwyno fel adnodd addysgol.

Y gobaith yw llwyddo i ddechongli ysbryd y gymdeithas, a bywydau'r chwarelwyr a'u teuluoedd.

Mae gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru brofiad hanner can mlynedd o ailgodi adeiladau yn y modd hwn yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, y cyntaf o amgueddfeydd awyr-agored Prydain.

CHIROPODIST

Gwasanaeth
yn eich cartref


E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffon:

(01286) 675754



Y sylfeini wedi eu gosod a'r gwaith ar fin cychwyn.



Y gwaith o godi'r tyddynnod yn mynd rhagddo. Mae llun o'r tai ar fin eu cwblhau ar y dudalen flaen.

Dathliadau Mileniwm y BBC

Annwyl Olygydd a Darllenwyr,
Beth fyddwch chi'n ei wneud dros
y Flwyddyn Newydd eleni?

Rwy'n awyddus iawn i glywed am unrhyw weithgareddau fydd yn digwydd yn eich ardal chi rhwng 10 o'r gloch y bore, ddydd Gwener 31.12.99 a 12 o'r gloch y prynhawn, ddydd Sadwrn 01.01.2000, ar gyfer ymchwil rhaglen BBC Cymru/Rhwydwaith fydd yn dilyn dathliadau pobl Cymru, Prydain a'r byd dros benwythnos y Mileniwm.

Bwriad BBC Cymru yw adlewyrchu dathliadau pobl a chymunedau Cymru er mwyn cyflwyno llun cyflawn o ddigwyddiadau pentrefi, trefi a dinasoedd y wlad ar y Rhwydwaith genedlaethol a byd-eang. Gall y dathliadau yma fod yn ddigwyddiadau blynyddol neu arbennig ar gyfer y Mileniwm, yn weithgareddau elusennol, cerbyddol, teuluol, cymunedol neu arall.

Gwerthfawrogwn yn fawr pe bai modd i chi ddanfôn unrhyw fanylion ataf i'r rhifau/cyfeiriadau isod a'r gobaith yw cynnwys y wybodaeth yma ar safle Mileniwm y BBC ar y Wê, ac yn ein darllediadau, lle bo hynny'n bosib.

Rhian Williams

Ystafell MO11,

Adran Adloniant Teledu,

BBC, Llandaf

CAERDYDD CF5 2YQ

Ffon: 01222 322673

Ffacs: 01222 323516

E-bost: rhian.williams@bbc.co.uk.



Gwahoddiad


i bobl Llanberis a'r cylch

Ymweliad a'r Tai Chwarelwyr

(1-4 Fron Haul, Tanygrisiau)

Gorffennaf 29 & 30ain 1999

1pm - 4pm



Dyma gyfle i weld y tai a chyfle hefyd i sgwrsio gyda staff Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru am y gwaith o ddatgymalu, ail-godi ac ail ddodrefnu,

(Mynediad am ddim i 4 o bobl gyda'r tocyn yma)

AMGUEDDFA LECHI CYMRU
PARC GWLEDIG PADARN, LLANBERIS, LL55 4TY

Am rhagor o fanylion ffoniwch ☎ 01286 870630

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CYMDEITHAS RHINI AC ATHRAWON: Cynhelir Helfa Drysor nos Lun, 5 Gorffennaf yn cychwyn o'r ysgol am 6 o'r gloch. Pris £1.00. Os bydd yn dywydd garw fe'i cynhelir ar noson arall. LLONGYFARCHIADAU i blant y pentref a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau yn yr ysgol neu yn y coleg. Dymunwn bob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

UNDEB Y MAMAU: I ddiweddu ein cyfarfodydd am y tymor trefnwyl i gael arwerthiant Moes a Phryn yn Hafan Elan, Llanrug, nos Lun Mehefin 7. Ymunodd trigolion Hafan Elan a'u ffrindiau yn yr arwerthiant a chafwyd amser difyr iawn. Yn gofalu am y lluniaeth yr oedd Mrs M Latham a Mrs Kath Jones. Hwyl hefyd oedd yn gyfrifol am y ddwy raffl ac fe'u henillwyd gan Mrs G Kirkpatrick a Mrs Ellen Jones. Trafodwyd rhai materion. Mwynhawyd yr Arddwest yn Mhenrhyndeudraeth gan bawb. Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn Eglwys y Drindod, Llandudno yn ystod y mis. Bydd 'Te Mefus' yn cael ei gynnal yn Llanrug ar 24 Gorffennaf. Doedd dim arall i'w drafod a therfynwyd gyda'r Gras.

YSGOL CWM-Y-GLO: Rydym yng nghanol prysurdeb diwedd y flwyddyn ysgol ac mae nifer helaeth o weithgareddau wedi cael eu trefnu gan Gymdeithas Rhieni/Athrawon yr ysgol. Eisoes cafwyd beicio 'Rownd a Rownd' ar gyfer y plant bach dan 5 oed. Roeddynt i gyd wedi cael eu noddi gan deulu a ffrindiau. Diolch i chwi i gyd am gymryd rhan neu gefnogi a hyfryd oedd gweld y teuluoedd wedi troi i mewn am sgwrs a phaned ar ddiwedd y beicio.

Ar nos Wener arbennig o braf aeth dwy garfan o blant a rhieni ar ddwy daith gerdded nodedig.

Aeth y plant ieuengaf o Gwm-y-glo ar hyd llwybr Llyn Padarn i Lanberis ac yna dychwelyd yn ôl yr un ffordd. Cerddodd y plant hyn dros Clegir, i lawr i Lanberis ac ymuno â'r criw arall ar y ffordd yn ôl. Diolch i bawb a fentrodd allan i gerdded ac i bawb a fu'n noddi'r plant.

Cynhaliwyd dwy noson agored i'r rheini gael cyfle i drafod gwaith y plant. Yna ar Fehefin 30 aeth y plant ar drip ysgol. I'r Sw ym Mae Colwyn yr aeth y Babanod a'r Adran Iau i Henblas, Bodorgan.


Nos Lun Gorffennaf 5, bydd yr Helfa Drysor flynyddol yn cychwyn o neuadd yr ysgol am 6.30. Cynhelir mabolgampau'r ysgol ar gae y pentref brynawn dydd Mawrth, Gorffennaf 6 am 1.15 a bydd lluniaeth ysgafn ar werth yno. Croeso i bawb sy'n dymuno ymuno â ni.

Bu Catherine Aran, o Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd gyda Bl 3 a 4 yn adrodd straeon wrthynt. Cawsant fore hynod o ddiddorol yn ei chwmmi ac roeddynt yn ysu am ymweliad arall yn fuan. Diolch yn fawr iddi.

Bore Mercher diwethaf, cafodd Bl 5 a 6 fynd i lawr i'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon i ymuno yng ngweithgareddau Awdurdod Iechyd Gwynedd. Roedd hwn hefyd yn fore diddorol iawn ac addysgiadol. Cawsant gyflwyniad gan y Gwasanaeth Ambiwylans, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Adran Diogelwch y Ffyrdd. I gloi y bore cyflwynodd Marc Griffith sioe bypedau gwerth chweil. Yng nghwmni ei 'ffrindiau' cafodd y plant y negeseuon pwysig a hynny mewn cyflwyniad hynod ddoniol gyda llond bol o chwerthin gan lond neuadd o blant.

Diolch i fechgyn Bl 3 a 4 i gyd

Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd



Sarah Jones a Jack Watson a enillodd Fedal Aur yr un yn Eisteddfod yr Urdd. Cafodd Sarah ei medal am beintio ar sidan a Jack am waith collage.

am gynrychioli'r pentref yng nghystadleuaeth Tlws yr Eco. Llwyddodd Gafin, Llion Bryn, Sonny, Liam, James, Harry, Leon, Huw, Peter ac Alan i ennill y ddwy gem gyntaf, cael gem gyfartal yn yr ail a cholli'r drydedd gem. Da iawn chi hogia — daliwch ati a diolch i Mrs Jen Roberts am eich hyfforddi.

Carem ddymuno'n dda i'r wyth plentyn sy'n trosglwyddo i Ysgol Brynrefail ym mis Medi, sef June, Lona, Leanne, Leigh, Llion, Craig, Paul a Ryan. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yno a chofiwch wneud eich gorau bob amser. Diolch i chwi am eich cyfraniadau i Ysgol Cwm-y-glo.

Diolch i chwi bentrefwyr hefyd am eich holl gefnogaeth i ni ar hyd

y flwyddyn. Rydych yn ffyddlon iawn i'r gweithgareddau ac edrychwn ymlaen am eich cwmni eto ym mis Medi. Bydd yr ysgol yn ail agor ar Fedi'r ail. Gwyliau hapus iawn i bob un ohonoch.

CYSTADLEUAETH

Enw i Gaffi Menter Fachwen yn Nhŷ Llundain, Cwm-y-glo fydd yn agor yn fuan

Gwobr i'r Buddugol

Tocyn Teulu i gael te pawns yn y Caffi a basged o flodau

Dewch a'ch cynnig i Dŷ Llundain erbyn Gorffennaf 10



Plant dan 5 yr ysgol a fu'n codi arian ar daith feicio 'rownd a rownd'.

AM OFFER Tŷ A GARDD . . .

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

- ★ Blodau ar gyfer pob achlysur
- ★ Dewis da o Lysiau Fferm
- ★ Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO



ORIEL CWM

Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol

Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

Llythyr o'r America . . .

Cambria
Wisconsin
February 9th 1885

Annwyl Frawd,
Gyda llawenydd mawr y derbynnaid dy garedig lythyr, a'r 'caneuon'. Yr oedd yma ddisgwyliad mawr amdanynt ers diwrnodiau, ond dydd Sadwrn diweddaeth aeth Bob a Jemima i lawr i'r pentref ac erbyn iddynt gyrraedd adref yr oeddynt braidd wedi blino. Rhyngddynt hwy a'r ceffylau, y peth cyntaf a dynodd fy sylw oedd rhyw rolyn o bapur a'i hyd heb fod yn fyr iawn. Yr oedd yr olwg arno wrth ddod at y ty yma yn y cutter yn debyg iawn i long un mast, y papuryn rhollledig fel polyn barber a'i big i fynny yn yr entrych, a'r cwestiwn cyntaf a ofynnais i Jemima oedd, 'a ddaeth y songs?'. Dywedodd hithau ei bod yn credu hynny wrth yr olwg allanol. I'r ty yr aeth ac erbyn i minnau fyned yno beth a glywwn yn cael ei chleician ar yr organ ond 'Llan y cariadau'. Yr oeddwn bron a gwaeddi fel yr hen Thomas William, Rhyd-ddu. 'Gogoniant' 'Bendigedig'. Yr oedd Tom a Jemima wedi methu a dioddef i mi i ddod i'r ty i'w dattod. Aethant ati eu hunain i flingo y rhwyl, ac ni fu y fath frasder yng nghrombil y fath greadur erioed. Canu oedd ei hanes hi drwy y nos braidd, a heddyw fachgen, nid oes dim ond canu i'w glywed yn dod oddiwrth y ty. Y mae yn syn fy mod yn gallu ysgrifennu yr un gair i ti tra mae yr holl ganeon yn cael eu quarrio wrth fy ochr.

Wel, y mae yma falchder mawr o honynt. Credaf nad oedd yn bosibl cael dim mor dderbyniol. Rwyf yn sicr y byddaf wedi dysgu un neu ddwy erbyn y Cyfarfod Llenyddol bydd i fod i'w chynnal ar y 17th Mach yn Capel Sion yma. Y mae un peth yn fant eisio iawn i'm canu sef na chlywodd neb erioed o'r Cymry Americanaidd yma yr un o honynt yn cael eu canu o'r blaen. Felly y maent yn hollol ddieithr oll, ac oherwydd hynny fe swniaent yn darawiadol iawn. Nid wyf yn meddwl y gallaf i ddysgu amryw o honynt, ond gallaf ddysgu y rhai hawddaf.

Mi rwyn deall eich bod wedi cael eich arwain i ychydig o brofedigaeth trwy fod Lizzie Ellis wedi anfon rhyw anwireddau mawr yna, trwy son am ryw gic a dderbynnaid gan y 'ceffyl'. Wel wir,

cefaif ryw gic fechan gan 'ebol fach' ac nid gan y ceffyl. Mi ddyliwn fod 'ebol fach' yr America yn gymmaint a cheffyl yng Nghymru, ond nid oedd yn gic o'r un niwed i mi. Bum yn gloff am ryw ddau ddiwrnod, ond yr oeddwn yn gallu myned trwy fy ngorchwylion fel o'r blaen. Nid oeddwn yn meddwl ei fod yn werth gyru yr hanes i chwi yna gan mor fychan yr oedd. O'r braidd nad oeddwn wedi anghofio yn llwyr am dani nes i'r peth ddod ar y Bwrdd drachefn o Gymru. A wnewch chwi beidio rhoddi dim sylw i beth fel yna eto, achos buasech wedi gwybod os buasai rhwybeth yn niweidiol iawn, cyn y buasai neb arall yn cael y fantais o ddweud o fy mlaen.

Nid wyf yn cofio a soniais am arian y fuwch yn fy llythyr a anfonais ddiweddaeth, os wna wnes meddyliais am wneud a gollyngais yn yr angof wedyn. - y maent wedi eu derbyn yn iawn ers wythnosau, ac yr wyf yn ddolchgar iawn am danynt i chwi.

Bydd gennynt waith ateb mawr yn ol etto ar ol derbyn rhyw rwb o lythyrau. Peth rhyfedd yw dechrau cael hwyl ysgrifennu, onide, mi fydd pall ar hyn ambell i dro. Mae'n bur debyg fod yna lawer iawn o chwydd-wydrau yn cael eu rhoddi ar hanes Bob Closs yn Llanberis yna, ond cofia fy mod yn dweud, ac wedi dweud cymmaint ag sydd yn wybodus o'i hanes. Dywedais yr oll mor agos i fy lle ag y gallwn. Cafodd John lythyr ddod oddiwrth ei fodryb, gwraig John Closs o Fair Haven, fod John Closs wedi derbyn llythyr gan rhywun o Danielsville Pa., ai bod yn amheu mai Bob ydyw. Holi am ei Drunk yr oedd ac eisiau gwybod rhywbeth amdano, ond yr oeddynt hwy yno, yn ei amheu, gan feddwl mai rhywun arall eisiau cael ei Drunk trwy dwyll. O'r fath lol a'r fath wiriondeb, yn ol fy meddwl i, a phawb arall y ffordd yma, nad oes yna ddim lle i gasglu y fath beth yn ei hanes o gwbl. Anfonaf i chwi rhyw fraslun o'r llythyr a ddaeth yma i John, sef yr un a anfonodd i'w ewyrth i Fair Haven, pa un a anfonwyd yna i John D. Closs. Y mae llythyr a gafodd John oddiwrtho yn Cambria gan yr 'Hen Lanc'. Anfonaf hwnnw i chwi mor fuan ag y gwelaf ef. Yr ydym wedi anfon at Bob am ysgrifennu i Gymru mor fuan ag y gallai. Mae'n debyg ei fod wedi gwneud cyn hyn. Dyma i chwi fel yr oedd wedi anfon i'w fodryb a'i ewyrth.

Danielsville,
Pa.

Annwyl Ewyrth a Modryb,
Y mae yn wir ddrwg gennyf fy mod wedi achos cymmaint o gynnwrf a phoen yn eich plith, yn enwedig i John, fy nghefnder oedd yn yn cyd-deithio a mi. Yr wyf wedi gweled fy hanes yn y 'Drych', ond nid oedd gennyf ddim help o hynnyf fy hun. Yr wyf wedi colli fy arian a'm cheque yn yr amgylchiad. Buaswn yn falch iawn pe buasech yn ceisio cael gafael ar fy Nhrunk yn rhywle. Yr wyf wedi ysgrifennu i Cambria i John. Cewch fwy o'm hanes etto. Ydwyf, gan gofio atoch, Eich nai,
Robert G. Closs.
Danielsville, Pa.

Na choeliwch bob ryw straeon a ddaw yna o Milluakee neu unrhyw Mill arall. Mae'n debyg y bydd yna batchio llawer o gelwyddau. Yr wyf i yn dweud cymmaint ag sydd yn wyddus o'i hanes i chwi.

Rwyf yn disgwyl y gwnei rhyw

sylw o'r hyn wyt wedi ei anfon yma mewn cysylltiad a dy fwriad i ddod drosodd yma. Cofia fi at deulu Plas Coch, a dywed wrth Evan a Mary Kate eu bod yn yr arfaeth gennyf.

Mae yma ddisgwyliad mawr wedi bod ar Lanvage a Hayden Parry, ond rwy'n deall nas gall Lanvage ddod etto, ond bod Hayden yn dod. Gwell fuasai iddo aros yna rwy'n meddwl achos ni wnaiff ddim ond myned yn is yng ngollwg y Cymry yma, yn debyg fel ag yr oedd Rev. O.T. Williams yma, fe ddiraddiodd ef ei hun yn arw iawn, ac yr wyf yn deall ei fod wedi gwneud hynny yng Nghymru.

Terfynaf yn awr, gan gofio atoch oll.

Ydwyf dy frawd,
Owen W. Rowlands,
Cambria, Wisc.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant yn rhoi gwerth eich arian.

Cartref a Chynnwys Teithio • Car Anifail Anwes

Gwasanaeth Torri Lawr

**Age Concern (Wales)
Enterprises Limited**
Ffordd Santes Helen
Caernarfon

Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

AGE
Concern

INSURANCE
SERVICES

All our profits
support the work
of Age Concern

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££ ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

AVW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

YSGOL GYNRADD LLANRUG LLWYDDIANT EISTEDDFODOL: Llongyfarchiadau calonog i Emma Catherine Williams a Debbie Hughes ar ddod yn gyntaf yn y ddeuawd dan 12 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd dros wyliau'r Sulgwyn.

TEITHIAU ADDYSGOL: Bu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 mewn arddangosfa hanes yng Ngarth Celyn, Abergwyngregyn ac yng Nghanolfan Natur, Nant Rhaeadr. Bu disgyblion Blwyddyn 1 a 2 ar ymweliad â Llanberis i fwynhau atyniadau naturiol yr ardal.

DARLLEDU: Bydd deg o blant yr ysgol i'w clywed ar Radio Cymru o gwmpas y Nadolig yn adrodd chwedlau, yn dilyn eu tapio yn yr ysgol gan Cwmni Iaith Cyf i'r BBC.

CHWARAEON: Llongyfarchiadau i enethod Blwyddyn 3 a 4 ar ddod yn drydydd drwy Ogledd Cymru mewn cystadleuaeth denis yn Ysgol Howells, Dinbych.

RALA RWDINS: Bu holl blant Adran y Babanod yn Theatr Gwynedd yn mwynhau sioe Rwtsh Ratsh.

CODI YMWBYYDDIAETH: Daeth Mici Plwm a'r Parch Eirian Rees o Gyngor Alcoholiaeth a Chyffuriau Cymru i sgwrsio â'r plant hynaf ynghylch afiechyd a phroblemau cysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau ymhlith pobl ifanc heddiw.

DYMUNA Mrs Persis James, Bryn Mair ddiolch o galon am bob dymuniad da a charedigrwydd a ddangoswyd iddi ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 yn ddiweddar.

MARWOLAETH: Bu farw Mrs Nancy Jones, Madryn yn dawel yng Nghartref Preswyl Penisarwaun. Cydymdeimlwn yn arw â'r plant Hefina, Nan a Meirion a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

GWAELEDD: Anfonwn ein cofion at bawb sydd ddim yn dda eu hiechyd ond braf iawn yw deall fod Mr Evan Williams, Bryn Gro wedi gwella a chael dod adref o'r ysbyty.

CYMORTH CRISTNOGOL: Casdglwyd £788.75 tuag at Gymorth Cristnogol yn y pentref yn ystod mis Mai. Diolch i'r gwirfoddolwyr a fu'n casglu ac i'r pentrefwyr am eu cyfraniadau hael.

PÊL-DROED: Cynhaliwyd cystadleuaeth pêl-droed ar gae Mountain Rangers i fechgyn o dan unarddeg oed yn ddiweddar. Cymerodd deunaw o dimau lleol ran ac oherwydd y nifer, hanerwyd y cae a chwaraewyd dwy gystadleuaeth ochr yn ochr, gyda Penrhosgarnedd yn llwyddo dros Bontnewydd mewn un ffeinal a Llanrug yn fuddugol dros Cae Glyn yn y llall. Llwyddodd Llanrug i ddal eu gafael yn eu mantais o un gôl (peniad gwych gan Emlyn Roberts) er i oriau'r 'ref' o Gaernarfon ddechrau arafu tuag at ddiwedd y gêm.



Debbie Hughes ac Emma Catherine Williams a ddaeth yn gyntaf yn y ddeuawd dan 12 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Noddwyd a ffilmiwyd y gystadleuaeth gan y rhaglen 'Gôl' a bydd yn cael ei darlledu fis Awst.

DIOLCHIADAU: Dymuna Mrs Jennie M Jones, 12 Hafan Elan ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion, blodau a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 90 oed ar Mai 9, 1999. Diolch yn arbennig i Mr a Mrs Arthur Jones a Rachel am drefnu parti bendigedig yng nghanolfan Hafan Elan a hefyd cafwyd gwledd arall yn y Bistro yn Llanberis ar Mai 15 i'r teulu a'r ffrindiau.

DIOLCH: Dymuna Catherine Hughes-Jones a theulu y diweddar Richard Hughes-Jones, Bryn Afon, Llanrug ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl a charedig. Diolch am

y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau ac am y rhoddion hael tuag at Feddygfa Llanberis a Ward Cybi, Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd i'r Parch Dafydd Ll. Hughes am ei wasanaeth yn yr angladd a'r Mri. E.W. Pritchard am y trefniadau.

MERCHED Y WAWR: Nos Fawrth, Mehefin 8 aeth criw da o aelodau i fwyty Amser Da, Llanrwst. Roedd pawb wedi'u plesio'n arw hefo'r tri chwrs. Mwynhawyd eitemau disgybledig iawn gan Barti Genod Gwenda wedi'r gwledda. Diolchir i Meirwen Lloyd a Gwenda am wneud y trefniadau a sicrhau clo arbennig i weithgareddau'r flwyddyn. Diolchir hefyd i'r llywydd Margaret Parry am lywio'r gweithgareddau drwy'r flwyddyn.

Bydd y gangen yn ail gychwyn Medi 14 ac yna'r ail ddydd Mawrth o'r mis. Y mae rhaglen amrywiol a difyr wedi'i threfnu felly dowch yn llw. Estynnwn groeso mawr i aelodau newydd.

Cyfeillgarwch heb ffrindiau



Laura Evans yn darllen llythyr diweddaraf Marina

Pan anfonodd Laura Elaine Evans, 11 oed o Llain Gro ei anrhegion mewn bocs sgidiau i Croatia yn 1995, ni ddychmygodd y byddai yn clywed yr un gair yn dilyn hynny.

Ond, mewn rhai misoedd wedyn derbyniodd llythyr gan ferch fach o'r enw Marina Kolic o gamp ffoaduriaid Karlovac. Bu'r ddwy yn cyfnewid llythyrau ac anrhegion am amser ac ar y cychwyn roedd llythyrau Marina wedi eu hysgrifennu yn Saesneg, ond bosib nad oedd y cyfieithydd ar gael wedyn oherwydd daeth y llythyrau yn ei hiaith ei hun.

Fel nad oedd y gadwyn yn cael ei thorri, fe apeliodd Laura i raglen 'Jonsi' am gyfieithydd ac fe gysylltodd Mr J.O. Jones o Gyndyn, Aberdaron â hwy. Roedd yn adnabod Pippi O Rehr o Aberdaron sydd nawr yn cyfieithu llythyrau'r ddwy ferch.

Bu Laura a'i mam, Gwawr, yn anfon dillad cynnes i Marina gan fod y gaeafau mor oer a'r teulu mor dlawd, roeddynt angen pob cymorth. Derbyniodd Laura hefyd sanau wedi eu gwau gan fam Marina.

Mae' gyfeillgarwch arbennig yma yn dal i fynd ymlaen a phwy a ŵyr, efallai y cant gyfarfod rhyw ddiwrnod.

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
 Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
 Cylchgronau • Papurau Newydd
 Cardiau Penblwydd • Wyau
 Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

DAFYDD

OWEN

TRYDANWR

Pob math
 o waith trydanol
 a Larwmau Lladron

Aelod o'r



**11 Rhes Faenol
 LLANBERIS**

Ffôn: (01286) 871680

(parhad o dudalen 7)

Datganwyd cefnogaeth i waith Pwyllgor Llywio Adfywio Bro Gwyrfaï a'r Holiadur Bro am Gaeathro a Waunfawr. Hefyd penderfynwyd gyrru cynrychiolwyr o'r Cyngor i dri Grŵp Thema.

Mynegwyd gwerthfawrogiad y Cyngor am waith y Cyng Albert Jones (Caeathro) sydd yn symud i fyw i Lanrwest.

Yn sgîl cwynion am larwm yn canu'n ddiangen ar adeilad Hafod Garage, penderfynwyd ysgrifennu at y perchennog yn gofyn iddo ddatrys y broblem.

Rhodddwyd cefnogaeth i gynlluniau Sefydliad y Merched i blannu bylbiau i ddathlu achlysur y mileniwm.

Penderfynwyd y byddai cyfarfod y Cyngor ar 18 Gorffennaf 1999 yn agored i'r cyhoedd i leisio barn, gwneud sylwadau neu ofyn unrhyw gwestiwn.

Cyfarfod 18 Mai:

Cafwyd anerchiad gan yr Arolygydd Aled Jones (Heddlu Gogledd Cymru). Amlinellwyd ganddo fod ystadegau cyfraith a threfn pentref Waunfawr yn llawer gwell na'r rhai cyfatebol am llynedd. Serch hynny, roedd problemau gyda cham ddefnydd o gyffuriau yn dal i achosi pryder.

Nodwyd fod Adran Prifffyrdd Cyngor Gwynedd wedi cytuno i roi arwydd 'Dim Parcio' mwy clir mewn man pasio ger Weirglodd Goch.

Cadarnhawyd barn y Cyngor fod Ffynnon Pant Gwyn yn berygl i'r cyhoedd ac yn sgîl llythyr gan Adran Prifffyrdd Cyngor Gwynedd yn datgan nad oedd yr Adran yn gyfrifol am y ffynnon, penderfynwyd gofyn am gyngor pellach ynglŷn â chyfrifoldeb y Cyngor Cymuned ynglŷn â'r safle.

Cafwyd cadarnhad fod Gorchymyn Diogelu Coed (TPO) ar y pedair coeden ffawydd ger Y Gofeb, ac y byddai polisi yswiriant y Cyngor yn talu ar unrhyw gais pe bai'r coed yn achosi unrhyw ddifrod ar yr amod fod y coed mewn cyflwr iach. Barn y Cyngor oedd fod cyflwr y coed yn dderbyniol.

Cafwyd adroddiad fod y llwybr sy'n rhedeg drwy dir Siop Bryn Gwynedd mewn cyflwr boddhaol yn ôl safonau Cyngor Gwynedd.

Adroddwyd fod arwyddion newydd y pentref sy'n cynnwys neges diogelwch i draffig wedi cael eu codi (mae'r Cyngor Cymuned yn talu hanner y gost am rhain).

Yn dilyn cwynion am laswellt rhydd yn chwythu ar y cerrig beddi, penderfynwyd ail edrych ar y sefyllfa ynglŷn â thorri glaswellt y Fynwent yn Betws Garmon.

Yn dilyn cyfarfod ar y cyd rhwng pump o Gyngorau Cymuned lleol, penderfynwyd mabwysiadu - o 18 Mai 999 - argymhellion y cyfarfod ynglŷn â ffioedd claddu newydd.

Penderfynwyd talu costau bws i aelodau o Gangen yr Urdd, Waunfawr fynychu Eisteddfod yr Urdd yn Llanbedr Pont Steffan.

Adroddwyd fod Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd wedi caniatáu ceisiadau cynllunio fel a ganlyn: i) Dymchwel modurdy presennol ac adeiladu modurdy a chynnedd newydd yn Haulfryn; ii) Dymchwel modurdy presennol ac adeiladu

estyniad yn cynnwys modurdy newydd yn Minafon; iii) Estyniad i Arfon House; iv) Newid defnydd adeilad amaethyddol i stablau a chreu mangre (cais adolygol) yn Cae Main.

Derbyniwyd llythyr yn amlinellu barn bresennol yr Ysgrifennydd Gwladol am Drafniadaeth yn dilyn adroddiad archwiliwr ar 'Proposed Welsh Highland Railway Order and Deemed Planning'.

Adroddwyd fod dau gwli ger Pant Gwyn am gael eu clirio gan Adran Prifffyrdd Cyngor Gwynedd.

Mynegwyd gwerthfawrogiad i'r Cyng Robert J Williams a Robert Owen am eu gwaith i'r Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf.

CYNGOR CYMUNED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor uchod ar 15 Mehefin 1999.

Gan mai hwn oedd y cyfarfod cyntaf wedi'r etholiad ar 10 Mehefin derbyniwyd pawb a enwebwyd fel Cynghorydd Cymuned fel a ganlyn: Edgar Wyn Owen, Gwilym O Williams, Pat Parry, Bryn Jones, Tecwyn V Evans (i gyd dros Ward Waunfawr) a Clive James a Vera Roberts (dros Ward Caeathro). Etholwyd y Cyng Edgar Wyn Owen yn Gadeirydd a'r Cyng Gwilym O Williams yn Is-gadeirydd.

Gan fod y Cyngor yn brin o bedwar enwebiad penderfynwyd cyfethol aelodau newydd a chafwyd enwebiadau a fydd yn cael eu gwahodd i fod yn aelodau o'r Cyngor.

Bydd yr Is-bwyllgor Mynwent yn cyfarfod yn y dyfodol agos i drafod mewn manylder nifer o bwytiau sydd angen sylw. Mae'r rhain yn cynnwys torri glaswellt, creu rhan arbennig i gladdu llwch yn unig ac adolygu rheolau a rheoliadau y fynwent.

Penderfynwyd na fyddai'r Cyngor yn gwneud unrhyw drefniadau arbennig i ddathlu'r mileniwm oni bai fod rhywbeth a fyddai yn amlwg o fudd i'r Gymuned yn dod i'w sylw dros y misoedd nesaf.

Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i gais cynllunio i greu mynedfa newydd ym Mryn Tawel.

Bydd dau aelod o'r Cyngor yn mynychu cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd ar 15 Gorffennaf i drafod materion lleol.

Mynegwyd llongyfarchiadau y Cyngor i'r Cyng Eurig Wyn ar gael ei ethol fel Aelod Seneddol Ewrop.

Bydd y Cyng Clive James yn cynrychioli'r Cyngor ar Bwyllgor Marconi wedi ymadawiad Robert Owen o'r Cyngor.

Bydd y Cyngor yn dilyn i fyny gwynion a gafwyd ynglŷn â chŵn yn baeddu ger Maes Gwersylla Ty'n yr Onnen.

Bydd cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar nos lau, 8 Gorffennaf am 7 o'r gloch yn y Ganolfan. Hwn fydd Cyfarfod Blynyddol Agored y Cyngor pryd y cynigir cyfle i unrhyw aelod o'r cyhoedd (sydd ar restr etholwyr Waunfawr neu Gaeathro) i fod yn bresennol i leisio barn, codi cwestiwn neu wneud unrhyw sylw.

Cefnogwch ein Hysbysebwy'r

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Dymunir amser llawn hwyl a sbri i Iwan Hughes a Luke Lloyd Hughes yng Ngwersyll Llangrannog. Bydd yr Adran yn ail gychwyn wedi gwyliau'r Diolchgarwch.

PWYLLGOR NEUADD: Tynnwyd Clwb Cant Mehefin a'r enillwyr lwcus oedd:

1) Rennie Morris, 2 Llys y Gwynt; 2. Carol Porter, 4 Bron y Waun; 3) Elwyn Williams, Bryn Rhydd.

Cofiwch am y daith gerdded llwybrau a gynhelir ym mis Medi yng ngofal Leslie Larsen. Manylion pellach yn rhifyn Medi.

YSGOL SUL BOSRA: Bu'r plant yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth Cymdeithas y Beibla yn Ebeneser, ddydd Sul Mehefin 27. Da iawn chi am wneud eich gwaith mor dda ac am eich ffyddlondeb drwy'r flwyddyn. Diolchir i Marina Jones am gyfeilio i'r plant yn Ebeneser, Deiniolen. Bydd yr Ysgol Sul yn ail gychwyn y Sul wedi'r ysgol ddechrau ym mis Medi.

CAPEL BOSRA: Cynhaliwyd gwasanaeth Bedydd brynhawn Sul, Mehefin 20 am 2 o'r gloch. Gwasanaethwyd gan Mr Ifan Hefin Williams. Bedyddiwyd Siôn Mathew, mab bychan Eurgain a Rob Jarvis, brawd bach Catrin. Bu Siôn yn hynod o siriol a thawel drwy'r gwasanaeth. Pob bendith i Siôn a'r teulu bach.

TRIP YR YSGOLION SUL: Bydd y bws yn cychwyn yn brydlon o groesffordd King am 7.30. Bwriedir cychwyn yn ôl oddeutu 6.00. Gobeithio y bydd yr haul yn gwenu'n braf.

DIOLCH: Dymuna Nancy, Anwen a Dylan, Meillionydd ddiolch o waelod calon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl garedigrwydd a'r cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem

o golli priod, tad a thaid mor arbennig. Diolch am y llu cardiau, llythyrau, blodau, galwadau ffôn a'r ymweliadau, ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at achos oedd yn golygu cymaint i Les, sef Uned yr Arennau, Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r Parch Bryn Williams, Mr Merfyn Jones, Mr Ifan Hefin Williams a Nan Wyn, un o'i gyn-ddisgyblion am eu gwasanaeth ddydd yr angladd ac i Mrs Eurgain Eames yr organyddes a fu'n cydweithio yn Ysgol Waunfawr gyda Les. Diolch i Gôr Meibion Caernarfon am eu canu gwefreiddiol yn yr Amlosgfa ac i'r ymgymerwyr, E.W. Pritchard, Llanberis am eu trefniadau gofalus a thrylwyr.

GWYLIAU DEDWYDD: Dymunir gwyliau dedwydd i bawb yn ystod Gorffennaf ac Awst gan obeithio y bydd rhagolygon y tywydd yn gywir.

SÊL CIST CAR: Cynhelir Sêl Cist Car nos Wener, Gorffennaf 16 am 6.30 ar fuarth yr Ysgol Gymuned. Pris £4.00 y car/bwrdd. Bydd yr elw yn mynd at Ginio Nadolig Pensiynwyr y pentref. Diolchir i bawb a gefnogodd y weithgaredd, 'Hetiau Gwirion' y mis diwethaf. Os am fanylion pellach cysyllt â Jan Ash, 01286 871265 (gyda'r nos) neu Ann Patterson 872405 (yn y bore).

URDD ADRAN BENTREF: Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gynhaliodd y gwahanol weithgareddau yn ystod y flwyddyn gan sicrhau rhaglen ddifyr ac amrywiol i'r aelodau. Diolchir i'r rhai a gludodd y plant i Fabolgampau'r Urdd yn Ysgol Brynrefail ac am eu cefnogaeth frwd i'r plant.

G. EVANS

ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR



Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug
(01286) 678030

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

x

Ffôn: (01286) 870253

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

HANES MARCONI: Llyfr arall newydd sy'n cyfeirio at Gaeathro yw 'Marconi and his wireless stations in Wales' gan Hari Williams (Gwasg Carreg Gwalch, £4.50). Yn y llyfr ceir hefyd ran o hanes Sir Wiliam Preece yng Nghaernarfon a Chaeathro a chodi'r llechen ar fynedfa Penrhos. Y llyfr am hanes bywyd Sir William Preece yw'r gyfrol 'Sir William Preece, FRS, Victorian Engineer Extraordinary' gan E.C. Baker (Hutchinson, 1976).

PEN-BLWYDD 21 OED: Prynwyr 'Gwalia Garage' gan Glyn Evans a'r teulu 21 mlynedd yn ôl. Arwydd llwyddiant y fenter oedd agor siop newydd y pentref 21 mlynedd wedyn - Siop Londis. Maent yn haeddu cefnogaeth y fro, yn ogystal â thrigolion Caeathro. Pob lwc i'r fenter fawr newydd.

1907: Yn ôl Blwyddiadur y Methodistiaid Calfaidd am y flwyddyn 1907 yr ystadegau ar gyfer Capel Caeathro oedd:

Gweinidog - 1; Blaenoriaid - 5; Cymunwyr - 151; Plant ac Ymgeiswyr - 40; Gwrandawyr, gan gynnwys yr aelodau - 218; Cyfarif yn yr Ysgol Sabothol - 163; Casgliadau - at y Weindogaeth: £56.15s.5d; at y Cenhadaethau: £2.10s.6d; at Ddyled y Capel: £30.7s.11d; at bob achos: £160.10s.10d; Dyled presennol y capel: £200. Q.E.D? ADRE: Croeso adre ar ôl cyfnod mewn ysbyty i Mary, 'Albert' Jones, Tai Glangwna.

CROESO YN ÔL: Ar ôl cyfnod i ffwrdd, mae'n braf gweld Chrissie Smith yn ôl yn ei hen gartref, Bryn Bela.

YSBYTY: Bu Mary Henderson, 6 Erw Wen yn yr ysbyty ar gyfer pen-glin newydd. Cyn bo hir bydd hi'n dawnsio'r 'can-can' unwaith eto.

MARWOLAETH: Ar ôl cyfnod yn Ysbyty Bryn Seiont ac yn ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Emlyn Owen, Cae Phylip ar Mehefin 6. Roedd yn un o drigolion hynaf y fro yn 97 oed, bu'n chwarelwr a MANWEBwr. Cydymdeimlwn â Bob a Mair.

EISTEDDFOD YR URDD: Enillodd Dona Roberts, gyda Elain Llwyd, y drydedd wobwr yn y ddeuawd o dan 15 oed yn Eisteddfod yr Urdd,

Llanbedr pont steffan. Roedd Catrin Gwenllian yn aelod o barti Bontnewydd a enillodd yr ail wobwr yn y gystadleuaeth Cerdd Dant o dan 15 oed o dan arweiniad Alwen Hughes, Lleifior.

CYNGOR CYMUNED: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Cyngor newydd yn y Ganolfan, Y Waunfawr nos Fawrth 15 Mehefin. Etholwyd Edgar Owen (10 Bryn y Gof gynt) yn Gadeirydd. Cynghorwyr Ward Caeathro yw Vera Roberts a Clive James.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i orchymyn tenant 1 Bryn y Gof i docio'r tyfiant sy'n amharu ar ddiogelwch y ffordd wrth i yrrwyr a cherddwyr fynd heibio.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i godi arwydd llwybr cyhoeddus wrth y llwybr heibio Llwyn Alice o gyfeiriad Penrhos.

Rhodddwyd caniatad cynllunio i Stadau Glan Gwna Cyf adeiladu siop sglodion newydd yn lle'r siop a gafodd ei difrodi gan dân a newid defnydd o storfa i ddefnydd Dosbarth 2 (Clwb Nos) a lleoli adeiladau dros dro i'w defnyddio fel toiledau (yn amodol ar i'r adeiladau dros dro gael eu symud o'r safle'n gyfangwbl o fewn 3 blynedd o ddyddiad y caniatad) gan Gyngor Gwynedd ar 20 Mai, 1999. (Chwarae teg, mae'r datblygiadau eisoes wedi'u cwblhau!)

GWASANAETHAU'R CAPEL: Disgwyli'r canlynol i bregethu yn ystod yr wythnosau nesaf:

Gorff 4: 2.00 Gweinidog - Y Parch W.R. Williams

Gorff 11: Dim gwasanaethau

Gorff 18: 10.00 Y Parch W.R. Williams

Gorff 25: 2.00 Y Parch Huw Gwynfa Roberts

CYNGOR CYMUNED AGORED: Ar ddechrau'r cyfarfod nesaf o Gyngor Cymuned y Waunfawr yn y Ganolfan, y Waunfawr am 7 o'r gloch nos lau, 8 Gorffennaf bydd cyfle i etholwyr Caeathro ofyn cwestiynau a lleisio eu barn ar faterion y gymuned. Peidiwch a cholli eich cyfle blynyddol.

TYNFA MISOL: Roedd y canlynol yn llwyddiannus yn nhynfa misol y pentref ar gyfer mis Mehefin:

1) £40. Rhif 57: R.M. Roberts, 9 Bryn y Gof; 2) £25. Rhif 11: Tony a Tracy Jones, Islwyn, Stad

Glandwr; 3) £15. Rhif 72: Tom a Margaret Evans, Plas Treflan; 4) £5. Rhif 62: Jason a Meinir Jones, 5 Erw Wen

Diolch i aelodau Pwyllgor y Cae Chwarae am drefnu'r tynfa, dosbarthir y gwobrau a defnyddir yr elw ar gyfer budd y gymuned.

MERCH DDIOGEL: Llongyfarchiadau i Hannah Hughes, Llyngele, ar basio pedwar asesiad 'Judo' mewn diwrnod. Erbyn hyn mae hi'n gwisgo bregys melyn efo streipen goch.

TRI COPA: Llongyfarchiadau i Jayne Lloyd, Bodawel a fu'n aelod

o dîm merched o Gymry yn y ras rhedeg i gopaon y tri mynydd uchaf yn yr Alban, Lloegr a Chymru. Allan o 80 tîm, roedd tîm Jayne yn drydydd, yn bell o flaen nifer o dimau dynion. Fel canlyniad mae Jayne wedi codi swm sylweddol o arian tuag at achosion da. Da iawn!

LLONGYFARCHIADAU: Etholwyd y Cynghorydd Eurig Wyn i un o 5 sedd Cymru yn Senedd Ewrop. Roedd yn ail ar restr Plaid Cymru. O hyn ymlaen fe yw ein llais yn Ewrop.

Cefnogwch Fusnesau Lleol

CEIR CYMRU BETHEL (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros y saith mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy' amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol y'n teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION

Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491



PRYD I BAWB

Bwffe at bob achlysur

Bwffe blasus o safon ar gyfer

CINIO BUSNES

CINIAWAU ACHLYSURON ARBENNIG

MEGIS BEDYDD NEU BEN-BLWYDD

PRIODAS

TE PRYNHAWN : TE ANGLADDAU

yn eich lleoliad chi neu yn ein tŷ fferm ni

CERID MACKINNON

(01286) 673190

neu (0374) 925502



Rhagor o Newyddion Llanberis

EISTEDDFOD YR URDD: Roedd pawb yn falch o glywed am lwyddiant côr Adran Llanberis yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanbedr Pont Steffan ddechrau mis Mehefin. Daeth y côr yn ail yn y gystadleuaeth i gorau dan 12 oed. Roedd dwsin o gorau yn y rhagbrawf, a phlant Llanberis oedd yn canu gyntaf. Roedd pawb wedi codi'n gynnar i gyrraedd y neuadd erbyn 7 o'r gloch er mwyn cael un ymarfer bach cyn canu. Pan ddaeth y rhagbrawf canodd y plant yn ardderchog. Yna roedd rhaid chwyso wrth wrando ar yr holl gorau eraill. Ac ar y diwedd, pan gyhoeddwyd fod côr Llanberis wedi cael llwyfan roedd pawb wrth eu bodd, a'r cefnogwyr yn gwneud mwy o swm na'r plant hyd yn oed! Roedd angen disgwyl tan ganol y prynhawn i gael canu ar y llwyfan, a chanodd y plant yn

NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant
Ffôn: (01286) 870356

Y CARNIFAL: Cynhelir Carnifal Nant Peris am 6.30 o'r gloch, nos Wener, Gorffennaf 23. Bydd croeso cynnes i bawb ymuno â'r hwyl eleni eto. Bydd yr orymdaith yn mynd trwy'r pentref fel arfer a chynhelir y Carnifal fel y llynedd ar Faes Parcio'r Parc Cenedlaethol. Bydd yno Gystadleuthau Gwisg Ffansi, rasmus, castell neidio, tombola, raffl, stondin cŵn poeth ac amryw o stondinau eraill fel arfer. Edrychwn ymlaen at groesawu pawb ohonoch i'r Nant am noson hwyliog arall.

CWIS Y CARNIFAL: Cynhelir Cwis y Carnifal yn Nhy'n Llan am 8 o'r gloch nos Lun, 19 Gorffennaf. Bydd gwobr gyntaf o £20 a chyfle i brynu tocynnau raffl.

BABI NEWYDD: Llongyfarchiadau i Tony a Margaret Ellis, 5 Nant Ffynnon ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ar Fai 23 ganwyd mab bach i Jennifer a Robin Davies, Tomos Dafydd brawd bach i Olwen, Sian a Bethan.

CAPEL REHOBOTH: Mae'r capel wedi ei atgyweirio erbyn hyn a rhai o'r aelodau wedi bod yn brys yn tacluso a llunau a phaentio. Mae rhywfaint o waith i'w wneud eto a phenderfynwyd ail agor y capel yn swyddogol brynhawn Sul, Medi 12 am 2 o'r gloch. Mae croeso cynnes i unrhyw un i ymuno â ni yn yr oedfa honno. Yn y cyfamser cofiwch fod yr oedfaon yn dal i gael eu cynnal yn y festri.

YSGOL FEITHRIN LLANBERIS: Cafwyd noson Bingo lwyddiannus iawn yng Ngwesty'r Dolbadarn a gwnaed elw o £350 at yr Ysgol Feithrin. Enillwyr y raffl ar y noson oedd:

1. Marlene - hamper; 2. Ceinwen - hamper; 3. Brenda Roberts - teddy; 4. Rhiannon Jones - teddy; 5. Mary Roberts - bara brith. Enillwyr y 'diary' oedd: Melinda Egan - £50; Meirion - £25; Sarah Green - £10.

Diolch i bawb a gyfrannodd at y noson a phob lwc i bwyllgor newydd yr Ysgol Feithrin. Dymunwn bob llwyddiant i'r aelodau newydd.



Côr Adran Llanberis yn y rhagbrawf yn Llanbedr.

arbennig o dda eto. Adran Hafodwenog enillodd, ninnau'n ail a Llangwm yn drydydd. Llongyfarchiadau i'r plant a'u hyfforddwyr Miss Arfona Edwards a Mr Dylan Parry. Diolch i'r ddau am eu holl waith caled.

YSGOL DOLBADARN: Llongyfarchiadau i Brifathrawes yr Ysgol, Mrs Elisabeth Roberts ar ei phenodiad yn Bennaeth Ysgol Gynradd Maesincla yng Nghaernarfon. Bu Mrs Roberts yn Brifathrawes yma yn Llanberis ers deng mlynedd, ac yr oedd yn Ddirprwy yma cyn hynny. Ar hyn o bryd nid oes sicrwydd pryd bydd yn gadael Ysgol Dolbadarn ac yn cychwyn ei swydd newydd, ac felly daw cyfle eto i ddiolch yn iawn iddi am ei chyfraniad mawr i'r Ysgol dros y blynyddoedd. Dymuniadau gorau i chi Mrs Roberts. Dymunwn yn dda hefyd i'r plant fydd yn symud o Ysgol Dolbadarn i Ysgol Brynrefail yr haf yma. Pob llwyddiant i chi yno blant.

TRIP YR YSGOL SUL: Bydd trip Ysgol Sul Capel Coch yn mynd i Parc Hamdden Camelot ddydd Sadwrn, Gorffennaf 3. Bydd y bws yn cychwyn o Nant Peris am 7.55 o'r gloch.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Cafwyd taith hwylus i'r Wybrnant a Dyffryn Conwy ddydd Sadwrn,

Mai 5. Ar y ffordd adref cafwyd pryd o fwyd blasus ym Metws y Coed.

DIOLCH: Dymuna Enid Thomas, 3 Styrd Turner ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 oed.



CYMORTH CRISTNOGOL: Yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol ym mis Mai casglwyd £562.58 yn Llanberis a Nant Peris. Diolch i bawb a gyfrannodd a diolch yn arbennig i'r rhai a fu'n casglu'r arian o ddrws i ddrws.

BRIGAD SANT IOAN

NOSON GOFFI: 25 Mai cynhaliwyd Noson Goffi yn Y Ganolfan. Diolch i bawb a gefnogodd y noson. Gwnaethpwyd elw o £194.00. Enillwyr y raffl oedd: 1. Brenda Roberts; 2. Gwen 678771; 3. 871558; 4. Rhiannon Jones; 5. Gwenda Roberts; 6. 871972; 7. 871253; 8. 871440; 9. 871680; 10. 871419; 11. Rhiannon Jones; 12. Bet Bach; 13. 870206; 14. 870356 - Ann Caroline; 15. 870356; 16. 871558; 17. 871328.

DRAENOG



Mae helyntion rhai o drigolion y lle yn gwneud i chi feddwl y dylid cyfeirio ato bellach fel hen bentre bach Llanblêr.

Dyna i chi'r sgotwr hwnnw yn rhwyfo'i gwch i ganol y llyn, ac wedi cyrraedd yno yn sylweddoli ei fod wedi anghofio mynd â'i wialen bysgota efo fo! A'r tro nesaf yr aeth allan mi aeth heb ei rwyd! Mi fasa fo'n anghofio'i ben tasa fo ddim yn sownd wrth ei falacafa.



Plant ysgol Dolbadarn gyda Kate Archer, athrawes o Awstralia a dreuliodd wythnos yn eu dosbarth yn ddiweddar. Bu Miss Bethan Owens, eu hathrawes hwy, yn Awstralia ar ymweliad tebyg y llynedd.

'L.M.F. — (parhad o dualen 4)

nghefn gwlad cyn y gwyll, a fedrai Norman ddim llai na meddwl am y teulu bach hwnnw a oedd yn ffoi rhag gormes Herod gynt: doedd dim yn newid.

Erbyn hynny yr oeddent ar delerau enwau cyntaf: Margery y fam a oedd yng nghanol ei thriedegau, a Sally, ac yr oedd Norman wedi cael chwaneg o'u hanes. Roedd y gŵr yn y Llynges, ac wedi ei garcharu gan y Japs pan suddwyd y Repulse. Dyna hynny a wyddai'r fam amdano, ac oherwydd hynny roedd yn amlwg nad oedd ganddi fawr i'w ddweud wrth wrthwynebwyd cydwbodol, neu unrhyw fath o 'column dodger' fel y galwai hi nhw, ac yr oedd hi'n pryderu hefyd am beth fuasai ei gŵr yn ddweud pe bai yn gwybod ei bod yn teithio ar draws gwlad hefo dieithryn pur, er ei bod yn amlwg yn falch o fod o dan unrhyw warchodaeth.

Pan ddaeth y gwyll yr oeddent ar gyfer cae o wair wedi ei fydlu, a'r lodes fach wedi diffygio. Doedd fawr o ddewis iddynt ond mynd drwy'r giât a thafu eu hunain bob un i'w fudwl, ac yr oedd Norman wedi mynd yn ochelgar ei dafod, tra yr oedd y ddyn yn ail drefnu cynnwys y cês, a sylwedd y llanc ar bennawd papur newydd a oedd wedi ei ddefnyddio i lapio dilledyn: **'AIRMEN ABSCOND FROM RAF CAMP AFTER BOMB EXPLOSION.'** Aeth y pennawd â sylw y fam hefyd, a chyn rhoi'r papur o'r neilldu cyfarfu dau bâr o lygaid am foment ac nid oedd neges ffyddiog yn nhrem yr un o'r ddau.

Bore wedyn pan ddeffrodd Norman yn ei loches wlithog doedd yna ddim hanes o'r fam na'r plentyn. Aeth at y giât gan alw ac yna aeth trosti i'r ffordd, ac yr oedd yn falch o'i gôt rhag oerni'r bore. Cerddodd ymlaen ac ymhen dipyn daeth lori o dan ofal dau ddyn mewn lifrai'r rheilffordd. Yr oeddent ar eu ffordd i Swindon a chafodd Norman ganiatad i fynd i'r tu ôl a oedd o dan orchudd. Yno yr oedd pentyrtau o wellt ac yn ei ganol bartiau i wagenni ar ffurf olwynion mawr ac echelydd.

Ymhen y rhawg stopiodd y lori wedyn, ac yn yr hanner gwyll gwelodd Norman Margery a'r plentyn yn cael eu cynorthwyo i ddod tros y cefn gan un o'r dynion, ac yr oedd y cerbyd wedi symud ymlaen beth ffordd cyn iddynt sylweddoli fod ganddynt gwmpeini, ac yr oedd eu syndod yn amlwg. Doedd gan y fam fawr i'w ddweud chwaith, a phan ofynnodd Norman

iddi pam yr oedd wedi diflannu, dywedodd yn euog nad oedd hi'n awyddus i roi baich arno a'i fod wedi gwneud digon ar eu rhan yn barod. Sylwodd Norman fodd bynnag fod y ddwy wedi rhyw bellhau, hyd yn oed y lodes a fuasai cynt mor llon a direidus.

Aeth y dynion â hwy bob cam at y gweithdai a oedd yn gysylltiedig â gorsaf Swindon yr adeg honno; pencadlys rheilffordd y wlad, ac nid cynt nag yr oeddwynt wedi disgyn o'r lori na ddywedodd Norman.

'Mi fedrwn i fforddio mynd ar y trên o'r fan yma bellach a ninnau yn y fan a'r lle.'

Nid oedd gan y fam wrthwynebiad i'r awgrym, ac ar ôl esgyn i'r platfform rhoddodd Norman arian iddi a gadawodd iddi fynd i brynu dau docyn gan fod yr eneth fach yn cael teithio am ddim. Gadawodd iddi hefyd holi'r amseroedd.

Bu raid iddynt ddisgwyl yn hir am y trên, a phan ddaeth honno yr oedd yn orlawn. Bu raid iddynt stryffaglo heibio i filwyr a chamu tros ynnau wedi eu gadael luch-dafn yn y fynedfa. Cododd morwr o gornel yn y diwedd i roi ei le i Margery a'r lodes fach, tra y bu raid i Norman fodloni ar sefyll mewn cornel arall, ac yr oedd y trên yn hirymarhaus. Ar hynny cafodd Norman gip ar ddau gap gwyn yn cydgamu ar hyd y platfform dan dremio ar ffenestri'r cerbydau. Ymhen dim roedd y fam wedi codi dan haldian y plentyn allan i'r fynedfa drwy drafferth gan ddweud rhywbeth ei bod yn ben-set arni gyrraedd tŷ bach, ac yr oedd Norman yn gwaredu ei bod hi'n achosi yr holl anhwylostod i bawb, ond ni feddyliodd fod yna unrhyw arwyddocad i'r symudiad amgen na'r arwynebol, nes y sylwedd fod y rhai a oedd yn y fynedfa yn ysgogi i wneud lle i rhywun ddod heibio.

Ar y cyntaf meddyliodd mai'r fam a'r plentyn oedd wedi cael rhwystr yn y pen draw ac yn gorfod dychwelyd, nes y gwelodd y ddau gap gwyn yn ymddangos ac yn gwrthio eu ffordd i mewn, ac yr oedd yn amlwg ar eu hymddygiad nad oedd ganddynt yr un amheuaeth am bwy yr oeddent yn chwilio. Gafaelwyd yn Norman a'i lusgo allan o'r trên heb drafferth yn y byd.

Canfyddodd ei hun wedyn yn y *Tŷ Gwydr ar Ynys Wyth ymysg criw anystywallt a oeddent yn cael eu hyfforddi dan ddisgyblaeth lem hen RSM o'r Coldstream Guards i ladd pobl hefo gynnu a bidogau yn lle bomiau, ac ymhen byr wythnosau yr oedd ym Mhlymouth ar fwrdd llong;

y Quesnoi, un a achubwyd o lynges fasnach Ffrainc cyn i honno gael ei meddiannu gan yr Almaenwyr. Aethant drwy fygythiad y llongau tanfor U, ac ar hyd Llyn y Canoldir a thrwy'r Gamlas a chyda thraethau yr India, gan aros mewn porthladd neu ddau, ond ni chaniatawyd i'r un roi ei droed ar dir sych.

Does yna ddim cofnod pendant am hynt Norman wedyn. Credir i'r Quesnoi fynd yn aberth i beilotiaid 'kamikaze' Japan yn y Môr Melyn. Os y carcawrwyd unrhyw oroeswyr a'u cludo i un o'r gwersylloedd melltgedig rheiny, hyd y gwyddys, ddaeth yr un yn ei ôl.

* carchar cosb y fyddin

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

MEDAL GEE: Ar Fai 20 ym Mlaenau Ffestiniog, ar ddiwrnod arbennig o braf, derbyniodd Mrs Megan Price Morris y Fedal Gee am ei gwaith yn yr Ysgol Sul yn Sardis. Yr wyf yn siŵr ein bod fel ardal yn ei llongyfarch yn fawr. Fe aeth llond bws o'r ardal am y Blaenau hefo hi. Gobeithio y cewch nerth ac iechyd am flynyddoedd eto i gario ymlaen hefo'r Ysgol Sul yn Sardis.

Y CAE CHWARAE: Er cael addewid y byddai y cae chwarae yn barod erbyn y Pasg, y mae yn dal heb ei orffen, ond rydym wedi cael addewid unwaith eto y bydd y cyfan o'r gwaith sydd ar ôl heb ei wneud wedi cael ei orffen erbyn diwedd y mis. Amser a ddengys.

CYFARFOD PREGETHU: Ar Sul y Sulgwyn, yn ôl yr arferiad, cynhaliwyd cyfarfod pregethu Sardis. Cafwyd dwy oedfa lwyddoeddus iawn hefo'r Parch Dewi Morris, Trawsfynydd yn pregethu, a braf oedd gweld y plant yno, ac yn cael sylw haeddianol gan Mr Morris. Cawsant fynd i'r sêth fawr i orffen y ddau wasanaeth hefo'r fendith. Well done, blant, daliwch ati - chwi yw dyfodol yr Eglwys, a diolch i Mr Morris am ei ddull arbennig o siarad, ac am roi cymaint o sylw iddynt.

DIOLCH: Dymuna Mrs Megan P. Morris, Ynffordd, ddiolch o galon i aelodau Ysgol Sul Sardis, ei theulu a'i ffrindiau am y cardiau, galwadau ffôn a llythyrau a dderbyniodd i'w llongyfarch ar dderbyn y 'Fedal Gee' eleni. Diolch hefyd i'r cyfeillion a aeth gyda hi i'w chefnogi ar y diwrnod hapus, ac i Ellen Wyn Jones am drefnu'r cwbl.

EGLWYS SARDIS: Ar ddydd Sul yr 20 o Fehefin cynhaliwyd oedfa yr ofalaeth yn Sardis dan ofal y Parch Olaf Davies.

LLONGYFARCHIADAU: Ym mhencampwriaeth nofio arfordir Gogledd Cymru a gynhaliwyd ym mhwl nofio Bangor, enillodd Alex Lynes, 7 oed, o Tŷ Newydd, Llanrug y canlynol:

Medal Aur am nofio ar y cefn; Medal Aur am nofio broga; Medal Arian am nofio yn y dull rhydd; Medal Efydd am nofio yn y dull pili pala.

Mae Alex yn fab i Albert Lynes, gynt o Snowdon View ac yn ŵyr i Mrs E. Lynes ac i Mr a Mrs Ron Dorricot, Amlwch. Da iawn chdi, Alex ac yr wyf yn sicr y bydd iti fwy o lwyddiant yn y dyfodol. Dal ati.

TAN Y COED

Anwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: (01286) 872276

DYMUNIADAU GORAU i Sara Salisbury Roberts, Min y Parc ar ei dywedd i Brent Burman, Ffridd Hen, Dolwen. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt.

LLONGYFARCHIADAU i Lindsey Roberts, Awelfryn ar basio ei arholiad Karati ac i Kelly Roberts, Awelfryn ar basio ei phrawf gyrru.

DYMUNA Ceinwen Roberts, Ael y Bryn ddiolch yn fawr am yr holl garedigrwydd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Da yw deall hefyd bod Nancy Morris yn gwella.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs E.L.I. Evans, Carwyn ar enedigaeth eu hŵyr cyntaf yng Nghaerdydd.

CYDYMDEIMLAD: Anfonwn ein cydymdeimlad dwys i Colin ac Ann Saynor ar eu profedigaeth o golli tad, tad yng nghyfraith a thaid annwyl Sion a Tomos.

PEIDIWCH A GORI

AR STORI —

ANFONWCH HI I'R ECO

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD



BANGOR
(01248)
354646

GWASANAETH NEWYDD AR GYFER
PARTÏON : PRIODASAU : PEN-BLWYDD
BEDYDD : DAWNS : GWYLIAU . . .

RHOSTIO
MOCHYN



AR GYFER POB ACHLYSUR

- ★ Cig o ffermydd lleol
- ★ Partïon rhwng 40 a 400!
- ★ Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
- ★ Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

- ★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
- ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
- ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
- ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

Teulu Talentog




Catrin yn cael ei hyfforddi gan Peter ei thad.

SYMUD DROSODD FRAWD: Y mae'r enw Evison wedi ymddangos yn achlysurol yn y colofnau yma yn ddiweddar. Bu Peter, y tad yn bêl-droediwr am sawl tymor gyda Llanbeis yn y 70'au. Yn gricedwr safonol iawn, mae'n dal i chwarae i Fangor ac yn uchel ei barch oherwydd ei lwyddiannau fel hyfforddwr. Mae Tom, y mab, yn aelod o garfan dan 15 Cymru, ac yn un o selogion tîm cyntaf Bangor, ac erbyn hyn yn nhîm Sir Gaernarfon — yr ifancaf erioed i gynrychioli'r sir. Gyda llaw, yn ei ddwy gêm olaf yn Adran Gyntaf Cynghrair y Gogledd, mae Tom wedi cymryd 12 wiced am 90 rhediad. Gyda wicedwr Zimbabwe, Glen Flower wedi ymuno â'r clwb mae'n siŵr bydd hyn yn gaffaeliad mawr i ddatblygiad Tom.

Ond rwan, daw Catrin i'r llwyfan. Mae Catrin wedi cael cryn lwyddiant ym myd tenis dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn, mae criced hefyd yn denu sylw. Y tymor yma, bu datblygiad pwysig yn yr ardal yma gyda chychwyn y

Chynghreiriau i dimau -11 a -13. Braf nodi fod nifer o blant o ardal yr 'Eco' yn mynychu y nosweithiau hyfforddi ym Mangor ar nos lau. Mae Catrin yn aelod o dîm -13 clwb Bangor, ac wrth ei bodd yn slegio y bechgyn o gwmpas y maes. Mae uchafbwynt y tymor i Catrin ar y gorwel. Yn ystod mis Awst mae tîm criced merched -15 talaith Lemster yn lwerddon ar daith yng Nghymru. Byddant yn chwarae yn erbyn tîm Gogledd Cymru ym Mae Colwyn. Mae Catrin wedi ei dewis yn rhan o garfan y Gogledd. Mae tipyn o ferched yn ymddiddori yn y gêm, ond prin iawn yw'r tîmau merched yng Nghymru. Yn Nulyn, mewn cymhariaeth mae Cynghrair lewyrchus iawn gyda thair adran oedolion, a phob clwb â thîm merched. Pan nad yw Catrin yn chwarae criced, hi hefyd yw sgoriwr y tîm ym Mangor.

Gyda llaw, rhag ofn i mi bechu, mae Olga, y fam, hefyd yn chwaraewr sboncen addawol. Efallai cawn erthygl ar ei doniau hi rywbryd. Teulu y campau yn sicr yw'r teulu Evison o Gaeathro.



Tim blwyddyn 3 Ysgol Brynrefail a fu'n chwarae yn erbyn Ysgol David Hughes yn ddiweddar.

Eifion yn Dal i Ddisgleirio

Mae Eifion Williams, 13 oed, o Lanrug yn dal i gael hwyl rhyfeddol gyda'i nofio, ac yn mynd o nerth i nerth wrth gystadlu. Ym mis Mai roedd yn aelod o dîm Gogledd Cymru a fu'n cystadlu yn y pwll 50 metr yn Sheffield. Cafodd hwyl arbennig gan ennill 2 fedal aur a 2 drydydd. Ond ym Mehefin cyflawnodd beth yw mae'n debyg ei gamp fwyaf arbennig hyd yn hyn.

Dros ddau benwythnos bu'n cystadlu ym Mhencampwriaethau Gogledd Cymru ym Mangor a Threffynnon. Roedd yn cystadlu

mewn 16 o rاسus ac fe enillodd y fedal aur ym mhob un ohonyn nhw. Fe sefydlodd record newydd ar gyfer y pencampwriaethau mewn 10 o'r rاسus hynny. Cafodd, yn ogystal, ddwy fedal aur fel aelod o dîm relay ac nid oedd llawer o amheuaeth mai Eifion oedd i gael y tarian 'Victor Laudorum' am y mwyaf o bwyntiau yn ei grŵp oed.

Mae'r byd nofio yn dechrau cymryd sylw o Eifion ac fe fydd yr Eco yn dilyn ei yrfa wrth iddi ddatblygu.

TIMAU'R GORFFENNOL

Mae'n amlwg fod llwyddiant diweddar Manchester United wedi gwneud i rai o hen bêl-droediwr y fro ail fyw rhai o'u hatgofion. Yn ogystal â'r llun o dîm Y Glasgoed sydd yn y golofn chwila cafwyd benthyg y ddau lun isod. Mae'r cyntaf, sy'n eiddo i W.O. Williams, Rhydfadog yn lun o dîm, Clwt-y-bont. Yng nghanol y rhes flaen mae William Wyn Davies, (Wili Wyn) y cafwyd ei hanes yn y rhifyn diwethaf. Enwau rhai o'r chwaraewyr eraill yw Richard Roberts, Betws (rhes ôl ar

y dde); Dei Davies - brawd Wili Wyn (rhes ganol ar y dde) ac yn y rhes flaen, o'r chwith mae Will Sam, Robin Hughes, Wili Wyn, (?) a Jack Hughes. Oes rhywun yn adnabod y lleill neu'n gwybod ym mha flwyddyn y tynnwyd y llun?

Cafwyd benthyg yr ail lun gan Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol, Llanrug. Llun ydyw o dîm Ysgol Brynrefail. Credir mai'r flwyddyn yw 1924. A oes unrhyw un o'n darllenwyr all enwi rhai o'r aelodau?



Tim Clwt-y-bont



Tim Ysgol Brynrefail

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

**CEIR
ADAM**



HURIO PREIFAT
YN UNIG

LLEOL NEU HIRBELL

**LLANBERIS
871539**


CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil —
mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, penblwyddi
ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

CROESAIR GORFFENNAF



ENW.....
CYFEIRIAD.....
.....CÔD POST.....

43 ar draws ydi 5, 12 a 31 ar draws, 1, 9 a 16 i lawr. Rhoddir cliwiau i rai ohonynt.

AR DRAWS

1. Hen frenin yn ymwneud â chefn gwlad (7)
5. O rewgeill y gogyddes y daw'r rhain (5)
6. Corryn ger Porthmadog? (3)
10. Preswyl (5)
11. Ymgrymu mewn neuadd o liw porffordd (5)
12. Rhai Einir (5)
13. Teimladau (6)
14. Hen bryfaid bach pigog — rhai main? (6)
17. Perchen sedd tua Dolgella' na (5)
19. Offeryn i droi'r tir (5)
21. Gwancus (5)
23. Maes y beridd (6)
24. Seirff ar rywbeth wedi ei naddu o gwmpas y dre (6)
26. Pryfed blin? (5)
28. Y drewdod o gist cymdeithas pêl-droed i Sais (5)
29. Defnydd hydwyth cryf a geir o nodd coeden (5)
31. Mae un yng ngwddf pob Adda (6)
33. Bwch gafr (6)
37. Hyddod mewn ceir Wolsley! (5)
38. Gorchwyl beiddgar a pheryglus (5)
40. Dogn i fynychu'r salwn hwp-di-hap (5)
41. 18 i lawr y bachgen? (3)
42. Deuddeg diswn? (5)

I LAWYR

2. Rhai sy'n rhedeg i gadw'n ffit (7)
3. Cyfarchiad a ddefnyddir yn aml wrth ymadael (3,2)
4. Galw gwirion am ddŵr (4)
5. Cerrig mân (3)
6. Baw (4)
7. Rhan o'r ardd yng ngwaelod yr afon (5)
8. Un sy'n cario mewn trol (7)
9. Rhai gwirion bost yn ôl y Sais (7)
15. Nia yn camu yn gam (7)
18. 41 ar draws Walis mwddw (5)
20. Aderyn dŵr urddasol (5)
22. Daw nifer yn ôl ymhlith gwyr Madog (5)

25. Merched dewr sy'n hoff o 38 ar draws (8)
26. Creaduriaid cragen galed o'r môr (7)
27. Naddion o fanc Rio (7)
30. Drygioni. Aria mewn beth? (7)
32. Pryf genwair y pysgotwr (5)
34. Glaw y lleud lawn (5)
35. S.A.T. neu B. (4)
36. Llun sy'n dangos cysylltiad rhwng cyfres o rifau (4)
39. Yr hyn a genir gan y 35 i lawr (3)

Atebion Croesair Mehefin

Derbyniais 32 o atebion cywir i groesair mis Mehefin, a dwsin arall efo mân gamgymeriadau. Da gweld fod dau neu dri o 'aelodau' newydd eto wedi ymuno â'r 'clwb'. Croeso i chi.

Y rhai a atebodd yn gywir oedd: Elwyn Evans, Llanfairpwll; E.E. Jones; Dilys A. Pritchard-Jones; Catherine A. Jones; Jean Hughes-Jones; Eluned Jones (Pwllheli); Hywel Griffith, Awstralia; Gwen Davies, South Wirral; Olwen Owen; Nan Owen; Moreen Lennon (Llanberis); N. Hughes, Cwm-y-glo; Mair Evans a Margaret W. Roberts (Caernarfon); Olwen Jones, Bethel; Mair Ffoulkes a Dafydd a Helen Owen, Penisarwaun; Nansi Davies, Dinbych; G. Gill a Megan W. Jones, Bangor; Beryl Jones a Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Mabel Parry, Porthmadog; Mary Davies, Waunfawr; Rosemary Williams ac Eirwen Roberts, Tregarth; Jenny Williams; M.P. Jones; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Chris Roberts; Dorothy B. Jones a Ceridwen Williams, Llanrug.

Enillydd y mis ydi Ceridwen Williams, 25 Hafan Elan, Llanrug LL58 4BU. Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl datrys y croesair hwn gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn 23 Awst.

CALENDR MIS GORFFENNAF

3. **Sad.** **BETHEL.** Trip Ysgol Sul Cysegr i Rhyl.
4. **Sul** **WAUNFAWR.** Cymanfa Henaduriaeth Arfon yng Nghroesywaun am 6
5. **Llun** **CWM-Y-GLO:** Helfa Drysor o dan nawdd y Gymdeithas Rhieni/Athrawon.
6. **Maw.** **BRYNREFAIL.** Cymdeithas y Chwirydd am 7.
7. **Mer.** **LLANBERIS.** Y Gyfeillach yng Nghapel Jerusalem.
8. **Iau** **WAUNFAWR.** Cyfarfod Agored y Cyngor Cymuned.
- 9 **Gwen.** **WAUNFAWR.** Noson ymaelodi yn y Clwb Pêl-droed.
10. **Sad.** **DEINIOLLEN.** Y Carnifal blyneddol.
LLANBERIS. Dechrau wythnos y Carnifal gyda noson coroni'r frenhines.
11. **Sul** **DEINIOLLEN.** Cyfarfod Pregethu Libanus am 2 a 5.30.
12. **Llun** **LLANBERIS.** Wythnos y Carnifal yn parhau - gweithgareddau amrywiol bob nos.
13. **Maw.** **YSGOL BRYNREFAIL.** Cyngerdd Pentymor yr Ysgol.
16. **Gwen.** **PENISARWAUN.** Sêl Cist Car ar fuarth yr Ysgol.
17. **Sad.** **DEINIOLLEN.** Trip Cymdeithas Eglwys Llandinorwig i Fôn.
LLANBERIS. Y Carnifal blyneddol (yn cynnwys Râs Pram yn y bore).
23. **Gwen.** **NANT PERIS.** Y Carnifal blyneddol.
24. **Sad.** **CWM-Y-GLO.** Undeb y Mamau — Te Mefus.

RHODDION

£10: Mrs Jennie May Jones, 12 Hafan Elan, Llanrug. Teulu Meillionydd, Penisarwaun. Marian Wyn Jones, Foel, Waunfawr. Catherine Hughes-Jones, Brynafon, Llanrug. Er cof am Mrs Janet Davies, 9 Stryd y Dŵr, gan ei theulu. Y Parchg. Tegid Roberts, Arwel, Llanrug
£5: Mrs Joyce Jones, 27 Dol Elidir, Llanberis. Evelyn, Derek, Ian a Nia, Llanberis. Mrs Peri Evans, 5 Hafod Oleu, Deiniolen. Mrs E. Lyles,

Snowdon View, Fachwen. Teulu Chwiban y Gwynt, Glanrafon Bach. Mrs Megan Price Morris, Minffordd, Dinorwig.
£2: Di-enw, Llanrug. Mrs Enid Thomas, 3 Stryd Turner, Llanberis

IEUAN WILLIAMS Glanffrwd DEINIOLLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.



SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwgu na chwysu

Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCHI! HOLWCHI!
ffonlwch (01286) 830609
— **TENEUWCH** —
SLIM CHWIM MEWN DIM!



OEN CYMREIG LLEOL CYFAN
AM £1 Y PWYS

★
PORC LLEOL
AM 75c Y PWYS

★
PRISIAU ARBENNIG AM
GIG EIDION LLEOL

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

CHWARAEON

TLWS YR ECO

Denodd y noson hafaidd dorf sylweddol i faes ysgol gynradd Llanrug. Diolch i staff a rheini yr ysgol am eu cymorth parod ynglŷn â'r noson. Yn y gystadleuaeth bêl-rwyd yn anffodus dim ond timau o Lanrug a Llanberis oedd yn bresennol. Gobeithio y gall yr ysgolion eraill godi timau ar gyfer y flwyddyn nesaf i gael gwir gystadleuaeth Bro'r Eco. Ar y ddwy lefel — Bl. 3/4 a Bl. 5/6 timau Llanrug a ddaeth i'r brig.

Yn y bêl-droed denwyd naw tîm yn yr oedran dan 9 oed. Cafwyd gwledd o bêl-droed a gwledd o chwerthin a mwynhad yn yr oedran yma. Yn sicr, dyma noson fawr i nifer o'r plant, o gofio na wnaiff y mwyafrif byth gyrraedd timau hŷn yr ardal. Mae gwisgo lifrau eu tîm neu bentref yn beth mawr iddynt. A chwarae o flaen y fath dorf wrth gws. Yr oedd yr olygfa o weld un o'r chwaraewyr ifancaf a'i shorts yn cyrraedd top ei esgidiau yn dweud cyfrolau ynddo'i hun. Braff hefyd oedd y cymysgu iach rhwng y timau. Dim rhyfedd fod timau Brynrefail a rhyw deyrngarwch iddynt pob blwyddyn.

Diolch i'r hyfforddwyr a ddyfarnodd y gemau iau i mi — roedd yn braff gallu gwyllo ambell gêm. Cynrychiolwyd Bethel (dau dîm) Llanrug a Llanberis yn rownd

gyn-derfynol Bl. 3/4. Dau dîm Bethel ddaeth i'r ffeinal gyda'r tîm 'A' yn curo tîm 'B' o 4-1. Roedd hyn yn coroni blwyddyn anhygoel i dîm Bethel 'A', gan iddynt ond colli un ac ennill 34 gêm yn ystod y tymor.

Yn yr oed hŷn, roedd pedwar tîm — Llanrug, Bethel, Llanberis a Deiniolen. Yn y rownd o bawb chwarae ei gilydd roedd Llanberis yn ddiguro. Yr ail dîm oedd Llanrug, ac felly y darbi draddodiadol rhwng y Llanau oedd hi. Cafwyd gêm gystadluol iawn, gyda Llanrug yn cipio'r Tlws o 1-0.

Tair awr o adloniant yw Tlws yr Eco. Boed iddi fynd o nerth i nerth. Diolch i bawb — mewn sawl ffordd sy'n chwarae rhan yn y llwyddiant yma. Welan ni chi flwyddyn nesaf — fe ddaw'n ddigon sydyn!

Timau Buddugol — Pêl-droed



Llanrug — buddugol yn y gystadleuaeth hŷn.



Llanberis — ail yn y gystadleuaeth hŷn.



Bethel 'A' — buddugol yn y gystadleuaeth iau.



Bethel 'B' — ail yn y gystadleuaeth iau.

Timau Buddugol — Pêl-rwyd



Llanrug — buddugol yn y gystadleuaeth hŷn.



Llanrug — buddugol yn y gystadleuaeth iau.

Rydym wedi neilltuo'r dudalen gefn y mis yma i Dlws yr Eco. Mae'r cystadleuthau bellach yn rhai pwysig iawn i blant yr ardal ac mae'n diolch yn sylweddol i Richard Ll. Jones, Golygydd Chwaraeon yr Eco am ei waith diflino yn trefnu'r achlysur. Pob lwc i holl dimau ac unigolion yr ardal dros yr haf — edrychwn ymlaen yn eiddgar i adrodd am eich campau yn rhifyn Medi.